Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Teithiau gwella deuddeg ysgol uwchradd

## Rhagfyr 2013

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- colegau arbenigol annibynnol;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau awdurdod addysg lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- Cymraeg i oedolion;
- dysgu yn y gwaith; a
- dysgu yn y sector cyfiawnder.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/cyhoeddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


**Rhagair gan PAEM** **1**

**Cyflwyniad** **3**

**Rhan Un: Deuddeg astudiaeth achos o'r modd y mae ysgolion yn gwella** **4**

Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed, Abertawe 4
Ysgol Uwchradd Cei Connah, Sir y Fflint 11
Ysgol Uwchradd John Summers, Sir y Fflint 18
Ysgol Uwchradd Mair Fendigaid, Caerdydd 23
Ysgol Uwchradd y Drenewydd, Powys 31
Ysgol Gyfun Oakdale, Caerffili 36
Ysgol Olchfa, Abertawe 43
Ysgol Gyfun Sandfields, Castell-nedd Talbot 48
Ysgol Bryn Elian, Conwy 56
Ysgol Cwm Rhymni, Caerffili 62
Ysgol Glan y Môr, Gwynedd 66
Ysgol Gyfun Gwyr, Abertawe 71

**Rhan Dau: Crynodeb o deithiau gwella ysgolion** **77**

Tasgau cyffredin i ysgolion ym mhob cyfnod datblygu 77
Symud o anfoddhaol i ddigonol 79
Symud o ddigonol i dda 81
Symud o dda i ragorol 82
Arweinyddiaeth yn ysgolion yr astudiaethau achos 84
Diagram cryno 86
Sut gall ysgolion ddefnyddio'r adroddiad 88

## Rhagair gan PAEM

*Mae angen gwahanol arddulliau arweinyddiaeth ar wahanol fathau o ysgolion*

Bydd angen gwahanol arddull arweinyddiaeth ar ysgol sydd yn y categori mesurau arbennig i'r hyn sydd ei angen mewn ysgol sydd â systemau cadarn yn eu lle eisoes a lle mae pawb yn cydweithio i gynnal safonau uchel.

Pan fydd y problemau a wynebir yn sylweddol a pherfformiad ysgol yn wan, dyma yn gyffredinol yw'r amser ar gyfer arweinyddiaeth uniongyrchol i gynnig camau gweithredu brys sy'n cael eu gyrru'n ganolog. Po fwyaf llwyddiannus yw ysgol, po fwyaf posibl yw hi i ddibynnu ar fodel arweinyddiaeth ddosbarthedig gan fod y diwylliant i geisio sicrhau gwelliant parhaus yn bodoli eisoes. Ar un pegwn, mae angen i chi ddatblygu cyfeiriad a strategaeth, sefydlu strwythurau sefydliadol newydd a chreu timau pwerus i wella addysgu a dysgu a symleiddio prosesau gwaith. Ond hyd yn oed mewn amgylchiadau eithafol, ni fydd llwyddiant yn gynaliadwy os caiff pobl eu gorfodi i gydymffurfio. Mae angen i staff ddeall pam mae newid yn digwydd a'r ffordd orau o reoli newid yw cynnwys pobl mewn proses sy'n golygu gwrando cyn gwneud penderfyniadau a chytuno ar gynlluniau terfynol. Mae gwrando'n iawn ar y bobl sy'n cymryd rhan yn beth bynnag y mae angen ei wella a sicrhau cydbwysedd rhwng eu pryderon a'u safbwyntiau tra'n parhau i symud ymlaen yn dangos arweinyddiaeth gref.

Efallai bod newid yn fwy heriol mewn ysgol gymedrol lle mae staff yn credu bod yr ysgol yn gwneud yn dda ac nid oes angen iddi wella. Yn y sefyllfa hon, mae angen gwneud diagnosis clir o'r heriau. I wneud hyn, mae angen i arweinwyr, gan gynnwys athrawon:

- sefydlu ethos o barch a hyder ar y ddwy ochr rhwng arweinwyr, gan gynnwys y pennaeth newydd a'r staff,
- creu sefydliad dysgu nad yw'n hunanfodlon ynghylch arferion presennol ond sy'n mynd ati'n barhaus i archwilio ffyrdd o wella;
- galw heibio ystafelloedd dosbarth a chraffu ar waith disgyblion yn systematig (hunanarfarnu);
- nodi pa gymorth sydd ei angen; a
- hyrwyddo diwylliant newydd o arloesedd.

Mewn ysgol sy'n arwain y sector, bydd angen parhau i fonitro cynnydd a gwella arfer er mwyn ymateb i fentrau newydd a gwneud yn siŵr bod safonau uchel yn cael eu cynnal. Ond y cyfrifoldeb arall sy'n dod law yn llaw â rhagoriaeth, wrth gwrs, yw sut i fynd ymhellach nag arwain y sector yn unig.

Mae arweinyddiaeth ragorol yn cyfrannu'n sylweddol at wella ysgolion unigol ac, yn hanfodol, mae'n allweddol i wella ar draws y system.

Mae rhai ysgolion uwchradd yn ysgolion ymarferwyr arweiniol sy'n cael cyllid i rannu eu harbenigedd ac arfer dda gydag ysgolion ymarferwyr 'datblygol' wedi'u paru. Ond hyd

yn oed os ydych yn gweithio mewn ysgol nad yw'n ymarferwr arweiniol, os oes gennych arfer arloesol ac effeithiol yn eich ysgol, eich gwaith yw lledaenu hynny, efallai o fewn eich teulu o ysgolion neu yn eich clwstwr lleol o ysgolion. Mae'n amod sicrhau 'rhagoriaeth sy'n arwain y sector' mewn arolygiadau Estyn y dylech fod yn rhannu'r arfer honno gydag ysgolion eraill.

Rhoddir mwy a mwy o bwyslais ar rwydweithiau o unigolion neu grwpiau neu glystyrau o ysgolion. Mae medrau penodol yn ymwneud â gwneud, defnyddio a chadw cysylltiadau mewn rhwydwaith, a medrau mwy yn ymwneud ag arwain ar draws rhwydweithiau er mwyn cyflawni amcanion ar y cyd. Mae hyn yn cynnwys deall y modd y mae partneriaid a rhwydweithiau'n gweithio a beth yw'r cyfyngiadau sydd arnynt.

I gydweithio, mae gofyn cael medrau i sefydlu dealltwriaeth ar y cyd o'r deilliannau rydych am eu cyflawni, a deall sut i ganfod a defnyddio'r llinellau dylanwad hynny sy'n arwain o'r strategol i'r gweithredol, er mwyn cyflawni'r deilliannau hynny. Mae angen i ni feddwl mewn ffordd fwy soffistigedig ynglŷn â sut i fframio ein disgwyliadau o'r math o arweinyddiaeth a fydd yn arwain at newid. Nid yw'n ddigon cyhoeddi arweiniad a gosod polisi nac arolygu cydymffurfiaeth. Mae ein hamcanion yn fwy cynnil a rhaid iddynt ymwneud ag ehangu gorwelion, alinio mentrau, meithrin gallu, dylanwadu ar bobl eraill, datblygu potensial a hwyluso dysgu. Mae angen i ni alluogi pawb yn y system addysg i ddysgu mwy, dysgu'n well a chymhwyso eu dysgu. Mae hynny'n cynnwys plant, pobl ifanc, athrawon, staff cymorth, arolygwyr, arweinwyr system, llunwyr polisi a phenaethiaid.



## Cyflwyniad

Dros y blynyddoedd, mae arolygwyr Estyn wedi ymweld ag ysgolion mewn cyfnodau datblygu amrywiol. Mae arolygiadau craidd ac ymweliadau dilynol, yn ogystal ag ymweliadau a gynhelir fel rhan o waith thematig, wedi galluogi arolygwyr i nodi ysgolion sy'n dda neu'n rhagorol neu sy'n gwneud cynnydd da neu ragorol o fan cychwyn isel.

Mae'r astudiaethau achos yn Rhan Un yr adroddiad hwn yn disgrifio ysgolion sydd ar eu teithiau gwella eu hunain. Mae'r dewis o astudiaethau achos yn cynrychioli "teithiau" o ystod o fannau cychwyn ac amrywiaeth o gyfnodau datblygu. Maent i gyd yn ysgolion sydd naill ai wedi gwella neu wedi cynnal lefel uchel o berfformiad. Ym mhob achos, mae'r pennaeth oedd â rôl allweddol mewn sicrhau gwelliant yn parhau i fod yn ei swydd.

Lluniwyd yr astudiaethau achos gan staff o'r ysgolion eu hunain ac maent yn dal eu naratif a'u harddull eu hunain. I adrodd y stori lawn, mae llawer o fanylion wedi'u cynnwys er mwyn disgrifio ac esbonio'r prosesau dan sylw. Mae'r astudiaethau achos wedi'u hysgrifennu yn llais yr ysgolion eu hunain, ond maent yn dilyn patrwm tebyg, gan ddechrau gyda chyd-destun yr ysgol, gan nodi tri ffactor a gyfrannodd at y gwaith, ac yn olaf, nodi'r strategaethau a'r gweithredoedd hynny sydd wedi bod yn llwyddiannus.

Mae Rhan Dau yr adroddiad hwn yn dwyn ynghyd rhai o nodweddion cyffredinol gwella ysgolion yn llwyddiannus, ar sail yr astudiaethau achos yn Rhan Un.

# Rhan Un: Deuddeg astudiaeth achos o'r modd y mae ysgolion yn gwella

## Astudiaeth achos 1 – Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed, Abertawe

Ysgol gyfun gymysg 11 i 16 yn Abertawe yw Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed. Mae tua 44% o ddisgyblion yn cael prydau ysgol am ddim; mae hyn gryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.4%, a chyfartaledd Abertawe, sef 18.3%.

Mae gan ryw 42% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, ac o hyn, mae gan 7% ohonynt ddatganiadau angen; mae'r rhain gryn dipyn yn uwch na'r cyfrannau cenedlaethol, sef 18.6% a 2.6% yn y drefn honno.

Mae'r tîm arweinyddiaeth yn cynnwys y pennaeth a dau ddirprwy bennaeth. Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er 2007, tra bod y dirprwyon wedi cael eu penodi'n fewnol ym Medi 2011.

Ym Medi 2012, symudodd yr ysgol i ysgol newydd ar yr un safle.

**Pa dri ffactor sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar wella safonau?**

- Ffocws ar wella presenoldeb trwy wella darpariaeth y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4 (Mesur Dysgu 14-19), gwella safonau addysgu a dysgu i sicrhau dysgu priodol ar gyfer pob disgybl a rhoi i ddisgyblion y medrau i gymryd rhan weithredol yn eu dysgu eu hunain.
- Hyfforddi pob aelod o staff dros gyfnod i ddefnyddio data perfformiad i osod targedau ac olrhain cynnydd disgyblion, er mwyn llywio strategaethau ymyrraeth mireiniedig yn barhaus.
- Arweinyddiaeth ddosbarthedig i alluogi datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) hunanddechreuol, i wneud y gorau o fomentwm a chyrhaeddiad newid fel bod gan bob aelod o staff gyfrifoldeb am godi safonau, eu bod yn anelu at hyn ac yn ymdrechu tuag ato, e.e. trwy grwpiau ffocws ar addysgu a dysgu, asesu, cofnodi ac adrodd (ACA), llythrennedd, rhifedd. Cânt eu diwygio a'u rhoi ar waith gan y staff i alluogi'r staff i arwain cynnydd.

Mae pob un o'r rhain yn arwain at ddeilliannau gwell sydd yn eu tro wedi codi dyheadau'r gymuned gyfan.

**Pa mor agos y mae'r ysgol yn cyd-fynd â chyfnodau'r model taith i wella? Pam?**

Mae'r nodweddion cyffredin yn cynrychioli ein gweledigaeth syml, glir sy'n ategu ein taith (yn defnyddio amser y presennol gan ein bod bob amser ar y daith):

- Arweinyddiaeth a gweledigaeth gref, gan ffurfio strategaeth ddynamig.

- Diwylliant dysgu cryf a magu dyheadau ar gyfer pob disgybl.
- Strategaeth llythrennedd a rhifedd ysgol gyfan gyda datblygiad medrau cryf, wedi'i gryfhau gan lythrennedd a rhifedd clwstwr; arfer sefydledig sy'n trawsnewid.
- Mae pob aelod o staff yn cymryd rhan mewn cynllunio a gwneud penderfyniadau ac mae pob aelod o staff yn atebol. Ceir systemau sicrhau ansawdd cadarn sydd i gyd wedi'u seilio ar gyfathrebu personol trwy strwythur rheoli llinell gwirioneddol ac effeithiol.
- Ffocws craff ar addysgu a dysgu gyda grwpiau ffocws yn datblygu meysydd allweddol ac yn gwella cysondeb. Mae monitro ansawdd wedi'i ymgorffori'n ddwfn yn strwythur sicrhau ansawdd rheolwyr llinell, a phob athro'n anelu at symud o Dda i Ragorol. Proses sicrhau ansawdd 360° sy'n cynnwys arsylwadau gwersi gan y tîm arweinyddiaeth, adolygu adrannol, monitro llyfrau, arsylwadau gwersi rheolwyr llinell, hunanarfarnu a gosod targedau rheoli perfformiad ar gyfer gwella.
- Llywodraethwyr wrth wraidd y broses gwneud penderfyniadau, gyda DPP wedi'i arwain gan staff yn yr ysgol a chyfeillgarwch beirniadol agored a gonest. Mae llywodraethwyr wedi'u hyfforddi mewn defnyddio a dadansoddi data perfformiad ac mae hyn yn ganolog i'r broses sicrhau ansawdd.
- Cwricwlwm dynamig wedi'i staffio'n briodol ar gyfer pob un o'r disgyblion sy'n adlewyrchu blaenoriaethau'r ysgol, a rhai lleol a chenedlaethol ac yn cynnig gwerth gorau.

Mae ein hadroddiad Estyn yn nodi pob un o'r uchod fel cryfderau, wedi'u barnu o Dda i Ragorol, a rhai wedi'u dyfynnu fel nodweddion 'rhagorol'.

## Strategaeth ar gyfer gwella

Y ffocws strategol allweddol ar gyfer y gwelliannau er 2007 fu gwella presenoldeb oherwydd oni bai bod disgyblion yn mynychu, ni fyddai cyfle i wella deilliannau. Nid dull yr ysgol oedd gwella systemau i wella presenoldeb yn unig. Roedd angen rheswm ar ddisgyblion i ddod i'r ysgol. Roedd angen newid ethos a diben yr ysgol yn ei hanfod. Roedd angen i ddisgyblion fod yn yr ysgol yn disgwyl cyflawni ac felly aeth yr ysgol ati i ganolbwyntio ar y canlynol:

- gwella addysgu a dysgu;
- newid y cwricwlwm i sicrhau bod llythrennedd a rhifedd yn gwella yng nghyfnod allweddol 3 a bod disgyblion 14 oed yn gallu dewis cyrsiau a oedd yn bodloni eu hanghenion a'u dyheadau; a
- newid canfyddiadau disgyblion, rhieni, staff a'r gymuned ehangach.

## Camau gweithredu

## Adroddiad Estyn 2005

Mae graddau arolygu yn awgrymu bod diffygion pwysig mewn perthynas â phresenoldeb, safonau, addysgu ac asesu, profiadau dysgu, arweinyddiaeth a gwella ansawdd.

## 2005-2007 (Anfoddhaol i Ddigonol)

Rhoddwyd cynllun datblygu ar waith i ymateb i arolygiad Estyn. Parhaodd presenoldeb i fod yn flaenoriaeth strategol gyfyngedig. Roedd hyder isel ymhlith staff wrth reoli ymddygiad. Sefydlwyd grwpiau dal i fyny â llythrennedd, ond nid oedd llawer o ffocws ar lythrennedd y tu allan i Saesneg a'r ddarpariaeth anghenion addysgol arbennig. Roedd strwythur rheoli rhy eang wedi mynd yn rhy fawr i'r ysgol a gadawodd rhai o'r tîm arweinyddiaeth yr ysgol. Erbyn Medi 2007, lleihawyd y tîm i bennaeth, dau ddirprwy a rheolwr busnes. Cynhyrchwyd data sylweddol, ond cafodd staff hyfforddiant cyfyngedig i'w ddefnyddio, ac o ganlyniad, gwnaed defnydd anghyson ohono i ysgogi gwelliant. Parhaodd yr hunanarfarnu cyfyngedig ac ni chafodd staff unrhyw hyfforddiant o ran sut i weithredu'r hyn yr oedd ei angen. Roedd proses rheoli perfformiad; nid oedd hyn wedi'i chysylltu â hunanarfarnu na chynllunio datblygiad. Roedd gan yr ysgol enw gwych am fod yn ysgol ofalgar yng nghanol ei chymuned. Fodd bynnag, nid oedd ei henw fel sefydliad dysgu yn dda, roedd disgwyliadau o ran safonau yn isel. Parhaodd deilliannau i fod yn anfoddhaol i ddigonol.

## 2007-2009 Digonol i Dda

Penodwyd pennaeth newydd – cyd-destun heriol a diffyg mawr yn y gyllideb.

*Ymddygiad a phresenoldeb*
Datblygwyd dull strategol ar gyfer presenoldeb ac fe'i rhoddwyd ar waith. Cafodd grŵp ffocws presenoldeb ei sefydlu a'i ymgorffori. Adnewyddwyd y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4 i gynnwys opsiynau galwedigaethol ac academaidd mewn ystod o leoliadau. Sefydlwyd uwch dîm bugeiliol ac fe gafodd dull cyson ar gyfer safonau ymddygiad ei sefydlu a'i ymgorffori.

*Medrau llythrennedd*
Mae adrannau'r dyniaethau yn arbrofi â strategaeth llythrennedd ysgol gyfan sampl wedi'i harwain gan staff hyfforddedig yn yr adran Saesneg. Cafodd hyn ei fodelu ar gyfer aelodau eraill o staff wedyn. Sefydlwyd Cymuned Ddysgu Broffesiynol (CDdB) ar gyfer llythrennedd. Penodwyd cydlynwyr llythrennedd a rhifedd.

*Strwythur rheoli / arweinyddiaeth ddosbarthol*
Caiff y cyfrifoldebau addysgu ac arwain (CAA) eu hailstrwythuro ac fe gaiff swyddi CAA ysgol gyfan eu creu i ysgogi gwelliant a datblygu blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae'r system cyfadrannau yn ailstrwythuro ac yn adfywio'r strwythur blaenorol gan helpu i leihau'r diffyg yn y gyllideb. Mae'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn gyrru'r cynllunio datblygiad ysgol wedi'i drawsnewid.

*Dadansoddi a defnyddio Data Perfformiad*
Mae'r swydd CAA newydd dynodedig yn mireinio ac yn symleiddio data allweddol, yn hyfforddi staff mewn dehongli data ac yn galluogi defnyddio data i lywio hunanarfarnu a sicrhau ansawdd.

*Gweithgorau / targedu disgyblion / olrhain cynnydd*
Grŵp Ffocws CAA Gweithredol, sy'n cynnwys aelodau allweddol o staff cysylltiol, penaethiaid cyfadrannau ac adrannau, yn dyfeisio polisi CAA newydd, gweithdrefnau a

dogfen alluogi i'w chysylltu â system rheoli gwybodaeth yr ysgol, sy'n golygu y gellir defnyddio taflenni marcio electronig.

*Diwylliant hunanarfarnu*
Mae dealltwriaeth well o ddata yn llywio hunanarfarnu effeithiol. Mae 'Grŵp Hyrwyddwyr Hunanarfarnu' yn gyrru system newydd sy'n gysylltiedig â'r fframwaith arolygu cyffredin newydd. Mae'r tîm arweinyddiaeth wedi rhoi arsylwadau gwersi ysgol gyfan ar waith yn flynyddol fel rhan o ddatblygu proses sicrhau ansawdd.

*Rheoli perfformiad / arsylwi cymheiriaid*
Mae hunanarfarnu gwell yn llywio gosod targedau, yn canolbwyntio ar wella'r broses rheoli perfformiad, sydd felly'n galluogi cyfrifoldebau ar y cyd a newid olrhain cyflym. Galluogir rhannu arfer orau trwy arsylwadau cymheiriaid mewn amser a enillir.

*Partneriaeth gymunedol*
Mae rhieni yn cymryd rhan yng nghynnydd disgyblion trwy hyfforddiant sydd wedi'i ddyfeisio i'w cefnogi i gynorthwyo eu plentyn trwy arholiadau, a datblygu llythrennedd a rhifedd eu plentyn. Codi proffil nosweithiau rhieni, rhieni yn cael eu targedu i wella presenoldeb a chyfranogiad. Mae deialog well yn arwain at wybodaeth o ansawdd gwell ar gynnydd eu plentyn. Estynnodd yr ysgol yr arfer o ofyn am safbwyntiau rhanddeiliaid. Cyhoeddwyd prosiect ar gyfer adeilad newydd.

**2009-2011 Da i Ragorol**

*Ymddygiad a phresenoldeb*
Mae presenoldeb yn chwartel 1 ers pedair blynedd yn olynol erbyn hyn. Mae presenoldeb yng nghyfnod allweddol 4 yn gwella'n gyson. Mae tîm staff cysylltiol dynodedig sy'n dra hyfforddedig mewn rheoli a monitro ystod y materion sy'n cefnogi presenoldeb. Cafodd prydlondeb a thriwantiaeth eu lleihau i'r eithaf o ganlyniad i systemau electronig a ddefnyddir yn gyson. Rhoddir blaenoriaeth i bresenoldeb yn yr holl gyfarfodydd, gan gynnwys llywodraethwyr. Mae'r uwch dîm bugeiliol yn gweithredu fel cydlynwyr dysgu gyda chyfrifoldeb am safonau yn agwedd allweddol eu rôl. Roedd pwyllgor disgyblu'r corff llywodraethol yn ganolog wrth fonitro ymddygiad y disgyblion sydd fwyaf agored i niwed. Mae'r uwch dîm bugeiliol yn rheoli ymateb cyson at faterion ymddygiad gan ddefnyddio systemau rheoli ymddygiad electronig. Dull cyffredin o ymdrin â gwaharddiadau, datganiad o gyfarfodydd gwahardd gyda rhieni, defnyddio'r uned cynhwysiant.

*Medrau llythrennedd*
Mae strategaeth llythrennedd ysgol gyfan yn trawsnewid mynediad y disgyblion i'r cwricwlwm. Mae cydweithio o ran llythrennedd yn y clwstwr yn dyfnhau o ran ei effaith. Gwelliannau sylweddol yng nghanran y disgyblion sy'n dechrau Blwyddyn 7 gydag oedrannau darllen chwe mis neu fwy islaw eu hoedran cronolegol. Cyllid Rhagori a'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion wedi'i dargedu at strategaeth llythrennedd gyffredin i'r clwstwr. Cymuned ddysgu broffesiynol glwstwr ar waith, sy'n ymgorffori dealltwriaeth ac iaith gyffredin. Ysgol yn rhannu arfer orau ar draws y sir ac ar draws awdurdodau eraill. Cydlynwyr llythrennedd yn modelu arfer orau'r ysgol. Mae'r ysgol yn cyflwyno hyfforddiant ar draws ysgolion yn Ne Cymru ac mewn cynadleddau rhanbarthol a chenedlaethol.

*Strwythur rheoli / arweinyddiaeth ddosbarthol*
Ailstrwythuro cyfrifoldebau addysgu a dysgu ac ailstrwythuro'r tîm arweinyddiaeth ymhellach i rannu arweinyddiaeth a galluogi gwerth gorau. Diwylliant amlwg a chynyddol o ddisgwyliadau uchel. Mae tîm arweinyddiaeth estynedig wedi cael ei sefydlu a'i ymgorffori i ysgogi arweinyddiaeth ar y cyd a galluogi ymholi a myfyrio. Adeiladu rheoli dilyniant ar fodel arweinyddiaeth ddosbarthedig. Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn trawsnewid cynllunio a datblygiad ysgolion.

*Dadansoddi a defnyddio Data Perfformiad*
Mae cyfadrannau ac adrannau yn hynod gymwys a rhugl wrth ddefnyddio data i lywio'r penderfyniadau a wneir am gynnydd disgyblion. Mae pob un o'r staff wedi cael eu hyfforddi a'u hail hyfforddi yn y ffordd y mae'r ysgol yn defnyddio data i sicrhau dull cydlynol. Mae pob un o'r staff wedi cael eu hyfforddi mewn dehongli Pecyn Data Craidd Cymru Gyfan. Darperir clinigau data i gynorthwyo staff wrth ddiweddaru hunanarfarniadau. Cymorth cymheiriaid wrth ddadansoddi data. Mae disgyblion wedi cael eu hyfforddi mewn deall a monitro eu cynnydd eu hunain a'r 'Radd Targed Gyffredinol' yn cael ei deall fel mesur cynnydd. Mae strategaethau ymyrraeth wedi'u targedu yn ôl anghenion unigol, p'un ai i fynd i'r afael â thangyflawni neu gefnogi perfformiad uwchlaw targed.

*Gweithgorau / targedu disgyblion / olrhain cynnydd*
Caiff disgyblion eu gosod yn eglur yng nghanol deall asesu. Mae asesu wedi dod yn broses gyfannol a'r system 'Gradd Targed Gyffredinol' yn llywio adolygiad academaidd tymhorol, y caiff ei ddeilliannau eu rhannu gyda disgyblion trwy gyfarfod unigol gyda'r tiwtor dosbarth. Mae hyn yn ei dro yn cefnogi gosod targedau disgyblion i symud ymlaen i'r adolygiad nesaf. Rhoddir gwybod i rieni am dangyflawniad neu gyflawniad disgyblion uwchlaw disgwyliadau trwy lythyr, a rhoddir cyfle iddynt drafod gydag aelod o staff yr ysgol. Mae'r broses asesu, cofnodi ac adrodd yn ddynamig ac wedi'i diwygio i ymateb i anghenion sy'n newid – e.e. cafodd ei diweddaru i adlewyrchu ffocws cynyddol yr ysgol ar ddatblygu medrau sylfaenol yn well. Ailwampiwyd adroddiadau interim a phrif adroddiadau i roi gwybodaeth glir i rieni.

*Diwylliant o hunanarfarnu*
Ymgorfforir hunanarfarnu a myfyrio proffesiynol mewn diwylliant cyfadrannau ac adrannol. Canolbwyntiodd Cymunedau Dysgu Proffesiynol (CDPau) ar yrru llythrennedd, rhifedd ac Anghenion Addysgol Arbennig a llywio gwelliant. Mae Cymunedau Dysgu Proffesiynol sirol yn ehangu gwybodaeth, medrau a phrofiad staff. Mae DPP yn agored i bob aelod o staff addysgu a staff cysylltiol. Mae nifer gynyddol o ymwelwyr yn dod i'r ysgol i rannu arfer orau ac mae'n darparu mewnbynnau ar gynadleddau a diwrnodau hyfforddiant mewn swydd yr ysgol. Mae'r ysgol wedi cyfrannu at adroddiad thematig gan Estyn ar hunanarfarnu yn gyrru gwelliant.

*Llais y Dysgwr*
Mae llais y disgybl wedi datblygu i ymestyn ymglymiad ar y corff llywodraethol, llais y disgybl yn y cwricwlwm yn y dyniaethau ac Addysg Gorfforol yn myfyrio ar, ac yn adolygu, datblygiad y cwricwlwm a chynllunio datblygiad yr ysgol. Rhannwyd yr arfer orau hon gydag ysgolion eraill gan gynnwys trwy gynadleddau rhanbarthol iNet

(sefydliad Rhwydweithio Rhyngwladol ar gyfer Trawsnewid Addysgol) trwy eu cynadleddau disgyblion ac ar gyfer diwrnodau HMS.  Mae datblygu llais y disgybl yn y cwricwlwm i'w weld mewn adroddiad Estyn ynghylch 'Codi Safonau mewn ardaloedd o Dlodi ac Amddifadedd'.

**Deilliannau**

**2005**
Presenoldeb 83%
Trothwy lefel 2 34%
Trothwy lefel 1 74%
DPC 28%
Gadael heb unrhyw gymhwyster 7%

**2005-2007 Anfoddhaol i ddigonol**
Ychydig o welliannau erbyn 2007.
Presenoldeb 86%
Trothwy lefel 2 40%
Trothwy lefel 1 86%
DPC 23%
Gadael heb unrhyw gymhwyster 3.5%

**2007-2009 Digonol i dda**
Erbyn 2009
Presenoldeb 90%
Lefel 2 gan gynnwys Saesneg a mathemateg 33%
Trothwy lefel 2 41%
Trothwy lefel 1 88%
DPC 32%
Gadael heb unrhyw gymhwyster 5.3%

**2009-2011 Da i ragorol**
Erbyn 2011
Presenoldeb 91%
Lefel 2 gan gynnwys Saesneg a mathemateg 40%
Trothwy lefel 2 61%
Trothwy lefel 1 96%
DPC 38%
Gadael heb unrhyw gymhwyster 0%

**Deilliannau arolygu 2011**

Barnwyd bod Cefn Hengoed yn ysgol dda oherwydd:

- mae safonau cyrhaeddiad cyffredinol yn dda ac yn gwella;
- mae medrau disgyblion yn dda neu'n well ac yn parhau i wella;

- mae ymddygiad disgyblion yn eithriadol o dda;
- mae'r ethos yn hynod gryf;
- mae gofal, cymorth ac arweiniad yn rhagorol ac yn cyfrannu'n effeithiol at ddeilliannau a lles disgyblion; ac
- mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn hynod effeithiol.

Barnwyd bod ei rhagolygon gwella yn rhagorol o ganlyniad i'r canlynol:

- arweinyddiaeth ragorol y pennaeth a'r tîm arweinyddiaeth;
- cymorth eithriadol o dda gan staff ar bob lefel;
- gwelliant hynod lwyddiannus mewn safonau dros y ddwy flynedd ddiwethaf;
- diwylliant o ddisgwyliadau uchel yn amlwg ar draws yr ysgol;
- systemau sefydledig a chadarn i adolygu cynnydd a nodi meysydd i'w gwella; a
- blaenoriaethau clir ar gyfer gwelliannau sy'n cael eu cefnogi gan gynlluniau addas ac adnoddau wedi'u dyrannu.

Ac yn 2012…

Yng nghyfnod allweddol 4, bu gostyngiad chwartel meincnod yn yr holl ddangosyddion allweddol heblaw presenoldeb.  Problemau â Saesneg TGAU sy'n bennaf gyfrifol.  Gan na ddefnyddiodd yr ysgol arholiadau Saesneg CBAC, ni chawsant eu hailfarcio, felly cafodd symud y ffiniau gradd effaith andwyol ar y canlyniadau.
Fodd bynnag, arhosodd perfformiad uwchlaw'r llinell disgwyliadau a chynnydd wedi'u modelu o gyfnod allweddol 2 mewn gwerthoedd cadarnhaol heblaw lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg.  Roedd i hyn werth negyddol ond nid oedd yn werth arwyddocaol.

## Astudiaeth achos 2 – Ysgol Uwchradd Cei Connah, Sir y Fflint

### Cyd-destun

Ysgol gyfun gymysg 11-18 cyfrwng Saesneg yw Ysgol Uwchradd Cei Connah gyda 992 o ddysgwyr, gan gynnwys 120 o ddysgwyr yn y chweched dosbarth. Mae wedi'i lleoli yn awdurdod lleol Sir y Fflint. Mae 14.8% o ddysgwyr yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef rhyw 17%.

Nid oes unrhyw ddisgyblion yn dod o gartrefi Cymraeg. Mae 2.5% o ddysgwyr yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol ar hyn o bryd. Mae'r disgyblion sy'n cael eu derbyn i'r ysgol yn cynrychioli'r ystod gallu llawn. Mae gan ychydig llai na 2% o ddisgyblion ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ffigur hwn ychydig islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan.

Dechreuodd y pennaeth ar ei swydd yn 2002. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth (UDA) presennol yn cynnwys un dirprwy bennaeth, dau bennaeth cynorthwyol a rheolwr busnes. Crëwyd tair swydd datblygiad proffesiynol ychwanegol i gynyddu gallu'r tîm arweinyddiaeth i gefnogi datblygiadau ysgol gyfan. Mae'r ysgol yn un o ddwy ysgol yng Ngogledd Cymru sy'n creu'r Ganolfan Arloesedd mewn cydweithrediad ag iNET.

Mae'r ysgol yn ceisio gwireddu ei harwyddair "Rydym ni'n gofalu" ("We care") ym mywydau pob un o'r dysgwyr. Mae'n gofalu am ddatblygiad academaidd dysgwyr a'u lles yn gyfartal.

### Strategaeth

- Cynyddu cyrhaeddiad pob dysgwr
- Datblygu medrau pob dysgwr mewn modd cyfannol i'w paratoi ar gyfer eu rôl mewn cyflogaeth ac mewn cymdeithas yn y dyfodol
- Sicrhau ein bod ni, fel staff yn yr ysgol, yn gweithio tuag at ragoriaeth ym mhopeth a wnawn i sicrhau deilliannau rhagorol ar gyfer dysgwyr a datblygu rôl yr ysgol yn y gymuned

Datganiad cenhadaeth yr ysgol yw sicrhau bod pawb:

- Yn cyflawni safonau uchel
- Yn ymgymryd â dysgu rhagorol
- Yn ddinasyddion cyfrifol sy'n cael eu paratoi'n dda
- Yn cael cymorth a her o ansawdd uchel.

Caiff y weledigaeth hon ei rhannu'n effeithiol gyda phawb yng nghymuned yr ysgol.

### Pa dri ffactor sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar wella safonau?

### 1 Datblygu medrau pob dysgwr – dysgu cyfannol, sy'n berthnasol i bawb

Mae ffocws yr holl weithgarwch gwella ysgol wedi cael ei seilio ar yr awydd i barhau i wella cyflawniad pob dysgwr yn yr ysgol. Datblygwyd hyn mewn ffordd gyfannol iawn lle rhoddwyd blaenoriaeth uchel iawn i ddatblygu medrau. Mae'r datblygiad medrau hwn

wedi bod yn ffactor arwyddocaol a gyfrannodd at sicrhau bod y deilliannau ar gyfer dysgwyr wedi parhau i godi.

*Cwricwlwm integredig ym Mlwyddyn 7*

Mae Ysgol Uwchradd Cei Connah yn cyflwyno pynciau'r dyniaethau ac addysg bersonol a chymdeithasol mewn ffordd integredig.

Dyma'r chwe thestun sy'n cael eu hastudio trwy gydol y flwyddyn:

- ymennydd craff (dulliau dysgu i ddysgu, ymdrinnir â nhw yn nhymor yr Hydref);
- caethwasiaeth;
- amser;
- masnach deg;
- materion byd-eang; a
- newyddion cyfoes.

*Effaith*

- Mae dysgwyr Blwyddyn 8, a astudiodd y cwricwlwm thematig ym Mlwyddyn 7, yn llawer gwell mewn gwaith grŵp. O ganlyniad, mae athrawon yn fwy hyderus wrth drefnu gweithgareddau gwaith grŵp.
- Mae dysgwyr yn well yn esbonio'r rhesymau dros eu syniadau/hatebion, mewn ldosbarth cyfan neu un i un.
- Ar gyfer asesiadau bob hanner tymor, mae disgyblion wedi gwella eu medrau adolygu trwy gyfeirio at fapiau meddwl a thechnegau asesu ar gyfer dysgu i'w helpu.
- Sylwodd athrawon ar welliannau cadarnhaol yn hyder disgyblion a'u hannibyniaeth wrth ddysgu.

*Datblygu Llythrennedd a Rhifedd*

Mae Ysgol Uwchradd Cei Connah wedi ymateb yn effeithiol i'r angen i wella llythrennedd a rhifedd yn yr ysgol. Mae gan yr ysgol gydlynwyr ar gyfer Llythrennedd a Rhifedd sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r dirprwy bennaeth.

Yn dilyn cyfres o sesiynau HMS, crëwyd cynllun chwe phwynt i sicrhau cysondeb a safonau uchel wrth ddatblygu medrau llythrennedd dysgwyr. Mae effaith hyn wedi bod yn arwyddocaol gyda gostyngiad o bron i 10% yn nifer y dysgwyr y mae eu hoedran darllen islaw naw oed a chwe mis.

*Datblygu Medrau Meddwl*

Ym Mlwyddyn 8, mae pob maes cwricwlwm yn datblygu 'arfer meddwl'. Cyflwynwyd y dull hwn i ddisgyblion Blwyddyn 8 gan aelod o staff sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu medrau meddwl, mewn diwrnod ffocws ar y cwricwlwm, pan gafodd yr amserlen ei hatal.

Bydd disgyblion yn ymgymryd â gwahanol weithgareddau ym mhob maes pwnc ynglŷn â medrau meddwl a medrau dysgu ‘arferion meddwl’. Mae pob maes cwricwlwm yn canolbwyntio ar ‘arfer meddwl’ wahanol i’w datblygu gyda disgyblion yn ystod y flwyddyn. Mae sesiynau tiwtorial a gwersi addysg bersonol a chymdeithasol yn atgyfnerthu’r dull hwn hefyd. Mae dysgwyr yn dilyn rhaglen 10 wythnos mewn medrau meddwl sydd wedyn yn cael ei hatgyfnerthu ar draws y cwricwlwm. Mae’r pwyslais ar ddatblygu dysgwyr annibynnol.

*Ffocws ar fedrau mewn asesu*

Gofynnwyd i Ysgol Uwchradd Cei Connah gymryd rhan mewn rhaglen 18 mis yn ymwneud â datblygu asesiadau PISA. Cynnwys y gweithdy cyntaf oedd rhannu gwybodaeth ynghylch PISA ac arddull y cwestiynau a ddefnyddir yn asesiadau PISA. Rhoddwyd enghreifftiau o gwestiynau arddull PISA i gydweithwyr a fynychodd y gweithdy, a gofynnwyd iddynt ymgymryd ag asesiad gwaelodlin ar grŵp o ddysgwyr Blwyddyn 10. Wedi iddynt fynd yn ôl i’r ysgol, dewiswyd grŵp tiwtor Blwyddyn 10 i fod yn rhan o arbrawf PISA. Wedyn, fe wnaethant gwblhau’r asesiad gwaelodlin. Wedyn, dadansoddwyd y canlyniadau o’r asesiad gwaelodlin gan yr athro arweiniol ac fe’u rhannwyd gyda chydweithwyr eraill yn ystod yr ail weithdy.

Nod yr ail weithdy oedd rhannu unrhyw ganfyddiadau o’r asesiad gwaelodlin; canolbwyntio ar ddulliau addysgeg effeithiol; rhannu offer ac ymyriadau y gellid eu defnyddio i gynorthwyo’r dysgwyr i ddadadeiladu asesiadau arddull PISA, yn ogystal â chwestiynau arddull arholiad cyfatebol.

*Yr asesiad gwaelodlin*

Fel y nodwyd uchod, dewiswyd grŵp tiwtor Blwyddyn 10 gallu cymysg i arbrofi â rhaglen PISA. Roedd yr asesiad gwaelodlin yn cynnwys chwe chwestiwn; dau o bob parth (gwyddoniaeth, mathemateg a darllen).

Cafodd yr asesiad gwaelodlin ei farcio a’i ddadansoddi. Ar y cyfan, perfformiodd y dysgwyr braidd yn wael yn yr asesiadau gwaelodlin. Mewn rhai achosion, gadawyd llawer o’r cwestiynau heb eu hateb.

Llenwodd y dysgwyr holiadur hefyd er mwyn cael cipolwg ar eu meddyliau ynglŷn â’r cwestiynau arddull PISA.

*Ymyriadau a fframweithiau a ddefnyddir i gynorthwyo’r dysgwyr*

Safleoedd diemwnt a’r gweithgaredd matiau bwrdd
Defnyddiwyd y gweithgareddau hyn er mwyn cynorthwyo’r dysgwyr i ddethol gwybodaeth allweddol a pherthnasol o ddarn o destun.

*Meddwl/pâr/rhannu*

Rhoi amser meddwl iddynt allu meddwl am atebion/ffyrdd o ddatrys cwestiwn neu broblem. Mae’r cam paru yn galluogi’r dysgwyr i fagu hyder. Mae rhannu eu meddyliau

gyda phartner yn llai brawychus na rhannu gyda'r dosbarth cyfan.  Os yw'r naill a'r llall ohonynt yn cytuno, yna mae hyn yn magu hyder o ran rhannu eu meddyliau gyda'r dosbarth cyfan.

*Sgwâr ffynhonnell*

Mae hyn yn hynod ddefnyddiol o ran dethol a dehongli gwybodaeth o graff neu siart. Mae arholiadau yn awr yn symud tuag at yr arddull hon o holi sy'n disgwyl i'r dysgwyr allu dehongli gwybodaeth neu ddata yn llawn oddi mewn i'r cwestiwn.

*Diagram asgwrn pysgodyn*

Rhoddir pwyslais enfawr erbyn hyn ar bwysigrwydd llythrennedd ar draws y cwricwlwm. Gwelir tystiolaeth o hyn yn benodol mewn cwestiynau arddull arholiad lle mae marciau yn awr yn cael eu dyfarnu ar gyfer defnydd cywir o iaith gan ddysgwyr.  Mae'r dechneg hon yn hynod ddefnyddiol i'w cynorthwyo i ysgrifennu neu ateb cwestiynau arddull arfarnu manwl.  Mae'r templed wedi'i strwythuro er mwyn eu hyrwyddo i dynnu manteision ac anfanteision o ddarn o ysgrifennu estynedig.  Mae hefyd yn eu hannog i feddwl am ddatganiad clo o ran eu harfarniad.

*Yr effaith*

Bydd y dysgwyr i gyd yn ailsefyll yr asesiad gwaelodlin ar ryw adeg yn ystod Blwyddyn 11 er mwyn asesu effaith yr ymyriadau y maent wedi bod yn arbrofi â nhw.  Nod yr ymyriadau yw gwella gallu'r dysgwyr i feddwl yn annibynnol a dadadeiladu eu dysgu eu hunain.

Yn y tymor byr, mae wedi dod yn amlwg fod defnyddio'r offer a'r ymyriadau yn rheolaidd wedi cael effaith gadarnhaol ar alluoedd y dysgwyr i ddethol gwybodaeth o destun, data neu wybodaeth graffigol.  Fodd bynnag, nid yw'r gwelliant hwn yn digwydd dros nos. Mae'r dysgwyr yn dibynnu ar ddefnyddio'r offer/templedi am eu cynigion i ddadadeiladu cwestiynau arddull PISA neu arholiadau.  Fodd bynnag, pan fydd defnydd o ymyriadau wedi cael ei ymgorffori, yna fe wnaethant ddangos eu gallu i fynd i'r afael â'r math hwn o holi yn llawer mwy annibynnol.  Roedd angen atgoffa dysgwyr ychydig ynglŷn â sut y byddent wedi mynd i'r afael â'r cwestiynau gan ddefnyddio'r templed.  Fodd bynnag, ar ôl rhoi pethau syml i'w hatgoffa, fe wnaethant allu datrys y broblem yn annibynnol.  Does dim dwywaith fod cysondeb yn allweddol er mwyn gwneud defnydd llwyddiannus o'r ymyriadau hyn.  Mae'r technegau y maent yn eu defnyddio yn rheolaidd yn dod yn arfer dysgu yn y pen draw.  Wedyn, gallant drosglwyddo'r medr hwn ar draws y cwricwlwm mewn cwestiynau estynedig o unrhyw arddull.

I gloi, bydd y ffurf fwyaf pendant o dystiolaeth yn amlwg yn y dadansoddiad o'r ailgyflwyniad o gwestiynau'r asesiad gwaelodlin ac yn bennaf oll, eu canlyniadau TGAU yn ystod haf 2013.

## 2 Datblygu dysgu ac addysgu rhagorol – symud tuag at safonau rhagorol

*HMS*

Yn dilyn archwiliad yn edrych ar anghenion hyfforddi staff y teimlwyd bod angen mynd i'r afael â nhw er mwyn sicrhau bod safonau rhagorol yn cael eu cyflawni, nodwyd bod HMS yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau i ymateb i anghenion y grwpiau o ddysgwyr sy'n fwy agored i niwed; byddai defnyddio data i lywio dysgu ac addysgu a datblygu medrau wrth gyflwyno llythrennedd a rhifedd o fantais. O ganlyniad, cafodd rhaglen o weithdai ei chreu a'i chyflwyno i ymateb i'r anghenion hyn.

*Mentora pendant – dyheadau uchel i bawb*

Mae'r ffocws ar gyfer dysgwyr a staff wedi bod ar lefel uchel o her a chymorth. Cyfeirir yn eglur at y termau hyn yn yr ysgol, ac maent yn dermau sy'n cael eu diffinio a'u deall yn glir. Mae staff yn atebol am eu gwaith a dysgwyr yn atebol am eu hastudiaethau. Mae system o dargedau heriol iawn sydd wedi'i seilio ar egwyddorion mentora pendant wedi golygu bod yr her hon yn cael ei gwireddu bob dydd i bawb yn yr ysgol. Gwneir hyn, fodd bynnag, mewn amgylchedd o gymorth sy'n cael ei gwmpasu yn systemau cymorth bugeiliol yr ysgol, sy'n cynnwys cymorth amlasiantaethol. Mae'r ysgol wedi ennill y Marc Safon Cynhwysiant ac yn sicrhau mai'r datblygiad hwn sydd wrth wraidd ei gwaith.

*CGAG*

Mae'r ysgol wedi defnyddio model cyson o ran 'Cynllunio, Gwneud, Astudio a Gweithredu' fel offeryn rheoli newid o ran arfer ystafell ddosbarth. Mae hyn wedi sicrhau y gellir arfarnu newidiadau ar raddfa fach ac wedyn eu cynyddu lle sicrhawyd deilliannau cadarnhaol.

*API*

Mae'r ysgol wedi mabwysiadu proses flynyddol o 'Adolygiadau Proffesiynol Unigol', sy'n galluogi staff i fyfyrio ar ddeilliannau'r flwyddyn flaenorol a sicrhau gwelliannau ar gyfer blynyddoedd dilynol.

*CDPau*

Mae'r ysgol wedi gwneud defnydd rhagorol o Gymunedau Dysgu Proffesiynol i ddatblygu dysgu ac addysgu ymhellach yn yr ysgol. Mae CDPau yn canolbwyntio ar wella safonau mewn dysgu ac addysgu ac maent wedi'u cynllunio i fynd i'r afael yn benodol â materion a nodwyd yn system sicrhau ansawdd yr ysgol. Mae effaith y CDPau wedi cyfrannu at y ffocws di-ildio ar ddysgu ac addysgu a'r ddeialog gyson ynghylch sut y gellid datblygu hyn ymhellach.

## 3 Sicrhau ansawdd – arweinyddiaeth ddosbarthedig

Her uchel a chymorth uchel sydd wrth wraidd bwriadau Ysgol Uwchradd Cei Connah. Mae'r egwyddorion hyn yr un mor berthnasol i ddysgwyr a staff. O'r egwyddorion hyn y dechreuwyd ymgysylltiad cyfannol â'r broses sicrhau ansawdd drylwyr yn yr ysgol.

Yn hanesyddol, roedd yr ysgol wedi cynnal arsylwadau gwersi, a gynhaliwyd gan uwch arweinwyr yn yr ysgol ac roedd hyn yn cyfrannu at wella safonau a darpariaeth. Y man cychwyn ar gyfer datblygu system sicrhau ansawdd / proses hunanarfarnu ysgol gynhwysfawr oedd creu system lle'r oedd arweinyddiaeth yn cael ei dosbarthu a bod y broses ei hun yn cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol y staff a oedd yn gysylltiedig â hi. Byddai hyn yn cynyddu'r gallu ar gyfer ymgysylltu'n llwyddiannus â'r broses yn y dyfodol gan felly wella'r ysgol.

Rhannwyd yr elfennau sicrhau ansawdd hyn yn bedwar maes allweddol.

Roedd y rhain wedi'u seilio ar ymchwil helaeth mewn perthynas ag effeithiolrwydd ysgolion a gwella ysgolion. Pennwyd bod gan y dirprwy bennaeth drosolwg strategol o'r system gyfan ac yn dwyn y canfyddiadau at ei gilydd fel eu bod yn hygyrch i'r corff llywodraethol a'r tîm arweinyddiaeth. Roedd hyn yn hanfodol pe bai'r model am gynhyrchu hunanarfarniad ysgol gyfan ac yn mynd i'r afael â chynorthwyo nodi materion ysgol gyfan.

Roedd nifer o amheuon cychwynnol, sef:

- i ddechrau, edrychwyd ar y system sicrhau ansawdd ffurfiol a chynhwysfawr gyda lefel o amheuaeth a sgeptigaeth - o ran mewnbwn amser staff ac i ba fudd;
- er y bu lefelau o atebolrwydd, roedd hyn yn lefel newydd; ac
- roedd llunio barnau yn destun pryder i rai arweinwyr canol yn yr un modd ag yr oedd rhannu'r barnau hyn – roedd yn glir i bawb bod egwyddorion her uchel a chymorth uchel yn cael eu profi!

Yn ystod blwyddyn gychwynnol cynnal y system gyfannol, roedd yn rhagnodol o ran rhaglen gweithgarwch a gwblhawyd gan yr holl arweinwyr canol ar yr un pryd. Yn gyflym iawn, er bod y pryderon o ran amser yn parhau, croesawodd arweinwyr canol y wybodaeth 'newydd' yr oeddent yn ei chael. Roedd llawer o staff yn hapus â'r datblygiad o ran cael cyfle i ddathlu eu gwaith. Newidiodd staff eraill eu harfer i fodloni disgwyliadau'r ysgol, gan ragori arnynt yn aml iawn. Roedd y system yn cyflawni'r hyn roedd yn bwriadu ei gwneud.

Roedd hyfforddiant yn elfen allweddol yn y rhaglen. Roedd angen i arweinwyr canol fod yn hyderus wrth ymgymryd â phob un o'r gweithgareddau yr oedd disgwyl iddynt eu gwneud er mwyn bod yn arweinwyr canol effeithiol. Y rhain yw'r 'ymddygiadau arweinyddiaeth' rydym yn disgwyl eu gweld yn Ysgol Uwchradd Cei Connah. Cynigiwyd llawer o gymorth ar ffurf hyfforddiant a mentora ffurfiol. Roedd llawer ohono'n fewnol, tra defnyddiodd rhai ohonynt arbenigedd o'r tu allan i'r ysgol. Roedd arweinwyr canol yn rhannu eu profiadau'n rheolaidd yn offeryn hyfforddi amlwg a phwerus.

Ar ôl dwy flynedd, rydym wedi cynhyrchu pecyn canllawiau hunanarfarnu / sicrhau ansawdd mewnol. Fe wnaeth hyn ddwyn ynghyd ystod y dogfennau cymorth yr oeddem ni, fel uwch dîm arweinyddiaeth a thîm arweinyddiaeth ganol, wedi'u coladu dros y ddwy flynedd. Diben y ddogfen oedd sicrhau ymrwymiad cyson at y dull. Roedd hefyd yn offeryn defnyddiol iawn ar gyfer sefydlu staff newydd.

Erbyn hyn, rhoddir amlinelliad o’r gweithgarwch sicrhau ansawdd y bydd y tîm arweinyddiaeth yn ymgymryd ag ef trwy gydol y flwyddyn ar ffurf calendr misol. Mae arweinwyr canol yn awr yn paratoi eu hamserlen eu hunain o weithgareddau sy’n addas ar gyfer anghenion eu hadran. Dyma oedd rhyddid y system a, gyda’r ddealltwriaeth a’r ymrwymiad a sicrhawyd iddi, y cam hwn oedd yr un mwyaf cyffrous. Roedd arweinwyr canol yn cydweddu’r system i anghenion yn eu maes. Nid oedd hyn yn gyfystyr â dewis a dethol yn yr ystyr y gallech ddefnyddio rhai o’r ‘offer’ ac nid rhai eraill. Byddent i gyd yn cael eu defnyddio trwy gydol y flwyddyn, ond gallai fod llawer mwy o bwyslais ar rai nag eraill i fynd i’r afael â, neu fonitro materion yng nghynllunio’r ysgol neu’r cwricwlwm / gweithredu bugeiliol.

Mae’r ffocws yn ein hysgol ar hunanarfarnu ac felly mae myfyrio yn gyson. Mae’r sicrhau ansawdd hwn yn canolbwyntio ar safonau. Mae’r ysgol wedi gweld cynnydd yng nghanran y dysgwyr sy’n cyflawni trothwy lefel 2 a throthwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg i bwynt sy’n cynrychioli gwerth ychwanegol rhagorol wedi’i seilio ar ddata Ymddiriedolaeth Teulu Fischer (FFT).

*Llais y Dysgwr – Arweinyddiaeth dosbarthedig a gwelliant*

Yn Ysgol Uwchradd Cei Connah, rhoddwyd pob cyfle i ddysgwyr ddatblygu eu medrau a’u rhinweddau fel arweinwyr. Mae gennym gyngor ysgol lle mae cynrychiolwyr o bob grŵp blwyddyn yn cyfarfod bob hanner tymor. Mae eu trafodaethau yn canolbwyntio ar bob agwedd ar fywyd ysgol, o bolisïau ysgol gyfan i benderfyniadau am y math o ysgol y byddent yn hofi bod yn rhan ohoni. Rhoddir cyfleoedd eraill i ddysgwyr arwain syniadau’r ysgol ar ddatblygiadau o ran dysgu ac addysgu. Mae dysgwyr hefyd wedi cynrychioli nid yn unig yr ysgol ond Sir y Fflint a Gogledd Cymru ar gyfer ymgynghoriadau ar feysydd yn gysylltiedig ag addysg a hefyd agweddau ar fywyd Cymru sy’n effeithio ar bobl ifanc heddiw.

*Deilliannau*

Yng nghyfnod allweddol 4, mae’r holl ddangosyddion yn gyson ymhlith yr uchaf yn y teulu ac yn uwch na’r cyfartaleddau ar gyfer y teulu a Chymru. Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, uwchlaw’r disgwyliadau wedi’u modelu. Mae’r cynnydd a wna disgyblion o gyfnod allweddol 2 gryn dipyn uwchlaw lefelau disgwyliedig yn lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, lefel 1, y dangosydd pwnc craidd a’r sgôr pwyntiau wedi’i chapio. Mae tuedd ar i fyny mewn perfformiad yn 2008-2010, ychydig o ostyngiad yn 2012 ond yn parhau i fod uwchlaw cyfartaleddau’r teulu a Chymru ac uwchlaw disgwyliadau.

## Astudiaeth achos 3 – Ysgol Uwchradd John Summers, Sir y Fflint

### Cyd-destun yr ysgol

Ysgol gyfun gymysg 11-18 yn Sir y Fflint yw Ysgol Uwchradd John Summers, tua thair milltir o'r ffin â Lloegr, sydd wedi'i lleoli ar gampws mawr yn Queensferry. Mae'r campws yn cynnig ystod o wasanaethau, gan gynnwys ysgol gynradd, cyfleusterau meddygol, llyfrgell gyhoeddus, cyfleusterau addysg i oedolion, swyddfa'r seicolegydd/seicolegwyr addysg a chanolfan adnoddau.

Mae 382 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, y mae 56 ohonynt yn y chweched dosbarth. Darperir addysg ôl-16 yn yr ardal gan Gonsortiwm Glannau Dyfrdwy, sy'n cynnwys Ysgol Uwchradd John Summers a thair ysgol arall. Mae'r trefniant partneriaeth hwn yn galluogi'r ysgol i gynnig cwricwlwm academaidd a galwedigaethol eang a chynhwysfawr.

Mae'r ysgol wedi'i lleoli mewn ardal o amddifadedd cymdeithasol sylweddol. Canran gyfartalog tair blynedd disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw 33.4%; mae hyn bron ddwywaith yn fwy na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.4%. Canran y disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yw 35.6% a chanran y disgyblion sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig yw 3.1%. Y ffigurau cyfartalog cenedlaethol yw 18.6% a 2.6% yn y drefn honno.

Mae gan yr ysgol bennaeth, dirprwy bennaeth a phennaeth cynorthwyol ar hyn o bryd.

### Pa dri ffactor sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar wella safonau?

- Diwylliant yr ysgol, sy'n atgyfnerthu safonau
- Addysgu a dysgu
- Atebolrwydd (sicrhau ansawdd)

Mae proses gwella'r ysgol yn dilyn y fframwaith arolygu cyffredin (FfAC) gan fod yr ysgol a'r adrannau yn cynnal hunanarfarniad manwl wedi'i seilio ar gwestiynau allweddol y FfAC. Nodau proses gwella'r ysgol yw ysgogi gwelliant mewn safonau, addysgu a dysgu ac ethos.

Dyma fu ein camau allweddol ar gyfer gwella:

- Gwella safonau a lles
- Gwella profiadau dysgu disgyblion, ansawdd yr addysgu, y gofal, y cymorth a'r arweiniad a'r amgylchedd dysgu
- Gwella ansawdd arweinyddiaeth, gweithio mewn partneriaeth a rheoli adnoddau

## O anfoddhaol i ddigonol, 2005-2006

Mae model taith i wella ysgolion uwchradd Estyn yn adlewyrchu ein taith bersonol mewn llawer o ffyrdd. Yng ngwanwyn 2005, arolygwyd yr ysgol, ac o ganlyniad, rhoddodd Estyn yr ysgol yn y categori gwendidau difrifol. Yn gryno, daeth yr adroddiad i'r casgliad:

- bod diffygion pwysig mewn safonau cyflawniad ac ansawdd yr addysgu mewn nifer o feysydd arwyddocaol;
- mewn cyfran gweddol fawr o wersi, dangosodd disgyblion ymddygiad aflonyddgar a effeithiodd ar ddysgu a chyflawniad;
- bod lleiafrif sylweddol o ddisgyblion yn amharod i fynychu'r ysgol yn rheolaidd;
- nad yw hunanarfarnu wedi'i ddatblygu ddigon ac nad yw'n cael ei ddefnyddio'n gyson;
- bod gan yr ysgol enw gwael yn yr ardal gyfagos;
- bod diwylliant o ddisgwyliadau isel; a
- bod ansawdd arweinyddiaeth ganol yn wael ymhlith lleiafrif sylweddol o staff.

Gofynnodd yr adroddiad hwn i'r uwch dîm arweinyddiaeth (UDA) gymryd camau pendant a chadarn mewn nifer o feysydd allweddol. Gan gofio bod disgwyl i Estyn ddod yn ôl o fewn blwyddyn, roedd yn rhaid i'r holl gamau fod yn rymus wrth fynd i'r afael â'r diffygion. Cefnogodd y corff llywodraethol y pennaeth yn y camau canlynol:

- newidiadau personél mewn meysydd allweddol, gan gynnwys penodi tri arweinydd canol;
- ailstrwythuro'r diwrnod ysgol (gwersi 50 munud yn hytrach na 60 munud, lleihau egwyl o bum munud a lleihau egwyl cinio o ddeg munud) oherwydd nodwyd bod achosion o ymddygiad gwael yn digwydd i raddau helaeth iawn ar ddiwedd gwersi, amser egwyl ac amser cinio;
- ailddrafftio polisi ymddygiad ar sail model canlyniad – roedd y polisi'n amlygu a gwobrwyo ymddygiad da, ac yn cosbi camymddygiad yn drylwyr, yr agwedd allweddol yma oedd rhoi'r polisi ar waith a oedd yn cael ei gymhwyso a'i fonitro'n gyson gan yr uwch dîm arweinyddiaeth;
- i fynd i'r afael â materion presenoldeb, gosodwyd system electronig (galwad ynghylch triwantiaeth), lle'r oedd galwad awtomataidd, niferus yn cael ei gwneud i'r cartref os nad oedd rhieni wedi cysylltu â'r ysgol. Gwobrwywyd disgyblion am bresenoldeb da gyda llawer o ffanffer a dathlu; a
- gwnaed nifer o newidiadau cwricwlaidd, gan gynnwys mwy o amser cwricwlwm ar gyfer mathemateg a Saesneg, gwnaed gwersi TGCh yn orfodol a chyflwynwyd drama yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4.

Ar y cyfan, cynlluniwyd y strategaethau uchod i gael effaith tymor byr mewn cyd-destun strategol. Ailymwelodd Estyn â'r ysgol o fewn blwyddyn a chydnabod y gwelliannau yr oedd yr ysgol wedi llwyddo i'w gwneud, yn enwedig y gwelliant mewn safonau, ansawdd yr addysgu a'r dysgu, y cynnydd da wrth gael gwared ar ymddygiad aflonyddgar, cysondeb ac ansawdd gwell hunanarfarnu yn yr ysgol, y gwelliant sylweddol mewn canrannau presenoldeb a'r gwelliant yn yr holl feysydd pwnc y nodwyd gynt eu bod yn anfoddhaol.

## O ddigonol i dda

Ar yr adeg hon yn y daith i wella y dechreuodd yr uwch dîm arweinyddiaeth ar y cam strategol nesaf, gan anelu tuag at fod mewn sefyllfa lle'r oedd ethos cyson o arfer dda yn amlwg ym mhob maes. Yn hyn o beth, defnyddiodd yr uwch dîm arweinyddiaeth y ffactor 'teimlo'n dda' i barhau i ysgogi gwelliant ymhellach. Gwnaed penderfyniad ymwybodol bod angen dull mwy cydweithredol ac ar y cyd ar gyfer y rhan hon o'r daith i gyflawni'r deilliannau a ddymunir. Roedd yn rhaid i bob aelod o staff gael perchnogaeth a chyfrifoldeb am wella safonau a, gyda'r casgliad hwn, atebolrwydd yn anelu am welliant personol cyson yn ansawdd y dysgu a'r addysgu.

Canolbwyntiodd y strategaethau a ddefnyddiwyd ar yr adeg hon ar y canlynol:

- datblygu medrau yng nghyfnod allweddol 3 (model mewnol lle caiff 12 o fedrau eu hymgorffori o fewn y fframwaith dysgu), a chyflwyno Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth;
- strwythur cyfarfodydd wedi'i addasu a oedd yn cynnwys tîm arweinyddiaeth estynedig, tîm arweinyddiaeth lles a thîm safonau craidd, gan ymestyn eu haelodaeth i fwy o aelodau o staff;
- cwricwlwm mwy galwedigaethol yng nghyfnod allweddol 4 a oedd yn cynnwys cyflwyno nifer o gymwysterau BTEC, gan gynnwys gwyddoniaeth gymhwysol, adeiladu a'r amgylchedd adeiledig, peirianneg, gwasanaethau cyhoeddus a theithio a thwristiaeth;
- ymestynnwyd rolau llywodraethwyr: etholwyd llywodraethwyr cysylltiol o'r corff myfyrwyr, sefydlwyd llywodraethwyr cyswllt ar gyfer yr holl feysydd pwnc ac etholwyd llywodraethwyr ar gyfer hunanarfarnu, dinasyddiaeth fyd-eang a chydraddoldeb;
- cafodd llywodraethwyr eu hannog i weithredu fel 'ffrindiau beirniadol', yn enwedig yn ystod cyfnod monitro gweithdrefnau hunanarfarnu adrannau;
- trefnwyd cyfarfodydd mentor rheolwyr rheolaidd bob hanner tymor rhwng rheolwyr dysgu ac aelodau o'r uwch dîm arweinyddiaeth;
- sefydlwyd cymunedau dysgu proffesiynol i fynd i'r afael â meysydd addysgu a dysgu, asesu ar gyfer dysgu, mynd i'r afael ag anfantais a lles. Adroddodd arweinwyr o'r cymunedau dysgu proffesiynol am gynnydd ym mhob un o'r rhain a chynhaliwyd deuddydd o hyfforddiant staff i 'rannu arfer dda';
- cafodd athrawon a llywodraethwyr hyfforddiant ar ddefnyddio a deall rheoli a dadansoddi data;
- cynlluniwyd adroddiadau hunanarfarnu ysgol ac adrannol i ddilyn strwythur cyffredin a oedd yn adlewyrchu'r cynllun gwella ysgol. Mae eu fformat yn dilyn y Fframwaith Arolygu Cyffredin[1];

[1] Mae'r Cynllun Gwella Ysgol (CGY) yn dilyn cylch dwy flynedd ac fe gaiff pob elfen gwella ei gyrru gan uwch arweinydd. Mae pob adran yn adlewyrchu'r CGY o ran Camau Gweithredu Allweddol ac mae'r raddfa amser yn cyfateb i'r CGY yn yr un modd. Mae Penaethiaid Adrannol yn gyfrifol am weithredu, monitro ac adolygu.

- datblygwyd y system sicrhau ansawdd o ddull wedi'i ysgogi gan bynciau i ddull wedi'i yrru gan grŵp blwyddyn;
- estynnwyd llais y dysgwr trwy gynghorau myfyrwyr, cynghorau eco a chynghorau chwaraeon a llywodraethwyr cysylltiol, a chymerodd myfyrwyr ran yn y broses sicrhau ansawdd trwy arsylwi cymheiriaid a chraffu ar waith;
- daeth y broses gosod targedau, gyda chymorth gan yr awdurdod lleol, yn fwy trylwyr ac roedd y targedau a osodwyd yn cyflwyno her gynyddol i staff a disgyblion; ac
- fe gafwyd cyfathrebu gwell gyda rhieni a gofalwyr trwy wiriadau cynnydd rheolaidd, adroddiadau a nosweithiau rhieni a thiwtoriaid.

**Deilliannau**

Nododd y farn yn adroddiad Estyn yn 2011 fod yr ysgol hon yn dda oherwydd:

- roedd safonau a lles yn dda ac yn gwella;
- roedd ethos arbennig o dda;
- roedd y ddarpariaeth yn effeithiol iawn wrth fodloni anghenion dysgwyr; ac
- roedd arweinyddiaeth a rheolaeth hynod effeithiol yn yr ysgol (arweinyddiaeth ddosbarthedig).

Dywedodd Estyn hefyd fod gan yr ysgol ragolygon gwella rhagorol ar gyfer y dyfodol oherwydd:

- arweinyddiaeth ysbrydoledig a chalonogol gan y pennaeth;
- cymorth eithriadol o dda gan uwch arweinwyr;
- tîm da iawn o staff y mae pob un ohonynt wedi ymrwymo i wella;
- gwelliant cyson mewn canlyniadau arholiadau ac ymddygiad dros y tair blynedd diwethaf;
- system sicrhau ansawdd ragorol; ac
- ymddygiad eithriadol o dda yn cael ei ddangos gan ddysgwyr yn y dosbarth ac o amgylch yr ysgol.

Mae ethos hynod gryf hefyd am fod dysgwyr yn credu bod eu barn a'u safbwyntiau'n cael eu gwerthfawrogi ac mae'r ysgol yn llwyddiannus iawn wrth fodloni anghenion amrywiol ystod eang o ddysgwyr.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r pynciau craidd ar lefel 5 ac yn uwch a'r DPC i gyd yn dangos tueddiadau cadarnhaol dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r ysgol yn y chwartel uchaf ar gyfer gwerth ychwanegol yng nghyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3 ym mhob un o'r pynciau craidd. Mae pob un o'r pynciau nad ydynt yn rhai craidd yn dangos tuedd gadarnhaol ar lefel 5 ac yn uwch. Mae'r ysgol yn lleihau'r bwlch rhwng yr ysgolion sy'n perfformio uchaf ac isaf. Nid yw'r gwahaniaethau o ran rhywedd wedi bod yn arwyddocaol yn y rhan fwyaf o feysydd pwnc. Mae data FFT yn cadarnhau bod bechgyn a merched wedi perfformio'n well na'r disgwyl dros y tair blynedd diwethaf, o'u modelu yn erbyn cyrhaeddiad blaenorol yng nghyfnod allweddol 2. Mewn perthynas â meincnodi prydau ysgol am ddim, mae'r rhan fwyaf o bynciau yn dilyn tuedd gyson o

wella mewn chwarteli, a sawl un ohonynt yn gyson yn y chwartel cyntaf a'r ail chwartel trwy gydol cyfnod o dair blynedd.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae safonau wedi dangos tuedd gyson a chadarnhaol ar i fyny ac mae'r ysgol yn cau'r bwlch rhwng ysgolion uchel eu cyflawniad ac ysgolion isel eu cyflawniad. Mae bron pob un o'r dangosyddion a'r pynciau craidd yn agosáu at gyfartaledd y teulu ar drothwyon lefel 1 a lefel 2 neu'n uwch, ac ar gyfer trothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, mae'r ysgol bron 10 pwynt canran uwchlaw disgwyliadau wedi'u modelu. At ei gilydd, mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio gryn dipyn yn well na'r disgwyl mewn TGAU ac yn y radd gymedrig ar draws yr holl bynciau.

## Astudiaeth achos 4 – Ysgol Uwchradd Mair Fendigaid, Caerdydd

Ysgol gymysg 11 i 16 sydd wedi'i lleoli ym maestrefi gorllewinol Caerdydd yw Ysgol Uwchradd Mair Fendigaid. Mae ganddi 581 o fyfyrwyr ar y gofrestr, ac mae gan 29% ohonynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, o gymharu ag 17.4% yn genedlaethol. Mae Saesneg yn iaith ychwanegol i un deg tri y cant o'r disgyblion ac mae gan 11% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig (gweithredu gan yr ysgol a mwy).

Yn ei harolygiad gan Estyn yn ystod Gorffennaf 2009, canfuwyd bod "angen gwella'r ysgol yn sylweddol". Dyma oedd y diffygion mwyaf nodedig:

- safonau yn y ddau gyfnod allweddol ac mewn pynciau penodol, yn enwedig mathemateg a Chymraeg;
- ansawdd yr addysgu a'r arweinyddiaeth; a
- phresenoldeb.

Dechreuodd pennaeth newydd ar ei swydd ym Mehefin 2010 a thynnwyd yr ysgol o'r categori Estyn hwn yn Ionawr 2011.

### Pa dri ffactor sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar wella safonau?

- Gweledigaeth y pennaeth sydd wedi'i seilio ar ddisgwyliadau uchel, atebolrwydd, her, modelu a chymorth. Mae'r dull hwn yn berthnasol i ddisgyblion ac i staff.
- Cyfleu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus i ddisgyblion, rhieni a staff.
- Y camau gweithredu cyflym a phendant a gymerwyd i sefydlu'r ethos, darparu amgylchedd ar gyfer gwella a datblygu arweinyddiaeth.

### Pa mor agos y mae'r ysgol yn cyfateb camau model y daith i wella? Pam?

Mae'r camau gwella a gymerodd yr ysgol yn cyfateb yn agos i'r rhai a ddisgrifir yn y model, ond nid yn gyfan gwbl. Cafodd y camau a ddisgrifir yn y cam cyntaf lle defnyddir dull o'r brig i lawr eu cwblhau yn bennaf yn ystod y tymor cyntaf ar ôl i'r pennaeth newydd ddechrau ar ei swydd. Roedd angen gweithredu'n gyflym yn rhannol yn sgil y ffaith y byddai'r ysgol yn cael ei monitro gan Estyn, ond hefyd oherwydd argyhoeddiad ei bod yn bwysig gosod cyfeiriad a diben er lles disgyblion a staff. Roedd angen iddynt wybod bod pethau'n mynd i newid er gwell.

Wedi i'r gwaith maes hwn gael ei wneud, roedd wedyn yn bosibl datblygu dull mwy cydweithredol a sicrhau cysondeb ar draws yr ysgol. Cam ychwanegol pwysig y mae'r ysgol yn ei ystyried yn hanfodol yw cael dull strategol o ddatblygu arweinyddiaeth a'r strwythur staffio.

### Strategaeth ar gyfer gwella

- Sefydlu ethos a diwylliant cryf wrth wraidd gwella
- Darparu'r amgylchedd ar gyfer gwella
- Tyfu a datblygu potensial arweinyddiaeth, gan gynnwys potensial arweinyddiaeth llywodraethwyr

Ategir hyn gan ddeg egwyddor:

- Dylech gael gweledigaeth glir y gellir ei rhannu, ei deall a byw yn unol â hi bob dydd. Mae’r ysgol yn pennu ei diwylliant ei hun felly ni ellir beio pobl eraill amdano.
- Sefydlwch dîm arweinyddiaeth cryf sy’n athrawon credadwy a rhagorol.
- Byddwch yn glir ynghylch disgwyliadau gan bawb ac i bawb. Nodi agweddau ar waith/ymddygiad nad ydynt yn agored i’w trafod (mae hyn yn berthnasol i ddisgyblion a staff).
- Sefydlwch yr amgylchedd gorau ar gyfer dysgu trwy ganolbwyntio’r holl sylw ar ddatblygu addysgu. Os nad yw gweithredu yn effeithio ar ddysgu, yna arfarnwch p’un a ddylid ei chwblhau yn y lle cyntaf.
- Byddwch yn weladwy trwy ymweld â gwersi bob dydd. Mae’n galluogi’r ysgol i fod yn rhagweithiol i sefyllfaoedd.
- Buddsoddwch yn y staff/myfyrwyr a chofiwch esbonio mantais/manteision pob penderfyniad allweddol a wneir.
- Sgaffoldiwch her i wneud newid mor syml ag y bo modd. Canolbwyntiwch ar fod ‘yn rhagorol wrth wneud y pethau sylfaenol’ ac osgoi gormod o fenter.
- Byddwch yn bendant wrth weithredu yn gadarnhaol ac yn negyddol fel ei gilydd. Os gwelir rhywbeth negyddol a bod dim yn cael ei wneud, yna buan y daw yn ‘ymddygiadau derbyniol’.
- Gofynnwch am adborth yn rheolaidd a gweithredwch yn unol â’r fuddugoliaeth gyflym posibl.
- Modelwch bopeth y gofynnir amdano gan y rhai rydych yn eu harwain. Ni chaiff hyn ei anwybyddu, ac o’i wneud yn effeithiol, mae’n cynyddu morâl yn sylweddol.

### Camau Gweithredu

### Ethos a diwylliant cryf wrth wraidd gwella

Mae’r newid sylweddol i’r ethos wedi arwain at newid cyflym mewn diwylliant yn Ysgol Mair Fendigaid. Mae’r gred y dylai pob aelod o’r gymuned drin ei gilydd â pharch, gofal a thosturi yn ganolog i ethos yr ysgol. Fodd bynnag, mae’r gred na chaiff oedolion fethu’r myfyrwyr wrth wraidd hyn.

Nodwedd allweddol o’r ethos gwell hwn yw’r weledigaeth glir ac eglur ar gyfer yr ysgol a gafodd ei chyfleu i’r holl randdeiliaid pan gyrhaeddodd y pennaeth newydd ym Mehefin 2010. Canolbwyntiodd y weledigaeth yn benodol ar nifer o ffactorau nad ydynt yn agored i’w trafod, gan gynnwys:

- mae disgwyl i’r holl fyfyrwyr gyflawni beth bynnag fo’u cefndir a’u gallu;
- disgwylir i addysgu fod yn dda fel hawl ofynnol; byddai boddhaol bellach yn cael ei ystyried yn anfoddhaol;
- disgwylir i bob un o’r myfyrwyr ymddwyn yn briodol; a
- disgwylir i bob aelod o staff ymddwyn yn broffesiynol i fod yn esiamplau i’r myfyrwyr eu dilyn.

O ystyried y sefyllfa y rhoddwyd yr ysgol ynddi, roedd y dull yn fwy ‘cyfarwyddol’ gan y pennaeth. Roedd yr arddull i raddau helaeth yn disgrifio ac yn modelu’r ymddygiadau disgwyliedig, yn bennaf gan y staff a oedd yn gweithio yn yr ysgol. Amlinellwyd y weledigaeth hon fel glasbrint i wella ansawdd addysg yn yr ysgol a fyddai’n effeithio ar safonau. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, cyflwynwyd y weledigaeth ar ffurf cenhadaeth newydd a datganiad diben craidd a oedd yn cynnwys mewnbwn sylweddol gan fyfyrwyr a staff. Mae’r sail i’r weledigaeth yn canolbwyntio ar ddarparu addysg lle mae pob un o’r myfyrwyr:

- yn cyflawni’r canlyniadau gorau posibl yn unol â’u gallu;
- yn datblygu medrau a fydd yn eu paratoi ar gyfer byd gwaith yn yr 21ain ganrif; ac
- yn datblygu synnwyr o foesoldeb wedi’i wreiddio yng ngwerthoedd parch, gofal, tosturi a chariad.

Mae’r ysgol yn disgrifio’i hun fel ‘teulu’ sy’n ceisio hyrwyddo a datblygu gwerthoedd traddodiadol lle mae myfyrwyr a staff yn gweld manteision dysgu a gweithio’n galed. Mae’r berthynas rhwng myfyrwyr a staff a’r myfyrwyr eu hunain yn gryf oherwydd y negeseuon clir o ‘barch’ sy’n cael eu hatgyfnerthu’n gyson gan bawb. Mae arddangosfeydd a dyfyniadau gweledol yn hyrwyddo ethos ac yn isymwybodol yn hyrwyddo gwerthoedd maddeuant, gofal ac ystyriaeth at bobl eraill.

Roedd y dull newydd yn cynnwys adolygu sefydlu ymddygiad da ymhlith yr holl fyfyrwyr. Mae’r “teithiau cerdded a dysgu” a gyflwynwyd gan yr ysgol ar gyfer pob cyfnod o’r diwrnod ysgol a amserlennwyd ar gyfer aelod o’r tîm arweinyddiaeth yn sicrhau presenoldeb hynod weladwy o arweinwyr ysgol. Aeth hyn i’r afael yn rhagweithiol ag ymddygiad annymunol ac fe’i croesawyd gan staff. Pan nad oedd myfyriwr yn bodloni disgwyliadau’r ysgol, byddai’r aelod o’r tîm arweinyddiaeth yn ymyrryd fel bod myfyrwyr yn dod yn ymwybodol o ymddygiadau disgwyliedig yn gyflym. Ym Medi 2011, yn dilyn ymgynghoriad llawn, cyflwynodd yr ysgol wisg ysgol newydd fforddiadwy ond smart a oedd yn cynnwys mynd yn ôl at grys a thei. Cafodd y newid hwn groeso cadarnhaol gan fod rhieni’n gwerthfawrogi’r wisg ysgol gost-effeithiol tra bod myfyrwyr yn gwerthfawrogi’r edrychiad gwell a’r ffaith iddynt fod yn rhan allweddol o’r broses gynllunio.

Mae’r ysgol yn cyfeirio at y bartneriaeth tair ffordd (cartref, ysgol a myfyriwr) fel mecanwaith ar gyfer gwella’r ysgol. Pan gyrhaeddodd y pennaeth newydd, trefnwyd noson i rieni i’w galluogi i nodi’r meysydd a achosodd y pryder mwyaf iddynt. Gofynnwyd i rieni lenwi holiadur syml lle’r oeddent yn nodi tri pheth yr oedd yr ysgol yn eu gwneud yn dda, tri pheth yr oedd angen mynd i’r afael â nhw ar unwaith, a rhoi un darn o gyngor i’r pennaeth newydd. Cafwyd adborth da iawn gan rieni, a dychwelwyd yr holiadur gan nifer dda ohonynt. Defnyddiwyd y sylwadau, a gallai’r ysgol adrodd yn gadarnhaol am y newidiadau a wnaed ar ddiwedd tymor yr haf. Canolbwyntiodd rhai o’r prif bryderon ar ansawdd yr addysgu tra bod rhai eraill yn gysylltiedig â chyfathrebu. Wedyn, bu modd i’r ysgol wneud nifer o newidiadau a roddodd “fuddugoliaeth gyflym” a ddangosodd i rieni fod eu safbwyntiau wir yn cyfrif. Ym mhob noson rieni, gofynnir i deuluoedd arfarnu perfformiad yr ysgol ac ar yr adegau prin lle mae rhieni wedi rhoi adborth negyddol, mae’r ysgol yn trefnu apwyntiad i geisio datrys y mater fel nad yw’r

bartneriaeth yn cael ei niweidio. Trefnir cysylltiad uniongyrchol â'r pennaeth gyda digwyddiad 'drws agored' misol lle gall rhieni fynychu cyfarfod heb apwyntiad gyda'r pennaeth i drafod mater. Dros gyfnod, mae cyfarfodydd yn brin ond mae rhieni yn gwerthfawrogi'r cyfle i godi pryder gyda'r pennaeth, waeth pa mor fawr neu fach ydyw. Mae'r ysgol yn credu bod hyn yn ffordd arall o sicrhau bod parch a gofal yn ganolog i'r gwaith rhwng yr ysgol, teuluoedd a'r myfyrwyr eu hunain.

**Darparu'r amgylchedd ar gyfer gwella**

Her sylweddol i'r ysgol oedd ansawdd yr arweinyddiaeth cyn Mehefin 2010. I sicrhau uchelgeisiau'r ysgol, roedd yn hanfodol bod gan arweinyddiaeth yr ysgol y gallu a'r hygrededd i ysgogi'r newid angenrheidiol. Roedd y rhan fwyaf o'r tîm arweinyddiaeth presennol wedi hen ennill eu plwyf ond roedd eu gallu'n amrywio o ran gallu yn yr ystafell ddosbarth yn ogystal â gallu i arwain yr ysgol. Roedd rhai aelodau o'r tîm yn rhagorol ond nid oedd aelodau eraill yn cynnig digon o her i'r ysgol nac yn darparu cyfeiriad addas iddi.

Yng Ngorffennaf 2010, penderfynodd y pennaeth a'r corff llywodraethol ailstrwythuro'r tîm arweinyddiaeth dros dro i ysgogi'r gwelliannau sylweddol angenrheidiol. Secondiwyd un aelod o'r tîm i weithio mewn ysgol arall am flwyddyn a newidiodd strwythur y tîm yn sylweddol pan benodwyd aelodau newydd o staff yn fewnol. Gwnaed y penodiadau a'r ailstrwythuro dros dro i sicrhau bod y broses yn cael ei chwblhau yn gyflym heb oedi yn sgil ymgynghori ffurfiol. Sefydlwyd y tîm a ffurfiwyd o'r newydd gyda dau aelod yn unig yn weddill ar y tîm a etifeddwyd gan y pennaeth newydd ym Mehefin 2010.

Yn Ionawr 2011, cynhaliodd yr ysgol ymgynghoriad llawn ar y strwythur staffio gyda'r bwriad o'i roi ar waith ym Medi 2011. Cynhaliwyd hyn ar unwaith ar ôl yr ymweliad monitro gan Estyn, a dynnodd yr ysgol o'r categori angen gwelliant sylweddol. Nid oedd y strwythur blaenorol yn addas at ei ddiben, ac roedd gan bron bob aelod o'r staff addysgu gyfrifoldeb addysgu a dysgu ond eto, nid oedd llawer ohonynt yn dylanwadu'n uniongyrchol ar waith pobl eraill. Arweiniodd y strwythur at linellau atebolrwydd aneglur a gafodd effaith sylweddol ar safonau.

Diben yr ailstrwythuro oedd cryfhau ansawdd yr arweinyddiaeth i sicrhau gwelliannau cyflym. Symudodd yr ysgol at system yn seiliedig ar gyfadrannau a oedd yn rhesymoli arweinyddiaeth yr ysgol ar lefel haen ganol ac yn rhoi cyfle i'r ysgol benodi staff o ansawdd uchel i swyddi arweinyddiaeth. Rhoddodd y broses gyfle i ddarparu strwythur priodol ar gyfer staff cymorth hefyd. O ganlyniad i'r newidiadau strwythurol, mae bron pob un o'r arweinwyr canol wedi cael eu penodi er Mehefin 2010. Sicrhaodd hyn fod yr arweinwyr gorau posibl yn cael eu penodi a bod diben craidd gwella ysgol ddim yn cael ei beryglu gan arweinyddiaeth wael.

Er bod y broses ailstrwythuro yn anodd i rai aelodau o staff ei gwerthfawrogi, treuliodd yr ysgol, gan gynnwys llywodraethwyr, lawer o amser yn esbonio'r sail resymegol y tu ôl i ailstrwythuro. Er mwyn i'r ysgol wneud gwelliannau sylweddol, roedd angen gwneud newidiadau i'r strwythur cyn gynted â phosibl.

Ffocws clir gan yr ysgol yw'r ymdrech i wella ansawdd yr addysgu sy'n effeithio'n uniongyrchol ar gynnydd myfyrwyr.  Ym Mehefin 2010, modelodd y pennaeth ddisgwyliadau ar gyfer addysgu yn sgil cyflwyno fformat cyffredin ar gyfer yr holl wersi, o'r enw '10 Nodwedd Gwers Ragorol'.  Cynlluniwyd hwn i leihau'r amrywiad yn yr ysgol o ran ansawdd yr addysgu a oedd yn golygu bod safonau gwael yn cael eu cyflawni mewn nifer o bynciau yn y ddau gyfnod allweddol.  Canolbwyntiodd y fformat newydd ar y cylch dysgu carlam ond roedd yn dibynnu'n fawr ar yr ymddygiadau cadarnhaol sydd eu hangen gan oedolion.  Er enghraifft, mynnu bod staff yn cyfeirio at fyfyrwyr yn ôl eu henwau; roedd disgwyl i staff ddefnyddio iaith gadarnhaol, ac ati.  Roedd y canllawiau eglur hyn ar gyfer yr hyn a oedd yn gwneud addysgu a dysgu da yn galluogi'r ysgol i nodi a dileu addysgu anfoddhaol trwy her gadarn.  Rhoddwyd cymorth dwys i staff y nodwyd eu bod yn tanberfformio, a gwnaed gwelliannau mewn nifer o achosion.  Fodd bynnag, lle nad oedd llawer o welliant, mae staff wedi cael eu dwyn i gyfrif.

Mae nifer o staff wedi gadael yr ysgol yn sgil disgwyliadau uwch er Mehefin 2010.  Fodd bynnag, mae'r ysgol yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod urddas staff yn cael ei warchod i gynnal yr ethos cadarnhaol, modelu parch ar y ddwy ochr wrth ddangos ymrwymiad llawn i wella'r ysgol yn barhaus.

Mae'r holl hyfforddiant staff a'r cyfarfodydd yn cynnwys ffocws clir ar ddysgu ac addysgu.  Mae'r holl gyfarfodydd staff yn canolbwyntio ar rannu syniadau ac arfer orau i hyrwyddo pwysigrwydd dysgu.  Mae hyn yn cynnwys defnyddio recordiadau fideo o wersi a rhannu gweithgareddau i hyrwyddo meysydd allweddol fel llythrennedd a rhifedd.

I wella ansawdd yr addysgu, cyflwynodd yr ysgol arsylwadau 'rhannu arfer orau' a gynhelir bob tymor.  Arsylwadau anffurfiol rhwng athrawon o fewn ac ar draws gwahanol adrannau oedd y rhain i rannu strategaethau i wella ansawdd y profiad i fyfyrwyr.  Mae'r ysgol yn parhau i arsylwi staff yn ffurfiol trwy weithdrefnau adolygu adrannol sy'n cynnwys staff ar bob lefel i sicrhau cysondeb a datblygu potensial.  Mae'r ysgol yn datblygu 'arbenigwyr' mewn meysydd addysgu penodol er mwyn i bob aelod o staff allu nodi athro wedi'i enwi a all roi cymorth ac arweiniad ar agweddau ar addysgu, fel asesu ar gyfer dysgu, gwirio cynnydd myfyrwyr a/neu adborth effeithiol.  O ganlyniad, mae staff yn fwy hyderus wrth nodi strategaethau effeithiol trwy fodelu arfer.

Rhoddwyd blaenoriaeth i sicrhau bod cwricwlwm yr ysgol yn bodloni anghenion myfyrwyr ac, ar yr un pryd, nid oedd yn peryglu'r pethau sylfaenol a gynigir mewn cwricwlwm eang a chytbwys.  Dros y tair blynedd diwethaf, ychydig iawn o newidiadau a wnaed i'r cwricwlwm a gynigir yng nghyfnod allweddol 4, ond mae mwy o atebolrwydd.  Mae ffocws ar sicrhau bod pynciau yng nghyfnod allweddol 4 yn cael eu haddysgu gan athrawon arbenigol wedi arwain at welliannau mewn nifer o feysydd, gan gynnwys pynciau galwedigaethol.  Yn sgil hyn, gwelwyd gwelliant yng nghyfran y graddau llwyddo neu'n uwch ac ar lefel anrhydedd.  Bu'r newid mwyaf yn y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 3 lle bu mwy o bwyslais ar ddatblygu medrau gyda ffocws clir ar ddatblygu llythrennedd.  Disgwylir i bob adran ganolbwyntio ar fedr penodol ar gyfer holl wersi cyfnod allweddol 3 fel bod pob un o'r myfyrwyr yn cael ystod eang o fedrau ar draws eu haddysg yn hytrach na chanolbwyntio ar yr un medrau ym mhob gwers.  Addasodd yr

ysgol y cwricwlwm hefyd i grwpio myfyrwyr mewn dosbarthiadau gallu cymysg sy'n sicrhau bod yn rhaid i athrawon wahaniaethu i fodloni anghenion yr holl fyfyrwyr tra bod hyn ar yr un pryd yn atgyfnerthu ein hethos o ysgol gynhwysol lle disgwylir i bawb gyflawni ei lawn botensial.

Yn gyfochrog â'r newidiadau mewn dulliau o addysgu, personél staffio ac addasiadau i'r wisg ysgol, gwelwyd gwelliant yn amgylchedd ffisegol yr ysgol i sicrhau bod myfyrwyr a staff yn gwerthfawrogi eu gweithle.  Mae hyn wedi digwydd dros gyfnod, a threfnir gweithgareddau bob hanner tymor ac yn ystod yr holl wyliau eraill.  Mae'r ysgol wedi elwa ar ailaddurno'r holl leoedd cymunedol gan gynnwys coridorau, y brif neuadd a mwyafrif yr ystafelloedd dosbarth.  Mae'r ysgol wedi cyflwyno delwedd gorfforaethol o liwiau i roi'r argraff o ysgol newydd er mwyn cael gwared ar y canfyddiad o'r hen ysgol.  Mae cyfieithiadau dwyieithog wedi cael eu rhoi yn lle'r holl arwyddion ac mae desgiau a chadeiriau newydd wedi cael eu rhoi yn lle pob un o'r hen rai ar gyfer myfyrwyr a staff.  Gwnaed nifer o ddatblygiadau eraill, gan gynnwys ailddylunio'r ganolfan gerdd, cafwyd cyfrifiaduron newydd yn yr ysgol yn lle pob un o'r hen rai, cyflwynwyd ystafell fedrau gyda thechnoleg ryngweithiol, gan gynnwys technoleg iPad ac ystafell ffitrwydd newydd.

**Tyfu a datblygu potensial arweinyddiaeth, gan gynnwys llywodraethwyr**

Mae'r ysgol yn credu bod nodi, tyfu a meithrin potensial arweinyddiaeth yn allweddol i sicrhau y gellir cynnal gwelliant parhaus.  Rhoddwyd blaenoriaeth allweddol i ddatblygu'r staff yn yr ysgol dros y tair blynedd diwethaf, ac mae hyn wedi gyrru'r llwyddiannau diweddar yn yr ysgol.  Mae un o'r penaethiaid cynorthwyol yn gyfrifol am ddatblygiad staff ac mae'n sicrhau bod yr holl hyfforddiant wedi'i gysylltu'n agos â blaenoriaethau ysgol gyfan ac yn darparu gwerth am arian.  Mae'r ysgol yn nodi arfer orau yn rheolaidd mewn ysgolion yn lleol ac yn genedlaethol ac mae'n well ganddi anfon staff ar ymweliadau i rannu'r syniadau hyn yn hytrach na thalu am gyrsiau masnachol.  Ar gyfer un diwrnod HMS, anfonwyd pob aelod o staff i ymweld ag ysgol lle'r oedd arfer orau wedi cael ei nodi a rhoddwyd y cyfrifoldeb iddynt rannu eu canfyddiadau gyda'u timau a'r ysgol.  Arweiniodd hyn at gyflwyno nifer o syniadau newydd yn yr ysgol wedi iddynt fod yn llwyddiannus mewn cyd-destunau ysgol eraill.

Mae'r dull arweinyddiaeth yn yr ysgol yn dryloyw, ac mae aelodau o'r tîm arweinyddiaeth yn cydweithio i sicrhau cynllunio dilyniant.  Caiff rolau ar y tîm arweinyddiaeth eu diweddaru a'u trosglwyddo i ddatblygu gallu arweinwyr fel bod ansawdd y tîm yn parhau i wella.  Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae tri aelod o'r tîm arweinyddiaeth wedi cael eu dyrchafu i fod yn ddirprwy benaethiaid (un yn fewnol, dau yn allanol) ac mae hyn yn cynnig cyfleoedd cynyddol i aelodau eraill o staff ymgymryd â chyfrifoldeb ychwanegol ar ôl profi eu hansawdd.  Mae gan yr ysgol gynllun strategol ar gyfer cynllunio dilyniant staff fel bod arweinwyr yn hyfforddi aelodau eraill o staff i ymgymryd â rolau pe baent yn ymddeol a/neu'n cael dyrchafiad yn rhywle arall.

Ym Medi 2012, penododd yr ysgol ddau bennaeth dysgu ac addysgu i fentora a hyfforddi staff ar draws yr ysgol.  Roedd yr athrawon newydd hyn, a fu'n gweithio gyda'r dirprwy bennaeth, yn athrawon profedig rhagorol o ysgolion eraill a allai helpu i gyflwyno syniadau newydd a chyflwyno arfer bresennol.  I gefnogi'r rolau newydd, mae'r ysgol yn

cyflogi ymgynghorydd addysgol sefydledig i gynorthwyo ar hyn o bryd, sy'n cefnogi datblygiad addysgu gyda thîm bach o staff a fydd wedyn yn lledaenu'r arfer orau ymhlith pob aelod o staff. Mae hyn wedi canolbwyntio ar wirio cynnydd myfyrwyr mewn gwersi ac addasu addysgu yn effeithiol i sicrhau bod myfyrwyr yn gwneud y cynnydd dymunol. Mae'r buddsoddiad sylweddol hwn yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd yr addysgu yn yr ysgol a fydd, yn ei dro, yn effeithio ar safonau ar draws yr ysgol ar bob lefel.

I sicrhau ansawdd gwaith yr ysgol, cyflwynwyd gweithdrefnau monitro trylwyr ym Medi 2010. Mae'r rhain yn cynnwys arfarnu effeithiolrwydd holl feysydd gwaith yr ysgol ym mhob cyfnod arweinyddiaeth yn yr ysgol. Mae'r rhain hefyd yn cynnwys arsylwadau systematig o ansawdd yr addysgu a lledaenu arfer orau o fewn ac ar draws adrannau; arfarnu effeithiolrwydd adrannau/cyfadrannau unigol; a chraffu ar waith myfyrwyr yn rheolaidd.

Mae'r prosesau yn "dynn" ac yn galluogi arweinwyr i gael sgyrsiau anodd gyda staff i ddwyn unigolion/adrannau i gyfrif. I gynyddu gallu arweinyddiaeth ar lefel ganol, cynhaliwyd nifer o weithgareddau i gefnogi gwelliant cynaliadwy ar draws nifer o feysydd. Mae'r rhain yn cynnwys meini prawf llwyddo clir ar gyfer gweithgareddau trwy enghreifftiau wedi'u modelu gan y tîm arweinyddiaeth i sicrhau cysondeb. Er enghraifft, mae enghreifftiau i arweinwyr canol ar sut i ysgrifennu hunanarfarniad a chynllun gwella adrannol effeithiol. Hefyd, mae'r ysgol yn cydlynu rhaglenni hyfforddi mewnol gydag ysgolion eraill i sicrhau datblygiad arweinyddiaeth ganol.

Mae systemau rheoli perfformiad wedi eu cysylltu'n agos â thargedau ysgol gyfan erbyn hyn ac maent yn darparu dull trylwyr a systematig o ddwyn staff i gyfrif. Mae'r system yn gweithio yn unol ag egwyddor gosod targedau ar gyfer yr ysgol gyfan sy'n dibynnu ar berfformiad adrannol sy'n treiddio trwodd ymhlith athrawon ystafell ddosbarth unigol. Mae'r broses wedi'i chynllunio i ddarparu dull "cysylltiedig" gyda ffocws craff ar gyflawniad myfyrwyr.

Pan gyflwynwyd y systemau i ddechrau, cynhaliwyd nifer o drafodaethau anodd a gwnaed penderfyniadau amhoblogaidd, e.e. aelodau o staff yn gadael. Fodd bynnag, cafodd effaith atebolrwydd athrawon yr effaith ddymunol. Er bod sgyrsiau heriol yn parhau i fod yn rhan o ddiwylliant yr ysgol, mae'n rhoi ffocws clir ar fudd y myfyrwyr a'r gred "nad ydym yn cael methu!" Mae staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn gwybod y bydd perfformiad gwael yn cael ei herio trwy'r gweithdrefnau priodol.

Gwneir defnydd cadarn o osod targedau i hyrwyddo dyheadau uwch. Caiff y system ei mireinio'n barhaus i ystyried cyd-destun ar gefndir codi disgwyliadau flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Mae ansawdd data a dadansoddi wedi gwella'n sylweddol er iddynt gael eu symleiddio fel bod pob aelod o staff (a) yn ymgysylltu â data ac (b) yn deall eu rôl pan fydd data wedi cael ei rannu a'i ddadansoddi. Mae'r ysgol yn cyflogi rheolwr data sydd, ynghyd â'r tîm arweinyddiaeth, yn gosod targedau heriol ac yn monitro perfformiad. Mae arweinwyr bugeiliol yn cefnogi gwaith arweinwyr y cwricwlwm i herio tanberfformio a sefydlu strategaethau i ymyrryd. Defnyddir fformatiau cyffredin fel bod cysondeb ar draws yr ysgol ac mae'r dull yn gwbl dryloyw fel bod staff yn treulio amser yn briodol i gynllunio ymyriadau.

Mae datblygu arweinyddiaeth wedi cynnwys llywodraethwyr, a gweithio gyda nhw. Cyn Mehefin 2010, nid oedd y corff llywodraethol yn herio'r ysgol ynglŷn â'i pherfformiad yn ddigonol. Penodwyd cadeirydd llywodraethwyr newydd ym Medi 2009, ond ni wnaeth yr ysgol fonitro perfformiad yr ysgol yn effeithiol gan iddynt fodloni ar gymryd gair yr arweinwyr blaenorol a'i dderbyn yn ddi-gwestiwn ac ni chafodd ei hyfforddi'n ddigonol i ofyn cwestiynau heriol. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae llywodraethwyr wedi bod yn fwy agored i ystod y data sydd ar gael a chânt eu hysbysu'n dda am yr ansawdd a'r safonau yn yr ysgol.

Trwy weithio gyda llywodraethwr profiadol a ddaeth yn gadeirydd yn Chwefror 2010, llwyddodd y pennaeth i ysgogi newid sylweddol i'r corff llywodraethol ac fe gafodd mwyafrif y llywodraethwyr eu disodli gan unigolion profiadol o ystod o gefndiroedd, a oedd yn gallu cynnig medr a phriodoleddau penodol i'r corff llywodraethol. Mae'r rhain yn cynnwys cymysgedd o benaethiaid cynradd, rhai yn meddu ar brofiad o Estyn; addysgwyr; arweinwyr busnes, ac ati. Cynigiwyd profiadau ychwanegol i'r corff llywodraethol gan y rhieni-lywodraethwyr newydd hefyd. Mae hyn wedi galluogi'r corff llywodraethol i ddod â dull ffres tra'n sicrhau bod yr ysgol yn parhau i wella.

**Deilliannau**

Bu tuedd o welliant sylweddol. Ym mhrif ddangosyddion 2009 – roedd perfformiad yn gyson islaw cyfartaledd y teulu, gan roi'r ysgol yn y chwarter gwaelod o ysgolion tebyg. Yn 2011 a 2012, roedd perfformiad ymhell uwchlaw cyfartaledd y teulu ac yn golygu bod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg ar gyfer llawer o ddangosyddion.

| **Dangosydd cyfnod allweddol 4** | **2009** | **2012** |
|---|---|---|
| **DPC** | 9% | 38% |
| **Trothwy L1** | 82% | 98% |
| **Trothwy L2** | 24% | 81% |
| **L2 gan gynnwys Saesneg a mathemateg** | 10% | 40% |

Mae'r gyfran sy'n gadael addysg amser llawn heb unrhyw gymwysterau wedi lleihau'n sylweddol o ryw 7% yn 2008 i lai na 1% yn 2012.

Mae presenoldeb wedi gwella ac mae'n well na chyfartaledd y teulu a chyfwerth â'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 92%.

Roedd perfformiad yn 2012 yn golygu bod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion yn L2+, L2 a L1.

Roedd perfformiad yn 2012 uwchlaw llinell y disgwyliadau wedi'u modelu ar gyfer L2+, y sgôr pwyntiau wedi'i chapio a phresenoldeb.

Mae cynnydd gan ddisgyblion yn dda gyda gwerth ychwanegol sylweddol ym mhob un o'r dangosyddion allweddol am y ddwy flynedd ddiwethaf.

## Astudiaeth achos 5 – Ysgol Uwchradd y Drenewydd, Powys

### Ysgol Uwchradd y Drenewydd, Powys

Ysgol gyfun 11 i 18 oed gydag 859 o ddisgyblion yw Ysgol Uwchradd y Drenewydd. Mae'r nifer yn cynrychioli'r ystod gallu llawn. Mae tua 16% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sef y gyfran uchaf yn yr awdurdod lleol. Mae gan ychydig dros 35% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, ac mae gan 1.7% ohonynt ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn cymharu â'r cyfartaleddau cenedlaethol, sef 18.6% a 2.6%.

Penodwyd y pennaeth yn 2004. Mae'r dirprwy bennaeth wedi bod yn ei swydd er 14 mlynedd. Mae tri phennaeth cynorthwyol, a phob un ohonynt yn ddyrchafiadau mewnol ers cyflwyno ethos CYFLE (byrfodd am 'Mae Gofalu yn Cynhyrchu Amgylchedd Dysgu Ffyniannus' ('Caring Yields a Flourishing Learning Environment')). Penodwyd dau ohonynt yn 2006 a phenodwyd y pennaeth diweddaraf yn Ebrill 2012.

### Pa dri ffactor sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar wella safonau?

### 1 – Arweinyddiaeth a rheolaeth

Nodwyd bod arweinyddiaeth a rheolaeth yn wendid yn adroddiad arolygu Estyn ar yr ysgol yn 2003. Ymatebodd tîm arweinyddiaeth yr ysgol i hyn yn gadarn a chreodd ethos newydd clir ar gyfer yr ysgol. Mae CYFLE yn awr yn treiddio trwy, ac yn arwain, yr holl weithgarwch yn yr ysgol ar bob lefel erbyn hyn.

Datblygodd y tîm ddiwylliant hunanarfarnu trylwyr, gonest a sicr ar bob lefel o arweinyddiaeth a rheolaeth, ac wrth ymateb i weledigaeth glir y pennaeth, gosododd dargedau ar gyfer dyfodol yr ysgol wedi'u seilio yn bendant ar wella dysgu ac addysgu a'r safonau a gyflawnir gan ddysgwyr. Sefydlwyd llinellau atebolrwydd clir ym mhob maes o fywyd yr ysgol ac mae pob un o'r arweinwyr/rheolwyr yn llunio cynlluniau strategol clir a manwl i sicrhau bod y weledigaeth hon a'u targedau yn cael eu gwireddu. Felly, mae arweinyddiaeth ddosbarthedig yn strategaeth graidd yn y gwelliant. Mae ffocws parhaus ar weithredu ac adolygu'r cynllun yn erbyn effaith, gyda chamau ac ymyrraeth ychwanegol lle bydd angen, yn digwydd ar bob lefel. Mae rheoli perfformiad yn effeithiol wedi cael ei alluogi gyda chorff o staff yn dangos parodrwydd i groesawu newid, ceisio sicrhau arloesedd a chwilio am arfer dda o lawer o ffynonellau. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu cwricwlwm atyniadol ar gyfer dysgwyr. Mae'r corff llywodraethol yn herio'r ysgol i wneud yn well yn gyson. Mae'r ffocws cyson hwn ar wella ar bob lefel yn enghraifft o'r dull tîm.

Graddiwyd yr ysgol yn Ysgol Band 1 yn ddiweddar, ac enillodd wobr Aur Buddsoddwyr mewn Pobl am Arweinyddiaeth a Rheolaeth yn ddiweddar, sy'n dystiolaeth ychwanegol o lwyddiant y diwylliant arweinyddiaeth ddosbarthedig hwn.

## 2 – Rheoli ymddygiad

Nodwyd eto bod Rheoli Ymddygiad yn wendid gan Estyn yn 2003. Yn gyntaf, roedd angen canolbwyntio ar addysgu symbylol a chreu cwricwlwm atyniadol. Rhannwyd arfer dda, lledaenwyd hyfforddiant ac archwiliwyd methodoleg gwersi cyn ailysgrifennu cynlluniau gwaith i sicrhau bod cyflymder a her yn cael eu cynnwys. Datblygwyd system wobrwyo gyda'r disgyblion ac maent yn gwerthfawrogi hyn. Dechreuwyd system ddisgyblu sy'n sicrhau ymatebion cyflym ac effeithiol i gamymddygiad a chyfeirio cyflym lle bo'n briodol. Mae gan bob cyfadran weithdrefn fewnol i dynnu disgyblion allan o wersi, gyda dilyniant i ymyrraeth gan yr uwch dîm arweinyddiaeth (UDA) sy'n arwain at ganlyniad pendant ac uniongyrchol. Sefydlwyd 'Canolfan Lles' sy'n hynod effeithiol wrth newid ymddygiad gwael lleiafrif bach o ddisgyblion. Ar gyfer disgyblion sydd angen ymyrraeth ychwanegol i roi newid ar waith, caiff ymyrraeth llwybr carlam, dargedig gan yr uwch dîm arweinyddiaeth ei rhoi ar waith. Mae'r lefel hon o ddyfalbarhad yn cynnwys gwaith caled, ond mae'r system hon yn sicrhau ymdriniaeth briodol â phob math o her o ran ymddygiad gan darfu cyn lleied ag y bo modd ar ddysgu disgyblion eraill. Mae dull tîm o ddelio ag ymddygiad gan y staff cyfan yn sicrhau dull cyson y mae pob dysgwr yn ei ddeall. Mae gwaith tîm wedi bod yn hanfodol i lwyddiant y system hon, fel unrhyw system arall.

## 3 – Datblygiad staff a chydweithio

Trwy gydol y daith i wella, mae'r uwch dîm arweinyddiaeth ac arweinwyr canol wedi ymweld â darparwyr eraill ac ymarferwyr arweiniol yn rheolaidd i gael arfer dda gan y rhai sydd wedi dangos, neu sy'n eirioli safonau neu arfer ragorol. Mae'r parodrwydd hwn ar y cyd ar ran y staff i ymweld ag ysgolion a'u croesawu; i gasglu a lledaenu arfer dda, wedi arwain at ethos ar y cyd sydd bron yn ail natur erbyn hyn. Ni orffennodd hyn â'r ailarolygiad yn 2008 a ganfu fod yr ysgol 'yn dda gyda nifer o nodweddion rhagorol'. Mae corff y staff yn dîm sy'n ymdrechu'n barhaus at gyflawni rhagoriaeth ac maent wedi ffurfioli'r broses ymchwil hon yn strwythur y gymuned ddysgu broffesiynol erbyn hyn. Mae cymunedau dysgu proffesiynol yn ymgymryd ag ymchwil helaeth, yn cymryd rhan mewn prosiectau ymchwilio i weithredu ac wedyn yn myfyrio ar y dystiolaeth a gafwyd cyn trosglwyddo hyfforddiant i aelodau eraill o staff. Mae'r arfer hon yn dangos gwaith caled a dyfalbarhad pob un o'r staff tuag at welliant parhaus.

## Pa mor agos y mae'r ysgol yn cyd-fynd â chyfnodau'r model taith i wella? Pam?

Er bod nifer o achosion o orgyffwrdd, mae'r symud o 'wendidau difrifol' i fod 'yn dda gyda nifer o nodweddion rhagorol' a thu hwnt yn sicr wedi cynnwys symud yn raddol oddi wrth y dull cyfarwyddol o ddelio â diffygion a nodwyd, at ddull mwy cydweithredol/dosbarthol sydd wedi'i seilio'n gadarn ar ddisgwyliadau uchel ac atebolrwydd. Mae nodweddion arweinyddiaeth ddosbarthol yn sicrhau llawer o gysondeb yn y rhan fwyaf o agweddau ar waith yr ysgol ar hyn o bryd. Caiff cyfeiriad y teithio o ddiagram y daith i wella ei ddangos yn glir yn nhaith yr ysgol dros y 10 mlynedd diwethaf.

Yng ngham cyntaf y daith i wella, i ddigonol, dull cyfarwyddol o'r brig i lawr o ddelio â diffygion a nodwyd oedd y math mwyaf addas o ymyrraeth i roi newid tymor byr uniongyrchol a sylweddol ar waith. Wedi i'r gwendidau sylweddol gael eu goresgyn, roedd angen meithrin gallu tymor canolig i dymor hir yr ysgol i gynnal y duedd ar i fyny mewn safonau dysgu ac addysgu a symud tuag at dda a gwell. Y ffordd orau o sefydlu'r gallu hwn oedd trwy symud at ddull mwy cydweithredol/dosbarthol o wella'r ysgol. Mae'r ysgol yn amlwg yng 'ngholofn olaf' ei thaith erbyn hyn. Wedi i'r ysgol gael ei chydnabod yn 'Ysgol dda gyda nifer o nodweddion rhagorol', symudwyd tuag at rannu'r arfer dda hon gydag arweinwyr ysgol eraill; i ymestyn gallu ar draws y system i gyflwyno safonau dysgu ac addysgu gwell. Mae'r ysgol yn teithio o fewn ei cholofn olaf erbyn hyn, o 'dda' i fod yn gyson 'ragorol' ym mhob maes; bydd y diagram taith i wella yn cynorthwyo'r broses hon.

**Strategaeth ar gyfer gwella**

Rhaid mai ein nod oedd codi safonau a deilliannau ar gyfer pob un o'r myfyrwyr. Fe wnaethom greu dogfen 'Ymateb i faterion arolygu' i sicrhau bod camau ysgol gyfan ac adrannol yn cael eu cymryd yn unol â'r argymhellion. Roedd angen i ni ddiffinio atebolrwydd staff a gwella ein hunanarfarnu ar bob lefel gan gynnwys arsylwadau gwersi a monitro cynnyrch disgyblion.

Fe wnaethom ganolbwyntio ar wella addysgu a dysgu. Roedd angen i ni wella ein rhaglen DPP ar gyfer pob aelod o staff. Croesawyd ein hethos craidd CYFLE ac fe'i gwnaed yn weledigaeth ganolog ac yn ffon fesur ar gyfer cymuned yr ysgol. Bu'n rhaid i ni wella ymddygiad a phresenoldeb. Roedd angen i ni adfer delwedd yr ysgol yn y gymuned leol, ac yn wir y wlad. Hefyd, roedd angen i ni adolygu'r cwricwlwm a gwella'r hyn a gynigir i fyfyrwyr, yn enwedig ar lefel 2.

**Camau Gweithredu**

Ar unwaith ym mlwyddyn un, fe wnaethom lansio CYFLE. Esboniwyd y weledigaeth strategol hon i'r holl randdeiliaid ac fe'i defnyddiwyd yn gyfeirbwynt ar gyfer gwneud yr holl benderfyniadau. Canolbwyntiwyd ar effeithiolrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth ar bob lefel a diffiniwyd atebolrwydd proffesiynol yn glir. Gosodwyd targedau wedi'u gyrru gan ddata gan y pennaeth a'r dirprwy – ar lefelau ysgol, adran a disgybl ac athro unigol. Cynyddwyd disgwyliadau hunanarfarnu ar gyfer pawb sydd â chyfrifoldebau addysgu a dysgu. Roedd hyn yn golygu bod modd datblygu diwylliant 'dim esgusodion'. Roedd y ffaith ein bod yn canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu yn cynnwys y tîm arweinyddiaeth ac arweinwyr canol trwy arsylwadau gwersi a rheoli perfformiad. Targedwyd datblygiad staff yn ofalus. I wella llythrennedd, penodwyd cydlynydd a thîm newydd ar gyfer medrau sylfaenol / anghenion addysgol arbennig. Roedd angen gwella ymddygiad a phresenoldeb ar unwaith hefyd: gosodwyd paramedrau clir ar gyfer ymddygiad derbyniol. Canolbwyntiodd DPP staff ar reoli ymddygiad. Adolygwyd gwobrau a chosbau ac fe gafodd presenoldeb ei fonitro'n ofalus. Yn ychwanegol i hyn, roedd darpariaeth fwy ffocysedig ar gyfer lles disgyblion yn cael ei chreu a llais y dysgwr yn cael ei gyflwyno fel dull o gynnwys disgyblion yn y broses wella.

Ar ôl ein camau gweithredu cychwynnol, roeddem yn byw CYFLE. Fe wnaethom gyflwyno strwythur mentora disgyblion gyda sawl lefel o gymorth ym mlwyddyn 2. Cyflwynwyd gweithdrefnau olrhain a monitro disgyblion, gydag ystod o strategaethau ymyrraeth targedig, i sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni ei botensial. Aethom ati i groesawu arfer orau, gan addasu'r syniadau y daethom o hyd iddynt er mwyn bodloni anghenion ein hysgol. Fe wnaethom symud tuag at arweinyddiaeth ar y cyd a dosbarthedig trwy ddatblygu grwpiau ysgol fel y Grŵp Gwella Ysgol a oedd yn cynnwys pob arweinydd canol, a'r uwch dîm arweinyddiaeth.

Roedd ein ffocws ar godi safonau yn golygu ein bod yn bodloni safonau cenedlaethol erbyn blwyddyn 3. Felly, fe wnaethom ddefnyddio'r rhain fel offer i fesur ein llwyddiant ein hunain o ran darpariaeth a gwella ymhellach. Cawsom achrediad allanol ar gyfer mentrau ysgol gyfan fel: Y Marc Siarter Sgiliau Sylfaenol, Buddsoddwyr mewn Pobl, Baneri Gwyrdd ADCDFE a dail Ysgolion Iach. Fe wnaethom hefyd wella'r ffordd yr oeddem yn cydweithio ag ysgolion cynradd sy'n ein bwydo, a datblygwyd ein grwpiau Llais y Dysgwr ymhellach pan greodd y disgyblion Grŵp Gweithredu ar Faeth yn yr Ysgol (SNAG) a phwyllgor Eco. Mae llais y dysgwr yn cyfrannu at y cynllun gwella erbyn hyn, mae'n cymryd rhan mewn penodiadau ac fe gaiff ei gynnwys mewn hunanarfarnu pynciau.

I wella addysgu a dysgu, fe wnaethom rannu meini prawf barnau gwersi Estyn gyda phob aelod o staff. Rhoddwyd cyfrifoldeb i aelod o'r uwch dîm arweinyddiaeth am addysgu a dysgu a sefydlwyd cymuned ddysgu broffesiynol gyda ffocws o symud gwersi o Dda i Ragorol.

Cafodd arfer orau mewn addysgu yn yr ysgol ei nodi a'i rhannu gydag aelodau eraill o staff a chanolbwyntiodd datblygiad staff ar addysgu a dysgu. Rhoddwyd mwy o bwyslais ar effaith profiadau dysgu ac ansawdd y canlyniad.

Gweithiodd aelod o'r uwch dîm arweinyddiaeth gyda thîm dysgu Powys ar asesu ar gyfer dysgu ac arweiniodd sesiynau DPP yn yr ysgol a'r clwstwr. Datblygwyd medrau yn feysydd ffocws a'u hymgorffori mewn cynlluniau gwaith newydd gyda chyfleoedd asesu ar gyfer dysgu a dulliau o gyflwyno gwersi. Fe wnaeth y cynllunio cydlynus hwn ddarparu cyfleoedd ar gyfer monitro cynnydd disgyblion mewn llythrennedd a medrau allweddol eraill ym mhob pwnc.

Roedd angen i ni ddarparu cwricwlwm a oedd yn bodloni anghenion y disgyblion. Rhoddwyd cyfrifoldeb i aelod o'r uwch dîm arweinyddiaeth am y cwricwlwm a gweithiodd tuag at fodloni'r Mesur Dysgu a Sgiliau ar gyfer dysgwyr 14-19. Arweiniodd hyn at gwricwlwm mwy amrywiol sy'n addas ar gyfer dysgwyr, cydweithio cynyddol gyda darparwyr eraill ac achrediad Medrau Allweddol.

Roedd angen datblygiad staff targedig; eto, rhoddwyd cyfrifoldeb am wella i aelod o'r uwch dîm arweinyddiaeth yn y maes hwn a chanolbwyntiwyd ar safonau. Roedd datblygiad staff wedi'i gysylltu â'r cynllun gwella ysgol a'r amcanion rheoli perfformiad. Anogwyd arsylwadau cymheiriaid a chymerodd lawer o staff ran mewn ymholi a myfyrio; gan gynnwys rhwydweithio ag athrawon mewn ysgolion eraill. Ailddiffiniwyd strwythur staffio'r ysgol i roi mwy o bwyslais ar safonau ac atebolrwydd. Datblygwyd staff nad ydynt yn addysgu i lenwi llawer o rolau allweddol, yn enwedig yn y ddarpariaeth lles.

Arweiniodd darpariaeth â mwy o ffocws ar gyfer lles disgyblion at greu ein Canolfan Les, Canolfan CYFLE.  Roedd y ffocws hwn ar anghenion pob dysgwr unigol a'u hanghenion cymorth personol, yn allweddol wrth sicrhau nad oedd yr un disgybl yn gadael yr ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig.

Ein camau nesaf; datblygu llawer o gysondeb ym mhob agwedd ar waith yr ysgol.

**Deilliannau**

Safonau gwell

- Rydym yn Chwartel 1 neu 2 ar gyfer yr holl ddangosyddion perfformiad yn CA3 a CA4
- Rydym uwchlaw cyfartaledd y teulu yn y rhan fwyaf o ddangosyddion pwnc
- Rydym uwchlaw cyfartaledd Cymru mewn dangosyddion perfformiad ôl-16
- Cawsom ein graddio ym Mand 2 ar gyfer 2010/11 ac rydym ym Mand 1 ar gyfer 2011/12
- Yn ychwanegol i'r uchod, mae gennym nifer gynyddol ar y gofrestr, mae gennym enw rhagorol yn ein cymuned, roeddem yn astudiaeth achos yn llyfr y Sefydliad Materion Cymreig; Gwneud Gwahaniaeth yn CA3

Rhestrodd Estyn ein nodweddion rhagorol yn 2009 fel a ganlyn:

- y duedd o wella mewn perfformiad mewn canlyniadau arholiadau;
- y ffordd y mae athrawon a chynorthwywyr dysgu yn hyrwyddo cyfle cyfartal yn yr ystafell ddosbarth;
- y ffordd y mae'r cwricwlwm yn hyrwyddo medrau allweddol a datblygiad cynaliadwy; a'r
- ffordd y mae'r ysgol yn gofalu am ddisgyblion a myfyrwyr ac yn rhoi arweiniad iddynt.

Deilliannau eraill:

- Barnodd Estyn fod y ddarpariaeth cymwysterau galwedigaethol yn CA4 yn nodwedd ragorol (Chwefror 2009)
- Mae cwricwlwm yr ysgol yn CA4 yn rhagori ar dargedau Llywodraeth Cymru yn 2012 ar gyfer nifer ac ystod y cyrsiau a gynigir i'n dysgwyr (fel y maent wedi'u cynnwys ym Mesur Dysgu a Sgiliau 14-19)
- Barnodd Estyn fod y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau sylfaenol a medrau allweddol yn nodwedd ragorol (Chwefror 2009)
- Barnodd Estyn fod gan 'Uwch arweinwyr a rheolwyr gysylltiadau effeithiol gyda thimau adrannol.  Maent yn monitro eu gwaith, yn nodi ac yn cefnogi eu hanghenion datblygiad proffesiynol, ac yn monitro effaith eu hyfforddiant ar safonau' (Chwefror 2009)
- Barnodd Estyn fod hunanarfarnu yn yr ysgol yn rhagorol (Chwefror 2009)

## Astudiaeth achos 6 – Ysgol Gyfun Oakdale, Caerffili

Ysgol cyfrwng Saesneg 11 i 16 yw Ysgol Gyfun Oakdale sydd â 600 o fyfyrwyr ar y gofrestr. Sefydlwyd yr ysgol i wasanaethu cymuned lofaol yng Nghymoedd De Cymru ac mae amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd yr ardal yn nodweddiadol o'r rhanbarth. Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr o dreftadaeth Gwyn Prydeinig ac mae nifer y myfyrwyr nad Saesneg yw eu mamiaith ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae tua 18% o'r myfyrwyr yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r gyfran sydd ag anghenion addysgol arbennig yn debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol, er bod y gyfran sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig islaw'r cyfartaledd.

Dechreuodd y pennaeth yn yr ysgol yn Ebrill 2007 ac roedd arolygiad ar y gweill yn Nhachwedd 2008. Yn sgil penodi dirprwy bennaeth y cwricwlwm ym Medi 2008 a phennaeth bugeiliol cynorthwyol yn Ionawr 2009, ynghyd â'r bwrsar a oedd eisoes yn ei swydd, sefydlwyd yr uwch dîm arweinyddiaeth fel y mae ar hyn o bryd.

**Pa dri ffactor sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar wella safonau?**

Dyma'r tri ffactor sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar wella safonau:-

1 Arweinyddiaeth – darparu gweledigaeth a sefydlu diben cyffredin
2 Ymddygiad – darparu cymuned waraidd a gwareiddiol
3 Cwricwlwm – darparu amgylchedd dysgu sy'n arwain at y cymwysterau gorau i bawb

**Pa mor agos y mae'r ysgol yn cyd-fynd â chyfnodau'r model taith i wella? Pam?**

Wrth edrych ar y model taith i wella ar gyfer ysgolion uwchradd, mae arwyddion clir sy'n adlewyrchu ein taith yn Oakdale. Yr hyn sy'n drawiadol yw'r angen i ddatblygu'n raddol, gan adeiladu pob cam o'r daith ar sylfeini'r daith flaenorol. Mae'n glir nad yw ceisio rhoi'r elfennau hynny ar waith sy'n cael eu gweld yn arwyddion o ragoriaeth yn gallu cael ei ymgorffori yn niwylliant yr ysgol oni bai bod sylfeini arweinyddiaeth ac ymddygiad wedi'u sefydlu'n gadarn.

**Strategaeth ar gyfer gwella**

Trwy gydol y broses wella, mae'r strategaeth wedi canolbwyntio ar bedair elfen allweddol, sef:

- arweinyddiaeth a rheolaeth;
- ymddygiad a phresenoldeb;
- cwricwlwm a chyflawniad; ac
- addysgu a dysgu.

## Camau Gweithredu

## Y daith o anfoddhaol i ddigonol 2007-2009

*Arweinyddiaeth a rheolaeth*

Gan fod arolygiad yn cael ei gynnal yn Nhachwedd 2008, aeth y pennaeth ati'n gyflym i osod gwerthoedd craidd yr ysgol trwy gyfres o gyfarfodydd. Sefydlodd y rhain yr hyn oedd yn dda a'r hyn nad oedd cystal, a defnyddiwyd dull o'r brig i lawr ar gyfer delio â diffygion a nodwyd gyda chefnogaeth y staff a'r corff llywodraethol. Sefydlwyd yr uwch dîm arweinyddiaeth (UDA) i roi'r dull hwn ar waith.

*Ymddygiad a phresenoldeb*

Cyn i'r pennaeth ddechrau, roedd y staff eisoes yn gweithio ar system gosbi a gwobrwyo. Cydnabu'r pennaeth fod hyn yn gryfder datblygol ac anogwyd y staff i ddatblygu'r system hon a rhoesant gefnogaeth gadarn iddi. Yn sgil penodi'r pennaeth bugeiliol cynorthwyol (PGC), aeth y tîm bugeiliol o bum rheolwr cynnydd (RhC) a'r cydlynydd anghenion arbennig (CydAAA) ati i weithio gydag arweinwyr y tîm cwricwlwm (ATC) a staff i sicrhau lefel o gysondeb ar draws yr ysgol wrth ddefnyddio cosbau a gwobrau. Dyma yw'r sylfaen ar gyfer yr holl ddatblygiadau eraill yn yr ysgol, ac mae'n parhau heddiw.

*Addysgu a dysgu*

Anogodd y pennaeth y wers pedair rhan, medrau beirniadol a defnyddio arddulliau Dysgu Gweledol, Clywedol, Darllen a Chinesthetig (VARK) yn yr ysgol trwy drefnu hyfforddiant mewn swydd gydag athrawon lleol. Fe wnaeth yr enghraifft hon o rannu arfer realistig roi hyder i staff addysgu fentro mwy gydag addysgeg yn eu gwersi. Roedd addysgu a dysgu yn dechrau datblygu erbyn hyn gan ei fod yn cael ei adeiladu ar sylfeini amgylchedd cosbau a gwobrau fwyfwy cadarn. Yn sgil penodi'r dirprwy bennaeth (DB), roedd gallu cynyddol yn yr ysgol i fwrw ymlaen â'r agenda addysgu a dysgu, rheoli perfformiad, medrau sylfaenol a medrau allweddol trwy weithio gydag arbenigwyr a phobl frwdfrydig allweddol ymhlith y staff.

*Cwricwlwm a chyflawniad*

Roedd yr ysgol yn gweithio gyda model cwricwlwm â gogwydd pwnc, wedi'i seilio ar lefelau staffio yn hytrach na gofynion dysgu. Yn sgil penodi'r dirprwy bennaeth, cynhaliwyd archwiliad medrau staff i bennu gallu staff i gyflwyno pynciau eraill a bodloni'r mesur medrau dysgu o fewn y gyllideb. Roedd y system asesu, cofnodi ac adrodd (ACA) yn weddol safonol gyda dwy radd rybuddio dros dro ac adroddiad llawn i rieni bob blwyddyn. Yn sgil penodi'r pennaeth cynorthwyol, dechreuodd y gweithgor ACA wella'r ffordd yr ydym yn monitro cynnydd disgyblion a dechreuodd ailsefydlu enw'r ysgol yn y gymuned trwy ddarparu adroddiadau o ansawdd uchel i rieni.

Roedd yr arolygiad yn Nhachwedd 2008 yn ddigonol, ond nododd y sylwebaeth fod ‘newid’ yn y rhagolygon ar gyfer dyfodol yr ysgol.

Canlyniadau trothwy Lefel 2 yn 2007 oedd 40%.
Canlyniadau trothwy Lefel 2 yn 2008 oedd 44%.
Canlyniadau trothwy Lefel 2 yn 2009 oedd 59%.

**Y daith o ddigonol i dda 2009-2011**

*Arweinyddiaeth a rheolaeth*

Yn sgil rhoi diwedd ar ddau fater staffio arwyddocaol a ddygwyd ymlaen o’r rheolaeth flaenorol ac ehangu rôl y bwrsar i rôl rheolwr busnes, roedd y pennaeth a’r tîm arweinyddiaeth yn gynyddol yn gallu canolbwyntio ar addysgu a dysgu heb ymyrraeth. Er bod cyfweliadau am y sefyllfa bresennol gydag arweinwyr canol yn datblygu atebolrwydd cadarn, chwaraewyd rôl allweddol gan yr arddull arweinyddiaeth trwy bolisi drws agored, ymddiriedaeth ddatblygedig, diwylliant dim bai ac ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd data.

Roedd sefydlogrwydd ariannol ac eglurder diben wedi’i gyfuno â llai o ymyriadau yn golygu bod yr ysgol yn canolbwyntio o ddifrif ar ddeilliannau. Penodwyd athrawon i arwain ar sail gorchwyl a gorffen ar faterion fel llythrennedd digidol, addysgu a dysgu, bwyta’n iach, y dimensiwn Cymreig a’r amgylchedd. Cydnabuwyd bod gwella medrau allweddol a medrau sylfaenol a’r anogwr dysgu yn allweddol ar gyfer gwella perfformiad ar drothwy lefel 2.

*Ymddygiad a phresenoldeb*

Llwyddodd y tîm bugeiliol i wella cysondeb ac eglurder am gosbau a gwobrau tra oeddent ar yr un pryd yn datblygu ethos yr ysgol yn eu grwpiau blwyddyn. Gwelwyd gwelliant i lefel newydd mewn ymddygiad a phresenoldeb y tro hwn. Roedd disgwyliadau o’r hyn y gellid ei gyflawni wedi codi yn sgil canlyniad o 59% ar drothwy lefel 2 ac fe wnaeth hyn gynyddu hyder i ddisgwyl mwy gan y myfyrwyr a chanddyn nhw eu hunain.

*Addysgu a dysgu*

Datblygodd y grŵp addysgu a dysgu y pecyn offer addysgu a dysgu, ac fe wnaeth yr arweinydd canol a oedd yn arwain y tîm ddarparu hyfforddiant ar asesu ar gyfer dysgu a dysgu i ddysgu. Fel staff, aethom i gyd oddi ar y safle i westy am y diwrnod a chawsom hyfforddiant allanol ar addysgu a dysgu i ychwanegu at y pecyn offer addysgu a dysgu. Arweiniodd y grŵp hwn y ffordd i symud ymlaen gyda datblygiadau yn llais y myfyriwr, arsylwi gwersi cymheiriaid, arsylwi gan fyfyrwyr a ffilm fer a ddatblygwyd gan y myfyrwyr addysgu a dysgu a ddangoswyd mewn gwasanaethau i’r ysgol gyfan.

Ar ôl trafodaethau ynghylch anhawster wrth lunio barnau am gydweithwyr am eu haddysgu, cynhaliodd y dirprwy bennaeth yr arsylwadau gwersi rheoli perfformiad ar

gyfer pob un o’r staff a roddodd gysondeb a disgwyliadau eglur a oedd yn cyd-fynd â’r dulliau yn y pecyn offer addysgu a dysgu.

*Cwricwlwm a chyflawniad*

Roedd yr her mewn ysgol fach i ddarparu setiau ar gyfer pob pwnc heb unrhyw wersi dwbl na grwpiau rhanedig, gan beidio â chynyddu gwariant yn ddiddorol! Yr ateb oedd gosod mewn setiau o Flwyddyn 7 naill ai mewn grwpiau mathemateg neu Saesneg gyda phynciau yn dewis cael eu rhoi mewn setiau gyda’r ddau bwnc hyn. Gall y disgyblion symud i fyny neu i lawr grwpiau bob hanner tymor yn dibynnu ar ddeilliannau asesu. Gall unrhyw arweinydd y tîm cwricwlwm fod yn ‘ddigrifwr’ ar gyfer disgybl y mae’n teimlo bod angen iddo fod mewn grŵp penodol, er enghraifft trwy fod yn ddawnus mewn cerddoriaeth neu gelf.

Aeth y gweithgor asesu, cofnodi ac adrodd ati i ddatblygu’r adroddiadau i rieni ymhellach trwy symud tuag at gynllun codau lliw a oedd yn dangos p’un a oedd disgyblion yn gweithio uwchlaw neu islaw eu potensial neu’r un fath. Roedd yr adborth gan rieni a staff yn llwyddiannus wrth i rieni ymweld â phynciau a oedd yn goch gan eu bod islaw’r potensial yn amlach nag yr oedd myfyrwyr yn cyrraedd eu potensial neu’n rhagori arno.

Parhaodd y cydlynydd medrau i ddatblygu lefelau llythrennedd trwy ddiwrnodau dal i fyny, diwrnodau llyfrgell, diwrnodau darllen a HMS staff. Roedd yr opsiynau galwedigaethol a gyflwynwyd ddwy flynedd ynghynt yn dwyn ffrwyth. I wneud y ‘newid sylweddol’ a gydnabuwyd yn yr arolygiad i welliant dilys mewn safonau, roedd yr her a’r cymorth ar gyfer y pynciau craidd trwy gyfarfodydd dangosydd pwnc craidd ar y cyd gyda’r uwch dîm arweinyddiaeth i drafod lefelau myfyrwyr unigol yn hanfodol.

Canlyniadau trothwy Lefel 2 yn 2009 oedd 59%.
Canlyniadau trothwy Lefel 2 yn 2010 oedd 71%.
Canlyniadau trothwy Lefel 2 yn 2011 oedd 83% gyda throthwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, yn cyrraedd 50% am y tro cyntaf yn hanes yr ysgol.

**Y daith o dda i ragorol 2011-2013**

*Cwricwlwm a chyflawniad*

Mae’r ysgol wedi gweithio’n galed i ddatblygu cwricwlwm cynyddol bersonol sy’n adlewyrchu anghenion myfyrwyr gyda throthwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg. Caiff myfyrwyr hawl eang i bynciau ar draws pob cyfnod allweddol. Neilltuir mwy o amser cwricwlwm ar gyfer rhifedd a llythrennedd. Mae’r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4 wedi’i gynllunio i sicrhau llwyddiant yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg.

Mae’r systemau a ddefnyddir ar gyfer monitro cynnydd yn gadarn a thrylwyr, ac maent wedi cael eu gwella trwy waith y gweithgor asesu, cofnodi ac adrodd a defnyddio data o ansawdd uchel. Mae’r pennaeth yn darparu hyfforddiant data o ansawdd uchel ar gyfer

staff allweddol. Cyflwynir data fel y gellir olrhain grwpiau sy'n agored i niwed ym mhob pwnc yn hawdd. Mae'r myfyrwyr yn gwerthfawrogi cynwysoldeb ac fe gaiff plant sy'n agored i niwed eu derbyn a'u meithrin. Cynhelir y diwrnod ysgol mewn awyrgylch lle mae parch ar y ddwy ochr. Mae synnwyr o dawelwch a diben yn amlwg o amgylch y coridorau.

*Addysgu a dysgu*

Mae staff wedi canolbwyntio'n ddygn ar gynnal dysgu ac addysgu o ansawdd uchel. Mae monitro cyson gan arweinwyr y tîm cwricwlwm yn golygu bod tanberfformio yn yr ystafell ddosbarth yn cael ei ddarganfod yn gyflym a chymorth yn cael ei roi. Mae uwch staff wedi cael eu hyfforddi ar sut i sicrhau ansawdd dysgu ac addysgu; yn y blynyddoedd diwethaf, ymestynnwyd yr hyfforddiant hwn i arweinwyr y tîm cwricwlwm.

Mae staff yn cyfarfod yn rheolaidd mewn timau cwricwlwm i sicrhau cysondeb wrth ddatblygu polisi a gweithdrefnau, a darparu cyfleoedd i arddangos arfer orau.

*Arweinyddiaeth a rheolaeth*

Mae eglurder llwyr ynglŷn â'r gofynion ar gyfer arweinyddiaeth yn yr ysgol – dawn greadigol, datrys problemau, dyheadau uchel, ymagwedd allblyg, y gallu i gynnal perthynas ansawdd uchel mewn amgylchedd sy'n symud yn gyflym a theyrngarwch, yn rhagofynion ar gyfer arweinyddiaeth yn Oakdale. Mae'r broses gyfweld ar gyfer recriwtiaid wedi'u secondio i swyddi arweinyddiaeth yn drylwyr ac wedi'i seilio ar gymhwysedd mewn dealltwriaeth ysgol-gyfan. Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr canol, staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu, wedi cael eu secondio i'r uwch dîm arweinyddiaeth am flwyddyn i gael profiad ar y lefel honno. Mae cyfnod ymsefydlu staff newydd yn broses fireiniedig. Mae disgwyliadau yn uchel ac absenoldeb staff yn isel.

Mae cadeirydd y llywodraethwyr yn disgrifio'r pennaeth fel a ganlyn: mae ganddo synnwyr clir o ddiben a gweledigaeth, mae'n cyd-fynd â barn llywodraethwyr o fod yn ysgol fro; parodrwydd i wrando ar staff, llywodraethwyr a rhieni; gallu nodedig i gyfosod materion cymhleth ac wedyn cymryd camau priodol; hygrededd trwy gyflawni addewidion; a medr mewn cyfathrebu yn fewnol, gydag ysgolion eraill ac i ystod eang o gynulleidfaoedd.

Mae gan yr ysgol systemau cadarn ar gyfer hunanarfarnu. Mae adolygiad ddwywaith y flwyddyn sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau yng nghyfnod allweddol 3 yn nhymor 3 a chyfnod allweddol 4 yn nhymor 1 yn sicrhau bod arfarniad yn seiliedig ar dystiolaeth a phwyntiau gweithredu yn dilyn yr arfarniad hwn. Ceir ethos o ddidwylledd a chydweithio. Cynhelir arolygon staff a myfyrwyr yn rheolaidd, a rhoddir adborth cyfrinachol i'r uwch dîm arweinyddiaeth. Mae staff yn cymryd rhan glir a gweithredol mewn dyfeisio polisi ysgol a ffurfio dyfodol yr ysgol. Mae rhieni'n mynd ati i fynegi eu safbwyntiau ac fe'u croesewir i'r diwrnodau tiwtor dosbarth a'r nosweithiau rhieni, lle cânt eu cynghori ar y system asesu, cofnodi ac adrodd fel y mae'n berthnasol i'w plentyn. Mae llais y myfyrwyr yn gryf. Mae myfyrwyr yn cymryd rhan mewn penodiadau, y broses

hunanarfarnu, cyngor ysgol ffyniannus a rhaglen llywodraethwyr cysylltiol. Mae'r ysgol yn ddiflino yn ei phenderfyniad i sicrhau rhagoriaeth ym mhob maes o'i bywyd a'i gwaith.

**Deilliannau**

Canlyniadau trothwy Lefel 2 yn 2011 oedd 83%, gyda throthwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg a mathemateg, sef 54%.
Canlyniadau trothwy Lefel 2 yn 2012 oedd 80%, gyda throthwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg a mathemateg yn cyrraedd 60% am y tro cyntaf yn hanes yr ysgol.

Erbyn hyn, mae gan yr ysgol:

- ethos wedi'i seilio ar 'falchder yn ein hysgol';
- system cosbau a gwobrau a ddeellir yn glir;
- disgwyliadau clir am addysgu a dysgu;
- cwricwlwm wedi'i bersonoli ar gyfer myfyrwyr, wedi'i seilio ar y canlyniad gorau i'r myfyriwr;
- rhaglen datblygiad proffesiynol gref i fagu doniau ymhlith staff;
- systemau TGCh blaengar ar gyfer cipio a dadansoddi data;
- myfyrwyr sy'n gwerthfawrogi eu dysgu a'u cynwysoldeb eu hunain;
- perthynas hynod ymgynghorol gyda llywodraethwyr, staff, rhieni a myfyrwyr;
- staff sy'n cymryd rhan weithredol mewn dyfeisio polisi ysgol a ffurfio dyfodol yr ysgol; a
- thîm arweinyddiaeth sydd, gyda'i gilydd, yn fwy na swm eu rhannau unigol.

Nid bod yn rhagorol yw diwedd y stori, ac rydym yn sylweddoli y bydd cynnal y rhagoriaeth honno hyd yn oed yn fwy o her na'i chyflawni. Felly, yma yn Oakdale, rydym yn gweithio tuag at y meysydd canlynol.

*Cysondeb a dawn greadigol mewn addysgu*

Mae angen i ni barhau i ddatblygu systemau a dulliau sy'n sicrhau bod mwyafrif helaeth yr addysgu mewn ystafelloedd dosbarth o leiaf yn dda, ac fel arfer yn rhagorol. Mae gan uwch arweinwyr rôl fonitro sy'n rhoi gwybodaeth hyderus i ni am rinweddau proffesiynol pob un o'r athrawon yn yr ysgol.

Gan fod cysondeb wedi cael ei gyflawni erbyn hyn mewn modd dibynadwy, mae angen i'r pwyslais fod ar wneud y mwyaf o'r amlder y mae gwersi wir yn brofiadau cofiadwy o ddysgu pleserus, heriol, cydweithredol i'r athro a'r myfyrwyr fel ei gilydd. Mae angen parhau i seilio asesiadau ffurfiannol o waith myfyrwyr ar egwyddorion sy'n gyffredin ar draws yr ysgol, gan gynnal synnwyr clir o gynnydd myfyrwyr. Mae angen parhau i ddathlu cynnyrch dysgu myfyrwyr trwy ei gyhoeddi, ei berfformio neu'i arddangos.

*Cwricwlwm wedi'i bersonoli*

Mae angen i ni barhau i addasu'r cwricwlwm rydym yn ei gynnig i fyfyrwyr fel bod gan bob myfyriwr lwybr unigol trwy ei (g)yrfa ysgol. Mae angen parhau i gytuno ar hyn gyda staff ar adegau allweddol yn yr yrfa honno, trwy ymgynghori gyda rhieni. Mae angen

parhau i wirio cynnydd ar hyd y llwybr yn rheolaidd. Mae angen i ni ddiweddaru a mireinio ein systemau monitro a thrin data i roi dealltwriaeth sy'n cael ei diweddaru'n gyson i staff o gynnydd myfyriwr, gan arwain at ymyriadau prydlon yng ngwaith myfyrwyr sy'n tangyflawni.

*Ymgysylltu â myfyrwyr*

Mae angen i ni barhau i ddatblygu llais y disgybl fel bod myfyrwyr yn parhau i'w gweld eu hunain yn bartneriaid gweithredol ym mywyd a gwaith yr ysgol, nid fel defnyddwyr goddefol cynnyrch wedi'i gynllunio ymlaen llaw. Mae angen adfywio'r synnwyr hwn o bartneriaeth bob blwyddyn trwy gael myfyrwyr i gymryd rhan mewn adolygiadau rheolaidd o'u gwaith a'u cynnydd, a thrwy'r sylw diffuant y mae staff yn ei roi i'w barn ar bob agwedd ar weithgarwch a threfniadaeth yr ysgol. Mae angen parhau i glywed lleisiau myfyrwyr trwy'r cyngor ysgol, trwy ddylanwad eu cynrychiolwyr wrth benodi staff, neu drwy system y mae myfyrwyr yn gwerthfawrogi effeithiolrwydd eu hathrawon trwyddi.

*Perthynas gyda'r byd y tu allan*

Mae angen i ni gynnal perthynas gynhyrchiol ar y ddwy ochr gyda rhieni a'r gymuned leol ehangach. Mae angen i'n systemau cyfathrebu barhau i fod yn rhagorol a datblygu wrth i gyfryngau newydd gael eu cyflwyno. Mae angen i rieni barhau i gael dylanwad dilys ar bolisïau a gweithdrefnau'r ysgol. Mae angen i'n corff llywodraethol barhau i ddatblygu eu rôl strategol o ran dylanwadu ar gyfeiriad cyffredinol yr ysgol neu'i gadarnhau, tra'n caniatáu lle gweithredol i uwch reolwyr. Mae angen i ni barhau i ddatblygu ein gallu i gael cyfrifoldeb ffurfiol fel canllaw a mentor i ysgolion eraill y mae angen eu gwella.

*Arweinyddiaeth ysbrydoledig*

Fel tîm arweinyddiaeth, mae angen i ni barhau i gael gweledigaeth hirdymor gyffredinol o'r hyn y gallai ein hysgol fod, ni waeth pa mor bell i'r dyfodol yw'r weledigaeth honno. Mae angen i ni barhau i:

- droi'r weledigaeth honno yn ymdrech ymarferol a llwyddiannus ar ran nifer helaeth o staff, yn enwedig ein harweinwyr canol;
- penodi pobl ragorol i bob swydd yn yr ysgol, a pharhau i ymddiried ynddynt i wneud eu swyddi;
- annog arloesedd, a mentro mesuradwy ar ran y staff;
- bod yn ddigyfaddawd ac yn ddidostur wrth fynd i'r afael â pherfformiad gwael, os bydd angen;
- hyrwyddo awyrgylch o falchder hyderus yn niwylliant yr ysgol;
- cyflawni ein rôl fel tîm arweinyddiaeth yr ysgol yn ein perthynas â'r gymuned rydym yn ei gwasanaethu; a
- chynnal ein hygrededd gyda staff trwy gyflawni'r addewidion a wnaed.

## Astudiaeth achos 7 – Ysgol Olchfa, Abertawe

Ysgol gyfun 11 i 18 oed ydd â 1,861 o ddisgyblion, gan gynnwys 492 yn y chweched dosbarth yw Ysgol Olchfa. Mae'r nifer a dderbynnir yn cynrychioli'r ystod gallu llawn. Mae proffil academaidd yr ysgol wedi newid yn sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf, yn rhannol oherwydd niferoedd cynyddol o leoliadau sy'n cael eu ffafrio. Yn nodweddiadol, mae gan 37% o ddisgyblion sy'n dechrau ym Mlwyddyn 7 dros y pum mlynedd diwethaf oedran darllen islaw eu hoedran cronolegol. Bu tuedd sylweddol ar i fyny yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim dros y pum mlynedd diwethaf o 5.7% yn 2007 i 9.5% yn 2012. Mae gan ychydig dros 12.4% o ddisgyblion (11-16) anghenion addysgol arbennig ac mae gan 2.3% o ddisgyblion (11-16) ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn cymharu â'r cyfartaleddau cenedlaethol, sef 18.6% a 2.6%.

Penodwyd y pennaeth yn 2001. Penodwyd y dirprwy bennaeth ym Medi 2010 ar ôl gweithio fel pennaeth cynorthwyol cyn hynny. Mae un pennaeth cynorthwyol wedi bod yn ei swydd er 2002 a phenodwyd y pennaeth cynorthwyol arall yn 2009. Dechreuodd y tri chyfarwyddwr dysgu ar eu swyddi ym Medi 2008.

### Pa dri ffactor sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar wella safonau?

- arweinyddiaeth strategol
- defnyddio data perfformiad
- hunanarfarnu a sicrhau ansawdd

### Pa mor agos y mae'r ysgol yn cyd-fynd â chyfnodau'r model taith i wella? Pam?

Ni all yr ysgol wella heb newid. Mae'r newidiadau a roddwyd ar waith yn Olchfa yn adlewyrchu'r rhai yn y model taith i wella. Yn yr ysgol fawr hon, mae cysondeb ar draws pob agwedd ar ein gwaith wedi bod yn hanfodol i welliant. Mae ailstrwythuriadau staffio olynol wedi sicrhau bod strwythurau rheoli yn hynod effeithlon ac yn addas at eu diben gyda ffocws wedi'i ddiffinio'n glir ar uchafiaeth rhagoriaeth ac atebolrwydd yn yr ystafell ddosbarth. Mae polisïau a systemau newydd wedi cael eu cyfleu'n glir i bob aelod o staff ac yn cael eu defnyddio yn gyffredinol. Ein prif flaenoriaethau fu canolbwyntio ar wella safonau ar gyfer pob dysgwr trwy wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu a thrwy wella medrau pob aelod o staff wrth ddefnyddio data perfformiad i olrhain cynnydd a gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer pob disgybl.

### Strategaeth ar gyfer gwella

Gwelwyd gwelliant sylweddol yng nghanlyniadau'r ysgol rhwng yr arolygiadau yn 2005 a 2011 er gwaethaf y gostyngiad yn lefelau cyrhaeddiad blaenorol. Cefnogir y gwelliant hwn mewn safonau gan safon yr addysgu yn yr ysgol. Roedd hyn yn gryfder yn 2005 ac mae wedi parhau i wella'n sylweddol gyda pholisïau a gweithdrefnau sicrhau ansawdd sy'n arwain y sector yn ategu barnau proffesiynol cadarn a deallusol gan uwch reolwyr a rheolwyr canol. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth hynod gywir i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth

(UDA) am yr ysgol, gan eu galluogi i ganolbwyntio ar wella. Mae’r UDA wedi ymrwymo i welliant parhaus ac mae wedi dangos dewrder proffesiynol wrth roi newidiadau radical ar waith i sicrhau gwelliant sylweddol. Mae arweinyddiaeth a rheolaeth ar bob lefel yn awr yn canolbwyntio’n gadarn ar wella ysgol a deilliannau. Ein nod oedd creu ysgol lle mae disgyblion o bob gallu yn llwyddo yn academaidd ac yn manteisio ar bopeth sydd gan ysgol fawr i’w gynnig, ac mae’r nod hwn yn parhau.

### Camau Gweithredu

### Arweinyddiaeth strategol

Ym Medi 2006, rhoddodd yr ysgol strwythur staffio newydd radical ar waith i greu strwythur cydlynus, teg a thryloyw a fyddai’n allweddol wrth godi safonau cyflawniad yn yr ysgol. Roedd y prif newidiadau yn cynnwys y canlynol:

- lleihau’r uwch dîm arweinyddiaeth;
- penodi cyfarwyddwyr dysgu i’r Tîm Rheoli Estynedig (TRhE) i gysylltu cyfeiriad strategol yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth â’i ledaenu a’i roi ar waith ar draws yr ysgol a goruchwylio gwaith grwpiau pynciau, grwpiau blwyddyn a themâu ysgol gyfan;
- creu swyddi â chyfrifoldebau addysgu a dysgu gyda ffocws clir ar addysgu a dysgu;
- penodi arweinwyr dysgu i ddisodli rôl draddodiadol y pennaeth blwyddyn gyda ffocws clir ar osod targedau, monitro ac olrhain o fewn y grŵp blwyddyn; a
- phenodi gweithwyr arweiniad bugeiliol i roi cymorth i ddisgyblion mewn materion bugeiliol a rheolwyr cyfnodau allweddol i roi cymorth gweinyddol mewn rhedeg y grwpiau blwyddyn o ddydd i ddydd.

Ym Medi 2012, bu ailstrwythuro pellach. Adeiladodd hyn ar lwyddiant yr ailstrwythuro blaenorol a oedd yn amlwg wedi bod yn allweddol wrth gynyddu lefelau atebolrwydd a gwella safonau addysgu a dysgu. Pwysleisiodd y strwythur newydd bwysigrwydd rhagoriaeth yn yr ystafell ddosbarth a darparodd linellau cyfrifoldeb ac atebolrwydd hyd yn oed yn gliriach. Roedd ein profiad wedi dangos bod safonau’n gwella pan fydd rhagoriaeth yn yr ystafell ddosbarth a rheolaeth ragweithiol o ran perfformiad staff. Yn y strwythur diwygiedig, caiff gwaith yr holl athrawon ei reoli’n uniongyrchol gan ddeg rheolwr dysgu (RhD) ac mae pedwar arweinydd dysgu sector (ADS) yn benaethiaid ar y tîm bugeiliol. Mae tri chyfarwyddwr dysgu (CD) yn ffurfio rhan o’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth erbyn hyn. Mae’r rheolwyr dysgu a’r arweinwyr dysgu sector yn ffurfio rhan o’r Tîm Rheoli Estynedig newydd. Caiff rheolwyr dysgu ac arweinwyr dysgu sector eu cynorthwyo gan uwch ymarferwyr arweiniol (UYA) a fydd yn cael eu cefnogi yn y pen draw gan dîm o ymarferwyr arweiniol (YA). Bydd uwch ymarferwyr arweiniol ac ymarferwyr arweiniol yn gyrru datblygiadau o ran cyflwyno yn yr ystafell ddosbarth, technolegau newydd a bydd yn gweithio o dan gyfarwyddyd rheolwyr dysgu ac arweinwyr dysgu i godi safonau ym mhob maes pwnc, gan gynnwys cynorthwyo ag ymyriadau a chymorth uniongyrchol lle bydd angen. Mae’r strwythur newydd yn tanlinellu ymrwymiad yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth i wella deilliannau disgyblion. Agorwyd canolfan ddysgu newydd i gynorthwyo disgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni ym Medi 2012 ac mae hyn eisoes wedi dechrau effeithio ar ddeilliannau

disgyblion. Mae rheolwr y ganolfan ddysgu yn gweithio'n agos gyda rheolwyr academaidd a bugeiliol fel ei gilydd i gynllunio rhaglenni unigol i sicrhau bod pob disgybl yn cael y cyfle gorau i lwyddo.

Mae penderfyniadau eraill ynghylch arweinyddiaeth strategol wedi cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyflwyno rhaglen 'SMART' sy'n arwain y sector ym Medi 2006. Cwricwlwm cymhwysedd trawsgwricwlaidd sy'n canolbwyntio ar fedrau yw SMART sy'n ennyn diddordeb ein disgyblion Blwyddyn 7 yn effeithiol iawn yn y broses ddysgu. Mae rhaglen SMART yn parhau i fod yn ganolog i ddysgu yn seiliedig ar fedrau yn Olchfa. Caiff disgyblion eu hannog i archwilio eu harddulliau dysgu eu hunain ac maent wedi dod yn fedrus wrth gymhwyso technegau trylwyr ar gyfer hunanasesu ac asesu cyfoedion. Mae defnyddio dulliau eraill o asesu wedi bod yn hynod lwyddiannus ac fe gânt eu defnyddio'n helaeth ar draws yr ysgol erbyn hyn i hysbysu dysgwyr. Mae rhaglen SMART yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ennill cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru hefyd. Mae rhaglen bresennol SMART yn cynnwys ffocws mwy eglur ar lythrennedd a rhifedd yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol.
- Mae'r ysgol yn rhoi cryn bwyslais ar ddatblygiad personol ehangach fel sylfaen dyngedfennol ar gyfer dysgu gydol oes a llwyddo yn y dyfodol. Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi blaenoriaethu'r themâu ehangach hyn, sy'n golygu bod gan bob dysgwr hawl i brofiad cyfoethog, yn seiliedig ar fedrau. Mae 'Llwybr Olchfa' wedi bod yn hynod lwyddiannus wrth hyrwyddo datblygiad ehangach tra'n sicrhau gwelliant clir mewn safonau ar yr un pryd. Mae cyflwyno Llwybr Olchfa, wedi'i ategu gan y rhaglen gyfoethogi arloesol, wedi chwarae rhan bwysig yn ein taith i wella ac mae wedi cael effaith gadarnhaol ar les dysgwyr. Nod y rhaglen yw ychwanegu at y llwybr academaidd ffurfiol yn Olchfa ac mae'n cynnwys ystod o weithgareddau sy'n dod o dan bedwar prif faes, sef: Cymuned, Diwylliannol, Chwaraeon a Byw yn Iach, ac Ymarferol.

**Defnyddio data perfformiad**

Gwnaed gwelliant sylweddol yn y maes hwn er 2005 o ran cywirdeb, diben ac amlder asesiadau. Mae hyn wedi rhoi peth wmbreth o ddata perfformiad i ni ac mae hyn, wedi'i ategu gan ddata rhagfynegol gan FFT, wedi golygu bod data a'i reoli yn flaenllaw yn y broses wella. Mae ein system asesu '1.2.3', a gyflwynwyd yn 2010, yn galluogi athrawon i olrhain cynnydd yn erbyn data cyrhaeddiad blaenorol a data rhagfynegol bob hanner tymor. Mae cyfle llawer gwell i ddefnyddio data ysgol gyfan ar rwydwaith yr ysgol a hyfforddiant staff rheolaidd wedi galluogi athrawon i wneud defnydd mwy effeithiol o ddata perfformiad rhagfynegol i lywio cynllunio a gosod targedau. Mae'r wybodaeth a ddarperir gan adolygiadau 1.2.3 yn rhoi adborth ar unwaith trwy SIMS i reolwyr dysgu ac arweinwyr dysgu ac mae hyn yn helpu i hyrwyddo ymyriadau prydlon, dan gyfarwyddyd. Caiff cynnydd ei fonitro o fewn ac ar draws adrannau, ac fe gaiff gwybodaeth ei chyfleu i ddisgyblion a rhieni/gofalwyr trwy gyswllt diogel ar wefan yr ysgol.

Mae hyfforddiant mewn dadansoddi data wedi galluogi rheolwyr i nodi ble mae perfformiad cryf yn bodoli, a ble mae angen gwella. Mae'n ofynnol i staff ystyried y rhesymau dros lefelau perfformiad penodol rhwng pynciau, athrawon a grwpiau addysgu a thueddiadau dros gyfnod. O ganlyniad, caiff arfer dda ei nodi a'i rhannu ac eir i'r afael â gwendidau. Caiff adroddiadau hunanarfarnu a chynlluniau gwella sy'n cael eu llunio gan reolwyr dysgu ac arweinwyr dysgu eu cefnogi gan ddadansoddiad data trylwyr erbyn hyn.

**Hunanarfarnu a sicrhau ansawdd**

Un o'r argymhellion yn ein hadroddiad arolygu yn 2005 oedd parhau i ddatblygu a mireinio ein gweithdrefnau sicrhau ansawdd presennol. Yn 2011, barnodd yr arolygwyr fod prosesau'r ysgol ar gyfer hunanarfarnu a gwella ansawdd yn rhagorol. Mae synergedd clir iawn erbyn hyn rhwng hunanarfarnu'r ysgol, blaenoriaethau gwella ysgol, sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad. Mae ein gweithdrefnau sicrhau ansawdd yn ein galluogi i nodi a dathlu arfer dda, nodi meysydd y mae angen eu datblygu a'u cefnogi, a rhoi i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth y dystiolaeth sydd ei hangen i fynegi a dangos ein gweledigaeth ar gyfer rhagoriaeth.

Mae'r polisi a'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd wedi rhoi mwy o amlygrwydd i rôl rheolwyr canol wrth fonitro addysgu a dysgu ac yn rhoi trosolwg clir iawn i staff o'r hyn y gallant ei wneud i wella. Mae'r ffaith fod pob aelod o staff yn derbyn atebolrwydd wedi bod yn allweddol i ddatblygiad a gwella'r ysgol yn llwyddiannus.

Mae system lle ceir digon o dystiolaeth ysgrifenedig o arsylwadau athrawon, (wedi'i chefnogi gan waith y grŵp addysgu cymheiriaid 'LATOG'), adolygiadau adrannol a monitro llyfrau yn sicrhau bod gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth dystiolaeth glir a dibynadwy am ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Mae adborth yn drylwyr ac yn canolbwyntio'n graff ar ddysgu a deilliannau. Caiff tanberfformio ei nodi, ei herio a'i gefnogi. Mae'r llawlyfr sicrhau ansawdd yn cynnwys manylion am gylch blynyddol o weithgareddau sicrhau ansawdd gan roi darlun clir i staff o berfformiad presennol a heriau yn y dyfodol. Cefnogir sicrhau ansawdd yn Olchfa gan reolwyr llinell effeithiol, amserlen glir ar gyfer tasgau, arsylwadau gwersi, monitro llyfrau a chyfarfodydd allweddol wedi'u trefnu rhwng personél allweddol. Mae staff wedi symud o arfarniad goddrychol ac argraffiadol o berfformiad at ddull mwy systematig a thrylwyr ar gyfer asesu'r hyn a wnawn fel ysgol.

**Deilliannau**

Ym Mai 2011, barnwyd bod perfformiad presennol yr ysgol a rhagolygon gwella'r ysgol yn rhagorol. Barnwyd bod Olchfa yn rhagorol ym mhob un o'r cwestiynau allweddol ac mewn naw o'r deg dangosydd ansawdd. Dyma a nododd arolygwyr:

"*Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth strategol ragorol. Mae'n cyfleu ei weledigaeth ar gyfer yr ysgol yn llwyddiannus iawn ac yn cael cymorth rhagorol gan ei dîm arweinyddiaeth.*"

*"Mae rolau a chyfrifoldebau wedi eu diffinio'n glir, ac mae arweinwyr a rheolwyr ar bob lefel yn cael eu dwyn i gyfrif am eu gwaith."*

*"Mae'r ysgol yn dadansoddi data yn drylwyr i osod targedau heriol ar gyfer disgyblion a monitro eu cynnydd yn eu herbyn.  Mae arweinwyr pynciau a thimau blwyddyn yn defnyddio'r data hwn yn llwyddiannus iawn i lywio addysgu a dysgu a chymell disgyblion i lwyddo."*

*"Mae prosesau'r ysgol ar gyfer hunanarfarnu a gwella ansawdd yn rhagorol.  Caiff ansawdd yr addysgu a'r dysgu ei fonitro mewn modd trylwyr iawn."*

**Astudiaeth achos 8 – Ysgol Gyfun Sandfields, Castell-nedd Port Talbot**

Ysgol gyfun gymysg 11 i 16 oed yw Ysgol Gyfun Sandfields, sy'n gwasanaethu ardal Sandfields ym Mhort Talbot. Mae 637 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae gan ryw 40% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn ymhlith yr uchaf yng Nghymru ac mae gryn dipyn uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.4% ar gyfer ysgolion uwchradd. Mae disgyblion yn yr ysgol yn cynrychioli'r ystod gallu llawn. Mae gan ryw 11% o ddisgyblion ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig o gymharu â 2.6% ar gyfer Cymru gyfan. Mae gan 28% arall o ddisgyblion angen addysgol arbennig o gymharu ag 18.6% yn genedlaethol. Mae gan yr ysgol ddarpariaeth fawr iawn o adnoddau gwell yng Nghastell-nedd Port Talbot ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu cymedrol, difrifol, dwys a phenodol ac mae gan rai ohonynt anhwylderau'r sbectrwm awtistig.

Mae'r tîm arweinyddiaeth yn cynnwys y pennaeth, y dirprwy bennaeth a dau bennaeth cynorthwyol. Mae'r pennaeth, y dirprwy a'r pennaeth cynorthwyol wedi bod yn eu swydd ar gyfer y ddau arolygiad diwethaf. Mae'r pennaeth hefyd wedi cymryd yr awenau fel pennaeth Ysgol Glan Afan erbyn hyn cyn aildrefnu addysg uwchradd yng Nghastell-nedd Port Talbot pan fydd tair ysgol gyfun bresennol yn uno.

**Pa dri ffactor sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar wella safonau?**

1 Rhoi gweithdrefnau gweithredu safonol ar waith sy'n canolbwyntio ar yr effaith ar ddysgu. I gyflawni hyn, dilynwyd nifer o egwyddorion, dylai gweithdrefnau:

- fod yn syml ac ystyrlon;
- helpu athrawon i gyflwyno yn yr ystafell ddosbarth;
- bod yn ddealladwy (trwy fodelu, HMS a thrafod); a
- bod ar gael yn hawdd i athrawon trwy ddefnydd craff o dechnoleg.

2 Newid disgwyliadau. Mae'r arweinwyr yn siarad yn gyson am 'safonau uchel a disgwyliadau uchel'. Mae pob aelod o gymuned yr ysgol yn deall hyn ac yn rhannu'r dyheadau y mae'n eu cynrychioli.

3 Rhoi grym i arweinwyr canol fel eu bod yn cymryd cyfrifoldeb ac yn mentro, ac yn dwyn pobl eraill i gyfrif.

**Pa mor agos y mae'r ysgol yn cyd-fynd â'r cyfnodau a ddisgrifir yn y diagram taith i wella? Pam?**

Mae'r ysgol yn cyd-fynd yn agos â chyfnodau'r diagram taith i wella.

Ym 1996, gwnaeth yr awdurdod lleol hi'n glir i'r ysgol y gallai gau pe na bai gwelliannau'n cael eu gwneud. Ar yr adeg honno, 78% oedd y gyfradd presenoldeb. Y ganran yn cyflawni trothwy lefel 2 oedd 15%, a 50% yn unig a gyflawnodd drothwy lefel 1.

Dechreuwyd y broses newid gan bennaeth a benodwyd ar yr adeg honno. Yn y cyfnod hwnnw, defnyddiwyd dull o’r brig i lawr. Roedd yr arweinyddiaeth yn gyfarwyddol iawn. Dechreuodd perfformiad a phresenoldeb wella. Symudodd yr ysgol o anfoddhaol i ddigonol. Ymddeolodd y pennaeth ar ôl tair blynedd a dechreuodd y pennaeth presennol ar ei swydd.

Dechreuodd y broses o wella o symud o ddigonol i dda. Dechreuodd y broses o newid disgwyliadau, rhoi gweithdrefnau gweithredu safonol ar waith (ar gyfer dadansoddi data, arfarnu ac addysgu) a dosbarthu arweinyddiaeth. Barnodd yr arolygiad yn 2005 fod pump o’r cwestiynau allweddol yn dda a bod gofal, cymorth ac arweiniad yn dda gyda nodweddion rhagorol. Ar yr adeg honno, roedd presenoldeb wedi codi i ryw 90%. Roedd y ganran yn cyflawni trothwy lefel 2 wedi gwella i 33%, a chyflawnodd 84% drothwy lefel 1.

Ar ôl yr arolygiad, dechreuodd y broses o symud i ragorol. Defnyddiodd y pennaeth y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn sylfaen i gynllunio ar gyfer dull cydweithredol, agored a chynhwysol, a mesur cynnydd tuag ato. Er gwaethaf llawer o heriau, mae’r ysgol wedi sefydlu ethos hynod gynhwysol yn seiliedig ar ddisgwyliadau uchel iawn pob un o’i disgyblion. Yn yr arolygiad yn 2011, barnwyd bod perfformiad presennol yn rhagorol. Yng ngoleuni’r duedd gynaliadwy o wella ac ansawdd cyson iawn yr addysgu a’r arweinyddiaeth ar bob lefel, barnwyd bod rhagolygon gwella yn rhagorol hefyd. Ar yr adeg honno, cynhaliwyd presenoldeb ar 90%, cododd y ganran yn cyflawni trothwy lefel 2 i 54%, a chyflawnodd 87% drothwy lefel 1.

**Strategaeth ar gyfer gwella**

Anfoddhaol i ddigonol

- o’r brig i lawr;
- dull ysgolion dibynadwyedd uchel o ddefnyddio data a darparu gweithdrefnau gweithredu safonol; a
- ffocws cyfyng – presenoldeb, cyflawniad, ymddangosiad.

Digonol i dda

- codi disgwyliadau a herio canfyddiadau;
- datblygu cymuned yr ysgol a chysylltiadau gyda’r gymuned ehangach;
- diwygio gweithdrefnau gweithredu safonol i gael ffocws cliriach ar ddysgu; a
- rhoi grym i staff ar bob lefel.

Da i ragorol

- pwyslais ar arweinwyr dysgu ar bob lefel;
- rhannu arfer dda trwy hyfforddiant a defnydd hynod effeithiol o dechnoleg;
- rhoi grym i staff trwy ddefnyddio rhwydweithiau dysgu proffesiynol yn fewnol, ar lefel clwstwr ac yn genedlaethol; a
- chryfhau rôl a statws llais y disgybl.

**Camau Gweithredu**

**Anfoddhaol i ddigonol 1996-2001**

Ym 1996, ymwelodd y cyfarwyddwr addysg ar y pryd ac aelodau o'r awdurdod lleol ag Ysgol Gyfun Sandfields a mynegwyd pryder ynglŷn â'r deilliannau dysgu mewn perthynas â chanlyniadau arholiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 4.

Roedd y prif ddata yn destun pryder:

- Presenoldeb: 78%
- 5 TGAU A* i C: 15%
- 5 TGAU A* i G: 50%
- Cyfnod allweddol 3 Lefel 5 Saesneg: 43%
- Cyfnod allweddol 3 Lefel 5 Mathemateg: 41%
- Cyfnod allweddol 3 Lefel 5 Gwyddoniaeth: 40%

Adlewyrchodd yr ystadegau hyn yr angen i wella. Rhoddodd yr awdurdod lleol fygythiad y byddai'n cau'r ysgol pe na bai'r ystadegau meincnod hyn yn gwella. Penodwyd pennaeth newydd a oedd wedi bod yn ddirprwy yn yr ysgol am gyfnod byr.

Oddeutu'r cyfnod hwnnw, ymunodd yr ysgol â'r Prosiect Ysgolion Hynod Ddibynadwy. Diben hyn oedd ystyried strategaethau ar gyfer gwella'r ysgol. Yn ddiweddarach, ymunodd pob un o'r ysgolion yn yr awdurdod lleol â'r prosiect hwn.

Roedd defnydd effeithiol o ddata a chysondeb gweithdrefnau gweithredu safonol ymhlith y strategaethau allweddol. Fe wnaeth y pennaeth ar y pryd fabwysiadu syniadau o'r prosiect hwn a gynorthwyodd i wella'r safonau yn yr ysgol. Er enghraifft, cyflwynodd yr ysgol brofion diagnostig, fel profion darllen, profion asesu gwybyddol (CAT), profion Midyis a phrofion Yellis. Cyfyngwyd ar flaenoriaethau'r ysgol a chanolbwyntiwyd ar y "tair her", sef presenoldeb, ymddangosiad a chyflawniad. Llwyddodd yr ysgol i wella gweithdrefnau monitro hefyd i sicrhau cysondeb mewn addysgu a dysgu ar draws yr ysgol.

Ar yr adeg hon, sefydlwyd uwch dîm arweinyddiaeth gyda phennaeth newydd, dirprwy benaethiaid a rheolwyr canol allweddol yn ymgymryd â rolau arwyddocaol, yn enwedig ar gyfer gofal bugeiliol a chyflawniad disgyblion.

O ran presenoldeb, rhoddwyd gweithdrefnau gweithredu safonol ar waith lle rhoddwyd aelod o'r uwch dîm arweinyddiaeth yng ngofal presenoldeb ar draws yr ysgol gyfan. Cyflwynwyd strategaethau amrywiol yn unol â gwneud hyn yn flaenoriaeth ysgol gyfan.

O ran ymddangosiad, roedd gennym ffocws â dwy elfen iddi. Roedd yr elfen gyntaf yn ymwneud ag ymddangosiad adeiladau'r ysgol eu hunain, lle sefydlwyd diwrnodau paentio rheolaidd. Roedd yr ail elfen yn ymwneud ag ymddangosiad y disgyblion lle gwnaed ymdrechion i wella'r wisg ysgol.

Roedd yn amlwg fod yn rhaid gwella cyflawniad a dyma oedd y drydedd flaenoriaeth, gan fod hyn yn ddangosydd allweddol ar gyfer yr ysgol. Cyflwynwyd targedau ar gyfer pob pwnc, gyda ffocws ar bum gradd A* i C mewn TGAU. Er mwyn i hyn allu digwydd, fe wnaeth penaethiaid blwyddyn gyflwyno cyflawniad disgyblion yn eu cylch gwaith. Yn y flwyddyn gyntaf, fe wnaeth ein dangosydd TGAU wella i 29%, a phresenoldeb i 86%.

Dechreuodd barn rhieni wella, a dechreuodd cofrestr yr ysgol wella. Gwelwyd gwelliant graddol, ac erbyn 2005, roedd yr ysgol yn cyflawni 35% ar A* i C, 41% oedd y gorau yn y tair blynedd flaenorol, ac roedd presenoldeb wedi codi i 90%.

Yn ystod y cyfnod hwn, cafodd llawer o gyfeiriad yr ysgol ei yrru gan yr uwch dîm arweinyddiaeth. Er mwyn gallu cael cyflymiad parhaus, roedd yr uwch dîm arweinyddiaeth yn chwilio am ddatblygiadau newydd. Fodd bynnag, ar yr adeg hon, penodwyd pennaeth newydd a dechreuodd yr ysgol adnewyddu ei harferion rheoli o dan gyfarwyddyd y pennaeth newydd.

### O ddigonol i dda 2001-2005

Roedd ffocws newydd yr ysgol wedi'i gysylltu â datblygu'r gymuned, ail-egluro gweithdrefnau gweithredu safonol, a rhoi grym i staff ar bob lefel i sicrhau bod ethos clir a chyfeiriad cytûn ar gyfer gwella'r ysgol ochr yn ochr â datganiad clir yn gysylltiedig â phrif amcan yr ysgol.

Er mwyn galluogi arweinwyr dysgu i ddatblygu a thyfu o fewn y sefydliad, roedd yn rhaid strwythuro'r gweithdrefnau gweithredu i annog cyfranogiad staff a disgyblion. Roedd yn rhaid i'r broses fonitro ac arfarnu gwmpasu'r amcan hwn tra'n cynnal ffocws ar ddeilliannau a safonau. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o ddisgwyliadau yn ymwneud â phrosesau monitro ac arfarnu staff:

1. Roedd dadansoddi ar ôl arholiadau, ar sail data yn gysylltiedig â photensial cyn cyrhaeddiad blaenorol a Yellis yn arfer safonol ym mhob cyfarfod gyda'r pennaeth a'r dirprwy yn dilyn arholiadau'r haf. Roedd disgwyl i arweinwyr y cwricwlwm ddadansoddi pob agwedd ar y papur arholiad, marciau rhannol yn benodol, a gweithredu yn unol ag unrhyw anghysondebau. Trefnwyd y cyfarfodydd hyn ac roedd yr uwch dîm rheoli yn disgwyl i arweinwyr y cwricwlwm awgrymu meysydd i'w gwella. Defnyddiwyd data Llywodraeth Cymru, gan gynnwys teulu o ysgolion, FFT a data prydau ysgol am ddim yn gefndir i roi deilliannau yn eu cyd-destun a herio a chefnogi gwelliannau.
2. Roedd olrhain cynnydd disgyblion ar draws cyfnodau allweddol yn systematig ac yn seiliedig ar yr ysgol gyfan, ac roedd disgwyliadau yn golygu bod staff yn cael eu hannog i gael dealltwriaeth drylwyr o gynnydd disgyblion unigol. (gweler yr adran ar ddefnyddio cymorth TGCh i wella'r broses).
3. Roedd y ffocws ar bŵer pobl i wneud newidiadau effeithiol er mwyn effeithio ar ddeilliannau, ac nid i orlwytho staff â phapur. Mireiniwyd y broses hunanarfarnu a sefydlwyd offer cyson gyda staff i fonitro cynnydd. Roedd y rhain yn syml ac yn canolbwyntio ar ddeilliannau addysgu a dysgu, gyda chynlluniau gweithredu dilynol, nid traethodau deg tudalen nad oedd yn cynnwys ffocws ac yr oedd yn anodd eu defnyddio i fesur llwyddiant.

Er mwyn cynnal cysondeb, cafodd offer monitro penodol eu nodi a'u cytuno gan lywodraethwyr, staff a disgyblion.  Roedd hyn yn golygu bod y mesurau a gafodd eu defnyddio a'u cymhwyso wrth farnu safonau yn union debyg ar draws yr ysgol, gan wneud data a dehongliadau cymharol yn haws.  Roedd y meysydd lle cafodd yr offer monitro hyn eu dyfeisio a'u cymhwyso yn cynnwys:

- ffurflen arsylwi gwersi;
- rhestr wirio cofrestru;
- ffurflen arsylwi medrau allweddol;
- rhestr wirio llyfrau gwaith/ffeiliau;
- holiadur i ddisgyblion ar feysydd y cwricwlwm;
- holiadur i ddisgyblion ar ymddygiad/y system fugeiliol;
- holiadur i ddisgyblion ar ddiogelu; a
- holiadur i ddisgyblion ar y ffreutur.

Cafodd fformat nodweddion gweithredol allweddol eraill ei safoni hefyd.  Mae'r broses ar gyfer monitro cyfadrannau wedi'i gosod mewn cylch clir a rhoddir adborth mewn fformat cytûn.  Mae hyn yn cynnwys adrodd yn ôl am unrhyw argymhellion wrth lywodraethwyr sy'n cymryd rhan mewn arsylwi arfer eu hunain.  Mae strwythur penodol ar gyfer hunanarfarnu cyfadrannau ac mae hyn yn annog arweinwyr y cwricwlwm ac athrawon dosbarth i effeithio ar ddeilliannau a datblygiadau'r ysgol yn y dyfodol.  Mae cynlluniwr y flwyddyn ysgol yn datgan yn glir pryd a ble y cynhelir cyfarfodydd ysgol, er enghraifft cyfarfodydd timau blwyddyn, cyfarfodydd arweinwyr y cwricwlwm, cyfarfodydd adran, cyfarfodydd y cydlynydd anghenion addysgol arbennig, cyfarfodydd y cyngor ysgol.  Neilltuir meysydd bugeiliol a meysydd y cwricwlwm i'r uwch dîm arweinyddiaeth ac mae'n ofynnol iddynt weithredu fel ffrindiau beirniadol.  Mae hyn yn annog llif o wybodaeth o holl feysydd yr ysgol, ac mae'n hanfodol wrth bennu'r agendâu ar gyfer cyfarfodydd wythnosol yr uwch dîm arweinyddiaeth.

Un o nodau clir yr ysgol yw sicrhau bod yr holl rwystrau rhag llwyddo yn cael eu lleihau i'r eithaf o ran cynnydd disgyblion.  Mae'r ysgol wedi mabwysiadu dull ysgol o amgylch y plentyn i sicrhau bod disgyblion yn cyflawni eu potensial.  Mae hyn wedi arwain at sawl partneriaeth arwyddocaol.  Mae darpariaeth adnoddau gwell yr awdurdod lleol ar y safle.  Mae hyn yn cynnwys dosbarthiadau ac yn darparu ar gyfer ystod o anghenion; anhawster dysgu cymedrol, difrifol a/neu gymhleth/dwys, anhwylderau'r sbectrwm awtistig, disgyblion ag anhawster dysgu yn ogystal â disgyblion sydd wedi colli eu clyw yn ddifrifol, ac ati.  Disgwylir y bydd pob disgybl yn integreiddio ym mywyd yr ysgol, y bydd pob disgybl yn ennill o leiaf un cymhwyster ffurfiol tra byddant gyda ni, y bydd pob disgybl yn mynd ymlaen naill ai i'r coleg neu hyfforddiant.  Mae pob aelod o staff o'r adnodd yn cwblhau dyletswyddau ysgol gyfan, mae athrawon ynghlwm wrth adrannau penodol ac maent yn mynychu cyfarfodydd adran prif ffrwd er mwyn datblygu gwybodaeth bynciol, maent yn defnyddio ffurf gyson o asesu, ac yn cynnig mynediad hawdd at ddosbarthiadau eraill pe bai disgyblion yn dangos cryfder penodol mewn un maes.

Mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ganolfan yn yr ysgol, a bu ymgais i leihau gwaith papur ac annog dull mwy rhagweithiol o fynd i'r afael â phlant mewn angen. Mewn partneriaeth â New Sandfields Aberavon, (Cymunedau yn Gyntaf), gwnaed cynigion i gronfeydd cymunedol a phenodwyd gweithiwr ieuenctid i weithio yn yr ysgol o ganlyniad.  Cylch gwaith y gweithiwr ieuenctid yw ymgysylltu â disgyblion sydd mewn perygl a'u hailgyflwyno i'r cwricwlwm.  Roedd hefyd yn cynnwys gwaith ar ôl yr ysgol yn sgil cysylltiadau â chlybiau ieuenctid lleol, a gall y gweithiwr cymunedol gyfeirio disgyblion at weithgareddau sy'n canolbwyntio ar eu hamser y tu allan i oriau ysgol mewn modd mwy adeiladol.  Yn dilyn cynnig Ewropeaidd a oedd yn cynnwys mewnbwn gan yr ysgol, yr awdurdod lleol a chyrff anstatudol, defnyddiwyd yr ystafelloedd dosbarth symudol ar safle'r ysgol yn ganolfan dysgu oedolion.  Anogodd hyn ddysgu gydol oes wedi'i gyflwyno gan arbenigwyr yn ystod oriau ysgol, gan groesawu'r ethos bro.

Rhoddwyd blaenoriaeth i ddefnyddio TGCh fel mecanwaith cymorth ar gyfer y gymuned, staff a disgyblion ac mae hyn yn parhau i fod yn nodwedd allweddol o fenter yr ysgol o amgylch y plentyn.  Yn 2007, yn dilyn nifer o gyfarfodydd gyda'r awdurdod lleol, cytunwyd nad oedd un pwynt trydanol ym mhob ystafell yn ddigon i annog defnyddio TGCh ar draws y cwricwlwm.  Roedd y penderfyniad i ailweirio'r ysgol gyfan yn hollbwysig ac yn rhagofyniad ar gyfer system mewnrwyd yr ysgol gyfan a ddatblygwyd. Roedd hyn, ynghyd â chynnig mentrus am gyllid Ewropeaidd i wneud lle i addysg gymunedol yn yr ystafelloedd dosbarth symudol ar y safle, ac adnewyddu bloc gwag at ddefnydd disgyblion, yn golygu bod dwy ystafell TGCh newydd yn cael eu hadeiladu ochr yn ochr ag ystafelloedd newydd ar gyfer gwyddoniaeth, cerddoriaeth ac ieithoedd tramor.

Defnyddir TGCh fel offeryn olrhain allweddol ar gyfer cynnydd academaidd a bugeiliol fel ei gilydd.  Dyluniwyd y system yn fewnol ac mae'n cwmpasu gwybodaeth sy'n gysylltiedig â phroffil pob disgybl.  Mae'r system yn syml i'w defnyddio ac mae'n cynnwys manylion am y canlynol:

- cynnydd dyddiol disgyblion mewn gwersi;
- data presenoldeb;
- data ADY ac arweiniad ar strategaethau gorau ar gyfer cynnydd disgyblion;
- data Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy;
- targedau sy'n benodol i bob disgybl;
- adroddiadau ymddygiad; a
- gwybodaeth am wobrwyo.

Mae'r system hefyd yn cynnwys mynediad disgyblion a rhieni at feysydd penodol, gan gynnwys manylion am waith cartref a gwersi.  Gall staff fanteisio ar wybodaeth ac adnoddau HMS.  Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys strategaethau llythrennedd a rhifedd gyda dolenni cyswllt i wefannau perthnasol.  Defnyddir y safle i gyfleu gwybodaeth bwysig am ddyddiadau cau a gwybodaeth am y cyngor ysgol i ddisgyblion, gan gynnwys adran ar gyfer llais y disgybl.  Mae pwysigrwydd y fewnrwyd hon wrth ddatblygu dull a chyfathrebu cyson wedi bod yn agwedd hanfodol wrth wella safonau yn yr ysgol.

## O dda i ragorol 2005-2011

Mewn blynyddoedd diweddarach, mae'r pwyslais ar arweinwyr dysgu ar bob lefel wedi golygu bod yr ysgol yn rhannu arfer dda, yn rhoi grym i staff trwy ddefnyddio'r gymuned ddysgu broffesiynol yn fewnol, ar lefel clwstwr ac yn genedlaethol. Un nodwedd allweddol fu cryfder llais y disgybl a chynadleddau rhwng ysgolion i ddisgyblion, lle mae arfer orau wedi cael ei rhannu a'r effaith i'w gweld ar lefel ysgol sy'n cymryd rhan.

Mae addasrwydd darpariaeth y cwricwlwm wedi bod yn bwysig, ac yn arbennig yng nghyfnod allweddol 4, mae'r ysgol wedi ymdrechu i sicrhau bod opsiynau yn eang, yn gytbwys ac, yn bwysicach, yn llwyddiannus. Mae cyflwyno Bagloriaeth Cymru i bawb yng nghyfnod allweddol 4, ynghyd â medrau allweddol penodol, wedi effeithio ar fedrau'r disgyblion. Mae'r defnydd effeithiol o grantiau wedi arwain at adeiladu darpariaeth cerbydau modur ar y safle a llwyddiant ar lefel 2 ar gyfer disgyblion a ddewisodd astudio technoleg cerbydau. Mae partneriaethau 14-19 clir gyda'r coleg lleol ac ysgolion eraill, wedi galluogi disgyblion i ehangu eu dewisiadau. Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r fframwaith medrau wedi cael ei fapio a gall yr ysgol fonitro cyflwyno medrau trwy ddefnyddio matrics sy'n amlygu ble mae pynciau penodol yn cyflwyno medrau penodol yn eu rhaglenni astudio.

I gynorthwyo disgyblion yn eu cwricwlwm, neilltuwyd anogwyr dysgu yng nghyfnod allweddol 4, ac mae gan bob plentyn fentor yn gysylltiedig â Bagloriaeth Cymru a meysydd cyffredinol y cwricwlwm. Trefnir cyfarfodydd yn rheolaidd. I gynorthwyo parhad academaidd a bugeiliol o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3, mae'r clwstwr wedi penodi athro pontio sy'n gweithio ar gwricwlwm traws-sector ac ar rannu gwybodaeth. Mae'r unigolyn hwn yn treulio tair wythnos gyntaf mis Medi gyda'r garfan newydd yn rhoi cymorth bugeiliol iddynt, ac mae'n wyneb cyfarwydd i ddisgyblion a allai fod yn teimlo'n ofidus. Treulir gweddill y rôl yn y sector cynradd ym Mlwyddyn 5 a Blwyddyn 6. Mae cymorth bugeiliol yn cynnwys ystafell anogaeth ar gyfer disgyblion, y gallai fod angen eu datblygu yn gymdeithasol, a defnyddir gweithdai iaith a mathemateg i gyflymu medrau disgyblion, defnyddir rhaglen ailbrofion yn y ddau fedr i gadarnhau cynnydd a gwneud y broses ddysgu yn un unigol. Mae'r ysgol wedi canolbwyntio ar strategaethau ysgol gyfan yn y ddau fedr ar draws y cwricwlwm, ac mae'r system mewnrwyd wedi cael ei defnyddio'n effeithiol i hyrwyddo arfer dda wrth gyflwyno medrau allweddol.

Mae ochr weinyddu'r ysgol yn cynnwys strwythur rheoli clir a threfnir rheoli perfformiad i adlewyrchu strwythurau rheoli perfformiad athrawon. Mae'r un peth yn wir am y strwythur cynorthwywyr cymorth dysgu (CCD), gyda diagram llif yn y naill achos a'r llall yn amlinellu rolau a strwythurau rheolwyr llinell yn glir.

Yn sgil dechrau ffocws Llywodraeth Cymru ar lythrennedd, rhifedd ac amddifadedd cymdeithasol, yr her ar gyfer y dyfodol yw ymestyn y gymuned o amgylch yr ysgol ac ethos yr ysgol o amgylch y plentyn. Mae'r ysgol yn wynebu heriau wrth ymestyn set medrau disgyblion yn y ddau faes allweddol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru, tra'n sicrhau nad yw cyd-destun cymdeithasol yn amharu ar gynnydd disgyblion. Mae natur gynhwysol Sandfields yn golygu nad yw'r prif ddata yn aml yn cael ei rannu ddigon i gwmpasu natur lawn anghenion disgyblion yn yr ysgol, ac nid yw data cenedlaethol

cymharol yn cymharu tebyg a'i debyg. Er gwaethaf hyn, mae'r ysgol wedi'i meincnodi'n dda yn erbyn data prydau ysgol am ddim a data'r teulu o ysgolion.

Wrth gydnabod yr angen am fedrau llythrennedd a rhifedd sylfaenol, mae'n bwysig peidio ag anghofio datblygiad y plentyn o ran y cyfraniad a wnânt at eu cymuned fel dinasyddion y dyfodol. Felly, mae'n bwysig bod arweinwyr yn dehongli nodau cenedlaethol i sicrhau eu bod yn ystyrlon i gyd-destun unigryw amgylchedd ysgol. Os dywedir bod Sandfields wedi bod yn ysgol lwyddiannus dros y degawd diwethaf, mae hyn am fod ei staff a'i rhanddeiliaid wedi rhoi ystyriaeth briodol i anghenion unigryw ei disgyblion a'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu.

**Deilliannau**

Yn ei harolygiad Estyn yn ystod Chwefror 2011, barnwyd bod yr ysgol yn rhagorol ar gyfer y ddwy farn gyffredinol ac ar gyfer deilliannau, darpariaeth ac arweinyddiaeth.

Yn yr arolygiad, canfuwyd bod Sandfields yn ysgol ragorol oherwydd:

- mae'r cynnydd a wna disgyblion erbyn diwedd cyfnod allweddol 4 yn rhagorol;
- mae'r ymyriadau i wella medrau hanfodol yn hynod effeithiol;
- mae lefel y gofal, y cymorth a'r arweiniad a roddir i ddisgyblion yn eang ac yn galluogi athrawon i addysgu'n dda a disgyblion i ddysgu'n effeithiol; ac
- mae lefel eithriadol o uchel o gysondeb yn ansawdd yr addysgu a'r asesu.

Barnwyd bod rhagolygon gwella'r ysgol yn rhagorol oherwydd:

- mae'r pennaeth yn cynnig arweinyddiaeth ragorol i dîm ymroddgar iawn;
- mae hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella'r ysgol yn cael effaith dda iawn ar safonau a lles, ac mae'n cynnwys pob aelod o gymuned yr ysgol, gan gynnwys disgyblion; ac
- mae ethos yr ysgol yn hynod gynhwysol gan fod pob disgybl yn cael cymorth da a gallant wneud cynnydd da iawn.

Ers yr arolygiad, mae Sandfields wedi cynnal safonau da iawn. Yn 2012, bu ychydig o ostyngiad mewn perfformiad yn lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, y dangosydd pwnc craidd a'r pynciau craidd ar wahân ar lefel 2. Fodd bynnag, parhaodd pob un o'r dangosyddion eraill yn gryf. Does bron dim gwahaniaeth ym mherfformiad disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn eu cael. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn gadael heb gymwysterau, mae bron pob un ohonynt yn cyflawni trothwy lefel 1 ac mae'r mwyafrif yn cyflawni trothwy lefel 2. Mae presenoldeb yn parhau i fod yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg. Mae'r ysgol yn perfformio uwchlaw disgwyliadau yn lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, y sgôr pwyntiau wedi'i chapio ac ar gyfer presenoldeb. Mae data gwerth ychwanegol yn dangos bod disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn gwneud cynnydd gwell na'r disgwyl ym mhob dangosydd. Maent yn gwneud cynnydd llawer gwell yn lefel 2, lefel 1 ac yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio.

## Astudiaeth achos 9 – Ysgol Bryn Elian, Conwy

Ysgol cyfrwng Saesneg 11 i 18 oed yw Ysgol Bryn Elian sydd ag 880 o ddisgyblion a 52 o staff addysgu. Gan fod 22% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yr ysgol sydd â'r lefel uchaf o amddifadedd yng Nghonwy. Mae amddifadedd yn broblem gynyddol yn yr ardal ac mae'n effeithio yn anochel ar gyd-destun yr ysgol. Mae 67% o'r disgyblion yn cael prydau ysgol am ddim mewn un ysgol gynradd sy'n ei bwydo. Mae gan ryw 40% o ddisgyblion presennol Blwyddyn 9 a Blwyddyn 10 anawsterau darllen a sillafu. Mae gan yr ysgol corff llywodraethol a chyngor ysgol gweithgar. Penodwyd arweinwyr newydd yn yr ysgol yn 2008.

### Pa dri ffactor sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar wella safonau?

- Mynegir Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) ar ôl cael eu llunio trwy ymgynghori â phob aelod o staff, llywodraethwyr a myfyrwyr. Yn eu plith y mae gwella canlyniadau arholiadau a deilliannau gwerth ychwanegol, presenoldeb a chanfyddiadau rhanddeiliaid mewnol ac allanol, yn ogystal â lleihau cyfraddau gwaharddiadau. Mae mynegi'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol hyn ym mhob ystafell ddosbarth yn sicrhau bod staff a phlant yn canolbwyntio ar y busnes gwella ysgol gyfan, wedi'i yrru gan ddeilliannau llawn data i sicrhau dull tystiolaethol, ffeithiol o wella ysgol. Mae ffactorau llwyddo hanfodol hefyd yn rhan o ddiagram Fulcrum sy'n crynhoi cyfeiriad teithio'r ysgol.
- Mae gwella ansawdd yr addysgu gyda phwyslais cryf ar fedrau dysgwyr trwy raglen DPP a rheoli perfformiad gydlynus yn ganolog i wella safonau. Mae arwyddair yr ysgol, 'Cyflawniad i Bawb' yr un mor berthnasol i bob aelod o staff a phlentyn, lle rhoddir pwyslais ar gryfhau medrau staff trwy ddigwyddiadau hyfforddi o ansawdd uchel a rhannu arfer dda. Buddsoddodd yr ysgol yn arbenigedd Paul Ginnis ac Alistair Smith mewn ymgais i symud addysgu o dda i ragorol. Mae'r cyfleoedd DPP hyn wedi cael effaith ddwys ar arfer ystafell ddosbarth. Mae staff yn gweithio ar ddatblygu medrau meddwl a dulliau addysgegol cymhleth er mwyn cynnig profiad o ansawdd uchel i'n dysgwyr.
- Mae pwyslais ar wasanaethau i ddisgyblion wedi cynnwys cyflwyno Mentoriaid Dysgu ar gyfer pob grŵp blwyddyn ac mae eu dyletswyddau yn cynnwys mynd i'r afael â phresenoldeb, cyflawniad academaidd, materion gwisg ysgol ac ymddygiad, yn ogystal â bod yn gyswllt cyntaf gyda rhieni. Mae pob Mentor Dysgu yn cynorthwyo'r Rheolwr Dysgu ar gyfer y grŵp blwyddyn hwnnw sy'n aelod o'r staff addysgu. Mae gwasanaethau i ddisgyblion wedi cael eu gwella hefyd gan raglen fentora lawn a manwl lle cynhelir trafodaethau gyda phlant am eu perfformiad a'u hymdrech academaidd trwy ohirio'r amserlen o leiaf bum gwaith y flwyddyn. Cynhelir y trafodaethau hyn gyda'r tiwtor dosbarth neu aelod o'r uwch dîm arweinyddiaeth yn dibynnu ar y grŵp blwyddyn a'r unigolyn. Caiff canlyniadau a data gwaelodlin eu rhannu ac fe gaiff grwpiau mentora eu mireinio yn unol â'r materion sy'n codi (prydau ysgol am ddim, oedrannau darllen a sillafu, anghenion dysgu ychwanegol, ac ati.)

**Pa mor agos y mae'r ysgol yn cyd-fynd â'r cyfnodau a ddisgrifir yn y diagram taith i wella? Pam?**

- Mae'r ysgol yn cyd-fynd yn agos â chyfnodau'r daith i wella ac mae'n teimlo ei bod yn symud o dda i ragorol a thu hwnt i'r nodweddion cyffredin ar draws yr holl gategorïau a fynegir yn y model taith yr ysgol i wella. Mae gan yr ysgol ddangosyddion perfformiad allweddol clir a diamwys a ffactorau llwyddiant hanfodol sy'n cael eu mynegi mewn diagram ym model Fulcrum. Rydym yn gweithio'n galed i sicrhau mai'r plentyn sydd wrth wraidd popeth a wnawn ym mhob penderfyniad a wneir ar lefel ysgol. Mae gan yr ysgol gyngor ysgol gweithgar y clywir ei lais, a gwrandewir arno. Mae menter All@YBE sy'n canolbwyntio ar fedrau llythrennedd wedi helpu i wella safonau ar gyfer disgyblion ynghyd â'r DPP o ansawdd uchel i gryfhau medrau staff yn yr ystafell ddosbarth. Mae pwyslais ar arfer ystafell ddosbarth yn hanfodol i lwyddiant yr ysgol ac fe gaiff hyn ei ddeall gan blant a staff fel ei gilydd. Caiff staff eu dwyn i gyfrif am eu meysydd cyfrifoldeb trwy gyfarfodydd cyswllt, rheoli perfformiad ac adolygiadau canlyniadau.
- Mae medrau llythrennedd, rhifedd a meddwl lefel uwch disgyblion yn parhau i gael eu datblygu trwy raglen All@YBE, yn ogystal â rhoi cyfleoedd datblygiad proffesiynol i staff allweddol i arwain y mentrau hyn a'u gyrru. Mae'r cymunedau dysgu proffesiynol wedi bod yn gyfrwng defnyddiol iawn i fwrw ymlaen â'r agenda medrau. Mae'r ysgol wedi penodi uwch arweinydd (DPP) i gymryd cyfrifoldeb am gyflwyno a datblygu Medrau Meddwl ar lefel uwch ar draws yr ysgol. Mae mireiniadau manwl i fentora disgyblion gan ddefnyddio'r agenda Medrau Meddwl yn arwain at drafodaethau mentora o ansawdd uchel rhwng staff a disgyblion.
- Mae gan reolwyr dysgu a mentoriaid gyfrifoldebau allweddol am fonitro a mentora cynnydd disgyblion ac maent yn cymryd rhan yn llawn mewn strategaethau ymyrraeth yn ymwneud ag anghenion disgyblion unigol. Disgwylir iddynt fonitro cynnydd disgyblion yn agos trwy system asesu fanwl yr ysgol ac maent yn cysylltu â'r cartref yn rheolaidd pan fydd angen canmoliaeth neu gymorth.
- Mae arsylwadau gwersi wedi hen ennill eu plwyf a byddant yn canolbwyntio ar un o'r targedau allweddol ar gyfer gwella'r ysgol er mwyn cael effaith gadarnhaol ar safonau. Bydd arsylwadau'r uwch dîm arweinyddiaeth yn canolbwyntio ar dargedau gwella ysgol fel llythrennedd neu rifedd fel bod gan yr arsylwi berthynas uniongyrchol â'r CGY. Mae gan bob aelod o staff darged rheoli perfformiad sy'n ymwneud â gwella'r ysgol gyfan, sy'n cael ei rannu, e.e. targed llythrennedd, neu rifedd yn lleihau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad ac amddifadedd.
- Mae asesu ar gyfer dysgu wedi'i ddatblygu'n dda yn yr ysgol ar draws mwyafrif helaeth yr adrannau ac mae'n fethodoleg sydd wedi hen ennill ei phlwyf yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r plant yn deall beth y mae angen ei wneud i wella'u gwaith ac maent yn cymryd rhan flaenllaw yn y trafodaethau gweithredol gyda staff.
- Mae'r ysgol wedi gweithio'n galed i sicrhau bod trafodaethau rhwng staff a disgyblion yn canolbwyntio ar wella arfer ystafell ddosbarth yn barhaus er mwyn codi safonau. Caiff staff eu hannog i ymchwilio ac adrodd yn ôl ar ddeilliannau i gydweithwyr fel bod arfer dda yn cael ei lledaenu. Cynigir cwrs iNet i ddysgwyr datblygol a dysgwyr datblygedig, sef HMS o ansawdd uchel sy'n datblygu gallu'r ysgol i barhau i wella. Bydd cydweithwyr yn cyfarfod â'u cymheiriaid ledled Cymru

ac yn dysgu o arfer dda ac yn ei rhannu mewn trafodaeth sy'n cael ei gyrru gan ymchwil am addysgu o ansawdd uchel. Mae HMS ysgol gyfan a chymunedau dysgu proffesiynol wedi arwain at weithgareddau'r farchnad lle bydd staff, fesul adran, yn rhannu ymchwil yn seiliedig ar weithredu ar addysgeg well yn ystod sesiynau hyfforddi.

- Mae'r cyngor ysgol yn cyfrannu'n llawn at y CGY ac ers y tair blynedd diwethaf, maent wedi cael targed o'u dewis i gyfrannu tuag at wella safonau. Yn y tair blynedd diwethaf, mae'r rhain wedi cynnwys e-ddiogelwch: beth sy'n gwneud dysgwr da, ac eleni, mae'r plant wedi gofyn am edrych ar gydraddoldeb a gwahaniaethu. Mae gan fyfyrwyr rôl sefydledig mewn cyfweld â staff ac maent yn bresennol mewn cyfarfodydd llywodraethwyr. Ymgynghorir â'r Cyngor ynghylch dogfennau polisi allweddol.

**Strategaeth ar gyfer gwella**

Nod strategol yr ysgol yw sicrhau 'Cyflawniad i Bawb' ac rydym wedi datblygu model lle mae'r nod hwn yn ganolbwynt, yn ffwlcrwm cyfres o liferi sy'n dynodi ffactorau a dangosyddion llwyddo hollbwysig. Mae'r rhain yn ymwneud â'r:

- Cwricwlwm
- Adnoddau
- Cymuned
- Cymdeithas
- Arweinyddiaeth a rheolaeth.

Yn cwmpasu'r cyfan y mae'r diben craidd a'r meini prawf llwyddo hollbwysig ac allweddol, addysgu ac asesu o safon uchel.

Mae'r ysgol wedi mabwysiadu model rhagoriaeth lle mae'r sail resymegol yn seiliedig ar feini prawf Y Sefydliad Ewropeaidd er Rheoli Ansawdd (EFQM) sy'n offeryn gwella perfformiad cydnabyddedig. Rydym wedi llunio cynrychiolaeth weledol o'r model yn crynhoi gwaith yr ysgol, yn ein Diagram Ffwlcrwm, ac mae i'w weld ym mhob ystafell ddosbarth yn yr ysgol. Mae'r Model Rhagoriaeth hwn yn offeryn ymarferol yr ydym wedi'i ddefnyddio i fesur gwelliant ac i fapio a gwirio lle'r ydym arni ar y llwybr at ragoriaeth. Rydym wedi amlinellu ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn glir, a byddwn yn mesur llwyddiant yn erbyn y rhain, gan ddiffinio prosesau a ffactorau llwyddo hanfodol. Mae'n fodel trwyadl sydd wedi ein helpu i arfarnu darpariaeth a safonau yn llawn. Mae fframwaith Estyn wedi'i integreiddio'n llawn â'r EFQM er mwyn sicrhau ymdrin yn llawn â'r holl Ddangosyddion Perfformiad Allweddol. Mae'r ddau strwythur yn darparu'r sgaffaldwaith ar gyfer hunanarfarnu trwyadl a gosod cyfeiriad strategol yr ysgol.

**Camau Gweithredu**

Cafodd Dangosyddion Perfformiad Allweddol a ffactorau llwyddiant hanfodol eu nodi'n ofalus yn dilyn adolygiad manwl o allbynnau canlyniadau yn ogystal â systemau ysgol.

Cytunodd staff, llywodraethwyr ac aelodau o'r cyngor ysgol mai dyma oedd y cyfeiriad strategol a'r gwaith allanol ymarferol er mwyn sicrhau llwyddiant yr ysgol. Roedd yn bwysig bod pob aelod o staff yn cytuno i'r broses hon, ac mewn ymgais i sicrhau bod synergedd rhwng strategaeth yr ysgol a'i rhanddeiliaid. Defnyddiwyd y model EFQM er mwyn i ni fesur ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol a'n Ffactorau Llwyddiant Hanfodol yn ei erbyn. O ganlyniad, cyflwynodd yr ysgol ddogfen fanwl yn amlinellu arweinyddiaeth, strategaeth, rheoli pobl, adnoddau, prosesau allweddol, dangosyddion rhanddeiliaid, canlyniadau i'r gymdeithas a chanlyniadau perfformiad allweddol i dîm Gwobrwyo Ansawdd Cymru. Cynorthwyodd y broses hon yr ysgol mewn arfarniad trylwyr a chafwyd ymyriadau perthnasol ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae'r broses arfarnol drylwyr hon wedi atgyfnerthu systemau hunanarfarnu'r ysgol a'r cynllun gwella ysgol. Caiff tueddiadau data eu hamlinellu a'u holrhain yn ofalus ar draws y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a rhoddir ymyriadau perthnasol ar waith i barhau â gwelliannau. Rhoddwyd y raddfa amser gwella yn dilyn ein harolygiad yn Hydref 2008 ar waith ar unwaith. Fodd bynnag, yr hyn sydd o fantais ynghylch diagram Fulcrum yw ei fod yn cynnwys gweledigaeth tymor byr, tymor canolig a thymor hir ar gyfer taith yr ysgol i wella.

## 1 Gwella ansawdd yr addysgu

Y camau allweddol wrth sicrhau bod gwelliant mewn addysgu yn yr ystafell ddosbarth oedd ymgais strategol fwriadol i wella gallu ymhlith pob aelod o staff wrth wella addysgeg gan ledaenu ymchwil gweithredu ymhlith aelodau eraill o staff. Cafodd targedau rheoli perfformiad eu halinio'n agos â'r blaenoriaethau yn y cynllun gwella ysgol bedair blynedd yn ôl. Un flaenoriaeth oedd gwella safonau llythrennedd, o ystyried y problemau cynyddol a gafwyd yn sgil derbyniadau newydd. Gosodwyd y targed hwn ar gyfer pob aelod o staff, gan gynnwys y pennaeth. Lansiwyd strategaethau llythrennedd trwy brosiect All@YBE ac fe gafodd gweithgareddau pontio mwy cyfyng eu cynllunio a'u rheoli i geisio cynorthwyo cydweithwyr cynradd yn y maes hwn. Mae rhannu proffiliau grwpiau blwyddyn yn fanwl wedi rhoi gwybodaeth lawn a phenodol i ni am nodweddion grwpiau o ddysgwyr sydd wedi galluogi i ni fireinio ein hymyriadau. Cyflwynwyd siaradwr o safon uchel, Paul Ginnis, i'r staff yn 2010. Ein blaenoriaeth oedd ysbrydoli staff a'u cymell i fyfyrio'n wrthrychol ar eu harddulliau addysgu eu hunain ac ystyried sut i wneud mwy o welliannau ymarferol er mwyn cysylltu â'n dysgwyr yn fwy effeithiol. Roedd yn bwysig bod pob aelod o'r staff addysgu yn cymryd rhan yn yr hyfforddiant hwn a bod gweithgareddau dilynol yn cael eu trefnu, fel nad oedd y symbyliad yn cael ei golli.

## 2 Pwyslais ar wasanaethau i ddisgyblion

Yn 2008, penododd yr ysgol Fentor Dysgu nad yw'n athro ar gyfer pob grŵp blwyddyn ac mae'n cynorthwyo anghenion dysgu'r plant ac yn ategu'r rhaglen rheoli ymddygiad. Daw eu teitl o bwyslais ar alluogi dysgwyr sy'n fyfyrwyr yn hytrach na phwyslais bugeiliol yn unig. Mae eu penodi wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r ysgol gan eu bod yn amlinellu ac yn olrhain presenoldeb, ymddygiad, cynnydd academaidd ac yn gweithredu fel cyswllt â'r cartref hefyd. Ar y cyd â hyn, penodwyd Rheolwr Dysgu ar gyfer pob grŵp blwyddyn yn hytrach nag ar gyfer cyfnod allweddol fel bod grŵp blwyddyn penodol yn

cael ei oruchwylio fwy a bod ganddynt fwy o gyfrifoldeb strategol amdanynt. Er bod y model yn ddrud, mae'n hynod werthfawr wrth sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu cynorthwyo'n dda gan yr ysgol a bod systemau cyfathrebu gyda rhieni yn well.

Lansiwyd system newid ymddygiad raddol a manwl iawn yn 2008 gan y dirprwy bennaeth ar gyfer gwasanaethau i ddisgyblion. Cafodd ei hysgrifennu a'i datblygu ar y cyd â'r cyngor ysgol, staff a llywodraethwyr. Mae wedi cael ei hadolygu yn ddiweddar a'i mireinio ymhellach ar y cyd â'r holl randdeiliaid, ac mae'n gweithio'n dda. Mae hyn yn golygu y gellir ymdrin yn gyflym ag ychydig bach o aflonyddwch mewn gwersi trwy systemau teg a chadarn. Mae cyfraddau gwaharddiadau yn yr ysgol dros y pedair blynedd diwethaf wedi gostwng yn sylweddol 37% o 2007-2008. Mae Canolfan Cymorth i Ddisgyblion yr ysgol bellach yn fodel y mae pob ysgol yng Nghonwy wedi'i fabwysiadu yn sgil ei effeithiolrwydd gyda phlant sydd ar fin cael eu gwahardd. Un gwaharddiad parhaol yn unig a gafwyd yn y pedair blynedd diwethaf.

Rhoddwyd cynllun mentora uniongyrchol ar waith er mwyn annog y plant i siarad am eu dysgu a'u cynnydd a meddwl amdanynt. Mae hyn yn ddigwyddiad sy'n cael ei gofnodi ar y calendr erbyn hyn ac mae wedi hen ennill ei blwyf yn yr ysgol. Roedd yn bwysig iawn bod plant a staff yn siarad am gynnydd disgyblion yng nghyd-destun gallu a thueddfryd pob unigolyn, ac mae hyn yn parhau. O ganlyniad, mae plant o amgylch yr ysgol yn mynd ati i fewnbynnu data ac yn holi sut gallant wella eu perfformiad ar gyfer y sesiwn fentora ddilynol. Mae hefyd yn sicrhau bod staff yn mewnbynnu data yn ystyriol ac yn gywir gan wybod y bydd yn destun trafodaeth gyda disgyblion. Gofynnodd aelod o staff am gael manteisio ar y cyfle i wella a datblygu'r sesiynau mentora ymhellach trwy edrych ar ddysgu myfyriol a datblygu Medrau Meddwl. Fe wnaeth yr aelod hwn o staff roi rhaglenni manwl ar waith yn llwyddiannus ar draws yr holl grwpiau blwyddyn, ac mae hyn wedi bod o fudd i'r plant ac wedi gwella ansawdd y broses fentora. Mae'r aelod hwn o staff yn arwain yr agenda Medrau Meddwl gyda'r uwch dîm arweinyddiaeth erbyn hyn fel rhan o'i datblygiad proffesiynol. Mae hi wedi ymchwilio i syniadau cyfredol ar draws ysgolion yn Lloegr er mwyn lledaenu arfer orau ym Mryn Elian. Mae hwn yn brosiect parhaus ac yn un y mae'r ysgol yn gyffrous iawn yn ei gylch.

**Deilliannau**

Mae perfformiad mewn TGAU wedi symud o 38.4% yn nhrothwy lefel 2 yn 2007 i 91.7% yn 2012, a throthwy lefel 1 wedi symud o 93.2% yn 2007 i 100% yn 2012. Mae'r ysgol yn y chwartel uchaf ar gyfer mwyafrif y Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn CA3 a CA4 ac mae mesurau gwerth ychwanegol yn dangos bod mwyafrif y disgyblion yn bodloni'r graddau a ragfynegwyd ar eu cyfer, neu'n rhagori arnynt. Mae canlyniadau Safon Uwch 2+ gradd A-C wedi symud o 60.5% yn 2009 i 92% yn 2012 a 2 radd A-E neu fwy 89% yn 2009 i 98% yn 2012. Mae nifer y graddau A* a ddyfernir mewn Safon Uwch wedi symud o 1.5% yn 2011 i 15% yn 2012.

Mae presenoldeb, sef 93%, yn y chwartel uchaf erbyn hyn, a byddwn yn parhau i weithio ar hyn. Mae pob un o'r plant ar system goleuadau traffig ar gyfer presenoldeb sy'n cael ei archwilio'n ofalus gan ein pennaeth cynorthwyol, ein swyddog presenoldeb, ein Rheolwyr Dysgu a'n tiwtoriaid dosbarth.

Mae'r ysgol wedi ennill Gwobr Aur BmP fel un o'r nifer fach o ysgolion yng Nghymru, ac fe'i disgrifiwyd gan yr asesydd fel ysgol "safon byd". Mae'r ysgol wedi ennill Gwobr Marc Ansawdd Cymru ar gyfer Dysgu am dair blynedd yn olynol, ac roedd ei sgôr EFQM dros 600 yn y ddwy flynedd, gan arwain at wobrau Aur.

Cynhelir arolygon Kirkland Rowell bob 18 mis. At ei gilydd, disgrifiwyd bod boddhad rhieni yn rhagorol ar gyfer yr ysgol yn arolwg 2010 gan Kirkland Rowell ac roedd yn eithriadol o uchel yn 2012, ymhell uwchlaw'r normau ar gyfer ysgolion eraill. Roedd rhieni'n llawn edmygedd o gyfleusterau'r ysgol a'r ffordd y datblygodd yr ysgol botensial eu plentyn ochr yn ochr â disgyblaeth yr ysgol a'u hamgyffrediad o hapusrwydd eu plentyn yn yr ysgol. Rhoddwyd sgôr perfformiad rhagorol am y ffordd y llwyddodd yr ysgol i ddatblygu hyder y disgyblion hefyd. Yr hyn a oedd fwyaf nodedig ynglŷn â'r arolwg rhieni yw bod yr ysgol wedi dangos dilyniant ar i fyny ym mhob un o'r meini prawf llwyddo dros 4 arolwg, yn cwmpasu 10 mlynedd.

Gellir gweld yr un darlun yn arolwg y disgyblion lle roedden nhw hefyd, wrth raddio'r ysgol yn gyffredinol, yn ystyried yr ysgol yn un ragorol. Dangosodd canfyddiadau disgyblion duedd ar i fyny yn yr holl feysydd pwnc academaidd dros y 10 mlynedd diwethaf ac roedd y disgyblion yn ystyried bod mwyafrif helaeth y pynciau yn rhagorol.

## Astudiaeth achos 10 – Ysgol Cwm Rhymni, Caerffili

Ysgol gyfun gymunedol cyfrwng Cymraeg ddynodedig yw Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ar gyfer disgyblion a myfyrwyr rhwng 11 a 18 oed. Fe'i cynhelir gan Gyngor Bwrdeistref Caerffili. Mae ganddi 1,400 o ddisgyblion ar hyn o bryd.

Ysgol menter cyllid preifat (MCP) yw'r ysgol, sy'n golygu bod yr adeilad a'r gwaith cynnal a chadw dan reolaeth cwmni masnachol.

Mae'r ysgol wedi'i lleoli ar gyrion pentref Fleur de Lys, ger y Coed-duon, ac mae dalgylch yr ysgol yn cwmpasu sir gyfan Caerffili. Mae un deg tri y cant o ddisgyblion wedi eu cofrestru yn ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.4%. Yn sgil y cynnydd mewn niferoedd, bydd disgyblion yn Ysgol Gynradd Caerffili, Ysgol Y Castell ac Ysgol Ifor Bach yn mynychu safle Gwyndy ym Medi 2013. Bydd y safle dan arweinyddiaeth Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, a bydd ganddo'r un corff llywodraethol.

Mae arweinyddiaeth yr ysgol wedi bod yn sefydlog, ac mae wedi cael tri phennaeth er 1981 pan agorwyd yr ysgol gyda 158 o blant. Penodwyd y pennaeth presennol ym Medi 2008. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth hefyd yn cynnwys dirprwy bennaeth, dau uwch bennaeth cynorthwyol a phum pennaeth cynorthwyol.

**Pa dri ffactor sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar wella safonau?**

- arweinyddiaeth gadarn, wedi'i seilio ar weledigaeth gytûn a chyfeiriad strategol clir;
- ethos unigryw'r ysgol a chynnydd disgyblion yn ganolog i bopeth; a
- ffocws parhaus ar lythrennedd ar draws y cwricwlwm.

**Pa mor agos y mae'r ysgol yn cyd-fynd â'r cyfnodau a ddisgrifir yn y diagram taith i wella? Pam?**

Mae'r diagram taith i wella yn amlinellu nifer o'r camau y mae arweinwyr Ysgol Cwm Rhymni wedi eu hystyried yn allweddol wrth i ni deithio tuag at ragoriaeth.

Gellid ei ddefnyddio fel offeryn hunanarfarnu neu ryw fath o 'ysgol cynnydd'. Byddai modd dathlu ac atgyfnerthu'r elfennau sydd eisoes wedi cael eu hymgorffori, trwy osod targedau ar gyfer strategaethau nad ydynt wedi cael eu datblygu cystal.

Gellid blaenoriaethu a gosod cerrig milltir i ddangos y camau sy'n cael eu cymryd i gyflawni'r nodau, pwy fydd yn gyfrifol am agweddau amrywiol a sut byddant yn cael eu datblygu, eu monitro a'u costio.

Byddai cynnwys llywodraethwyr yn y broses yn allweddol, ac efallai y byddai angen i rai ohonynt oruchwylio agwedd benodol, ac adrodd yn ôl iddynt ar gynnydd a wnaed yn y maes.

**Strategaeth ar gyfer gwella a chamau gweithredu**

O ganlyniad i'r arolygiad ym 1998, gwnaed y penderfyniadau canlynol:

- gwneud newidiadau sylfaenol i'r cwricwlwm a'r system bandio disgyblion;
- newid amseroedd y diwrnod ysgol (dechrau a gorffen yn gynharach) trwy ymgynghori â rhieni, llywodraethwyr, staff a disgyblion;
- newid yr amserlen (gwersi sy'n para awr, ac un wers yn unig yn y prynhawn);
- blaenoriaethu pynciau craidd i arwain y cwricwlwm;
- blaenoriaethu llythrennedd;
- cryfhau'r cyswllt ymhellach rhwng y clwstwr cynradd a phenaethiaid ysgolion cyfrwng Saesneg;
- cryfhau systemau i fonitro cynnydd;
- penodi cydlynwyr i godi safonau;
- ailstrwythuro'r uwch dîm arweinyddiaeth a phenodi tîm o benaethiaid cynorthwyol;
- datblygu ymhellach ein defnydd o SIMS ar gyfer cofrestru ac asesu electronig;
- dechrau cynllunio ar gyfer yr ysgol newydd; ac
- yn 2002, symud i adeilad newydd sbon.

O ganlyniad i'r arolygiad yn 2004:

- penderfynu ailstrwythuro staff mewn ffordd greadigol ac adeiladol, gyda'r nod o ddatblygu arweinyddiaeth;
- cryfhau systemau fel bod staff gweinyddol yn cydweithio'n agos iawn â staff a rhieni;
- fe wnaeth cynllun datblygu strategol 2006-2010 grynhoi'r ffocws clir yn dair elfen allweddol, sef datblygu medrau, olrhain cynnydd a hunanarfarnu, gyda chynlluniau datblygu adrannol i gydymffurfio â hyn, a cherrig milltir i'w monitro;
- cryfhau rôl y rheolwr cyswllt wrth fonitro'r uchod;
- ymateb i 'Llwybrau Dysgu 14-19' mewn ffordd raddol ac arloesol trwy bartneriaeth ag Ysgol Gyfun Gwynllyw;
- datblygu arweinyddiaeth ganol;
- sefydlu a datblygu medrau sylfaenol;
- cryfhau'r system penodi staff fel ei bod yn drylwyr a thryloyw gyda phwyslais amlwg ar addysgu;
- cryfhau'r ffocws ar fethodoleg, e.e. yr olwyn ddysgu, asesu ar gyfer dysgu, medrau meddwl, cyfathrebu a rhif;
- sicrhau bod darpariaeth newydd ar gyfer athrawon sydd newydd gymhwyso a myfyrwyr sy'n cael eu hyfforddi yn yr ysgol; mae nifer ohonynt wedi cael eu penodi i staff yr ysgol erbyn hyn ac mae nifer ohonynt yn gyn-ddisgyblion;
- ymateb i Gwricwlwm 2008 / Fframwaith Medrau;
- sefydlu Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn bwnc craidd o gyfnod allweddol 2 i'r chweched dosbarth; a
- chysylltu â rhieni i roi canmoliaeth lle bo'n briodol, yn ogystal â thynnu sylw at bryderon.

O ganlyniad i'r arolygiad yn 2010:

- gwella adrodd i rieni;
- gwella presenoldeb;
- datblygu cwricwlwm AMGEN (ar gyfer disgyblion nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) mewn cydweithrediad â choleg lleol;
- datblygu'r cwricwlwm ar gyfer pontio ymhellach trwy gyfrwng Cymhwyster Bagloriaeth Cymru;
- creu cynlluniau datblygu ysgol a datblygu adrannol blynyddol ar sail y tri chwestiwn allweddol yn Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn, sef safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth;
- datblygu mwy o systemau ar gyfer arsylwi cymheiriaid gyda ffocws cyffredinol neu ffocws penodol ar lythrennedd a rhifedd;
- sefydlu canolfan dysgu dwys gyda chyd-benaethiaid yn yr adran gymorth;
- ymateb yn briodol i'r system rheoli perfformiad newydd a phwysleisio datblygiad proffesiynol, cyfrifoldeb ac atebolrwydd unigolion;
- chwarae rhan amlwg ym mhwyllgor CYDAG de ddwyrain Cymru, e.e. trefnu hyfforddiant CBAC ar y cyd;
- arwain cymunedau dysgu proffesiynol arloesol gyda phedair ysgol arall gyfagos o'r un teulu gyda chydweithrediad yn y meysydd canlynol – uwch dîm arweinyddiaeth, pynciau craidd a phynciau nad ydynt yn rhai craidd (Cymraeg fel ail iaith – ysgolion cyfrwng Saesneg) a datblygu rheolwyr canol ac uwch reolwyr;
- cynllunio ar gyfer y fframwaith llythrennedd a rhifedd newydd;
- cynllunio ar gyfer agor Y Gwyndy ym Medi 2013;
- penodi uwch benaethiaid cynorthwyol, arweinwyr addysgeg a mentor pobl ifanc; ac
- ym Medi 2013, agor Y Gwyndy gyda'r nod o gynnig darpariaeth gyfartal a chynnal yr un safonau uchel.

**Deilliannau**

- barnodd arolygiad Estyn yn 2010 fod yr ysgol yn dda gydag elfennau rhagorol ym mhob maes (7 Gradd 1);
- cynnydd parhaus mewn perfformiad; perfformiodd yr ysgol yn gyson well na'r disgwyl ac roedd ymhlith y 25% uchaf o ddisgyblion o ran prydau ysgol am ddim;
- cynnydd graddol mewn presenoldeb;
- rhoddwyd yr ysgol ym mand 1 gan Lywodraeth Cymru yn 2011 a 2012;
- twf syfrdanol ym mhoblogaeth yr ysgol, sy'n dystiolaeth o enw da'r ysgol a ffydd rhieni;
- morâl uchel ac uchelgais barhaus staff a llywodraethwyr a adlewyrchir yn arwyddair yr ysgol –'Tua'r Goleuni';
- mae staff yn deall bod blaengaredd, brwdfrydedd a Chymreictod yn cael eu gwerthfawrogi a'r ffaith fod cyfle i bawb (staff a disgyblion) gyflawni eu potensial;
- staff ymroddgar, sefydlog sy'n rhannu'r un weledigaeth;

- mae nifer sylweddol o staff yn elwa ar brofiad o rannu syniadau ac arfer dda ar bwyllgorau, mewn cyfarfodydd ac mewn cynadleddau, e.e. Llywodraeth Cymru, Estyn, CYDAG, consortiwm y de ddwyrain a'r awdurdod lleol; ac
- ethos cyfeillgar, cefnogol, hapus ac uchelgeisiol, sydd wedi'i seilio ar yr egwyddor mai '*Cynnydd pob disgybl sydd wrth wraidd popeth'*. Mae hyn yn golygu cynnydd personol, cymdeithasol, diwylliannol ac ysbrydol yn ogystal â chynnydd academaidd. O ganlyniad i hyn, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus, ac maent yn falch o'r ffaith eu bod yn ddisgyblion yng Nghwm Rhymni.

## Astudiaeth achos 11 – Ysgol Glan y Môr, Gwynedd

Ysgol ddwyieithog naturiol i ddisgyblion rhwng 11 ac 16 oed yw Ysgol Glan y Môr. Mae'r ysgol yn gwasanaethu tref Pwllheli a'r ardal wledig gyfagos. Mae 537 o ddisgyblion ar y gofrestr.

Daw disgyblion o ardal nad yw, yn gyffredinol, naill ai'n ffyniannus na than anfantais yn economaidd. Mae un ar ddeg pwynt tri y cant (11.3%) o ddisgyblion yr ysgol wedi'u cofrestru yn ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ffigur hwn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.4%, mewn ysgolion uwchradd. Mae disgyblion sy'n cael eu derbyn yn cynrychioli'r ystod gallu llawn. Ar hyn o bryd, mae gan 2.9% o ddisgyblion ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 2.6%.

### Pa dri ffactor sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar wella safonau?

- Pwyslais ar hunanarfarnu
- Defnydd mwy effeithiol o ddata
- Datblygu cymunedau dysgu mewnol

### Pa mor agos y mae'r ysgol yn cyd-fynd â'r cyfnodau a ddisgrifir yn y diagram taith i wella? Pam?

Mae'r cyfnodau a nodir yn y diagram taith i wella yn galluogi i mi weld yn weddol glir ble rydym o ran y daith i ragoriaeth. Credwn y gallwn nodi sawl agwedd ar waith yr ysgol yn y blwch canol, sef 'Digonol /Da' ac, yn briodol iawn, rwyf hefyd yn teimlo ein bod yn rhoi rhai o'r camau ar waith sydd wedi'u hamlygu yn y blwch porffor, sef 'Da i Ragorol'.

Byddai'r diagram taith i wella yn ddefnyddiol iawn i'w ddefnyddio yn sylfaen ar gyfer trafod gyda phob un o staff a llywodraethwyr yr ysgol. Mae'n glir ac yn hylaw fel diagram taith i wella, ac o ganlyniad, mae'n hawdd i'w ddeall. At ei gilydd, credaf y byddai'n ddefnyddiol o ran galluogi uwch dîm rheoli i ddatblygu a grymuso rôl rheolwyr canol mewn ysgol gan fod hwn yn ddiagram taith i wella sy'n galluogi pawb i gynllunio'n well yn strategol er mwyn cael dylanwad cadarnhaol ar safonau.

### Strategaeth wella

Datblygu medrau llythrennedd dysgwyr ar draws y cwricwlwm sydd wrth wraidd yr hyn sydd wedi digwydd yn Ysgol Glan y Môr yn y blynyddoedd diwethaf.

Dyma oedd nodau'r gwaith:

- Datblygu ymwybyddiaeth yr holl adrannau a'r holl athrawon o'u rôl mewn datblygu llythrennedd ar draws y cwricwlwm, gan sicrhau eu bod yn cael arweiniad a hyfforddiant priodol er mwyn iddynt allu cyfrannu'n hyderus tuag at wneud hyn.

- Ymateb i anghenion llythrennedd yn strategaeth/arweiniad Estyn o ran arolygu llythrennedd.
- Ymateb i argymhellion arolygiad 2009 i sicrhau bod disgyblion yn defnyddio eu medrau siarad yn llawn ar draws y cwricwlwm.

**Camau gweithredu**

Rhannwyd camau gweithredu yn dri maes, sef: llafar, darllen ac ysgrifennu. Mae'r camau gweithredu, yn ogystal â'r deilliannau, i'w gweld isod.

**Llafar**

Yn 2010-2011, sefydlwyd gweithgor mewnol i gynnwys penaethiaid adran, ynghyd ag aelodau o'r adrannau iaith.

- Cytunwyd ar ddisgwyliadau.
- Addaswyd enghreifftiau – cynlluniau gwersi da/rhagorol.
- Sefydlwyd timau o athrawon i weithio gyda'i gilydd ar draws y cwricwlwm.
- Trefnwyd cyfleoedd i'r timau gyfarfod a chynllunio ar y cyd.
- Rhyddhawyd athrawon yn ôl yr angen i arsylwi gwersi ar y cyd. Lluniwyd adroddiad ar y gwersi a arsylwyd a rhannwyd adroddiadau ymhlith y partneriaid yn unig.
- Rhoddwyd holiadur i ganfod eu barn am gyfleoedd i ddatblygu eu medrau siarad mewn gwahanol ddosbarthiadau.
- Roedd yn hysbys mai'r maes hwn fyddai ffocws arfarniad ysgol gyfan ar ddechrau'r flwyddyn ysgol a rhoddwyd y broses hon ar waith yng Ngwanwyn 2011. (Cyflwynwyd adroddiad llawn i bob aelod o staff hefyd.)
- Fel parhad i'r broses, rhoddwyd sylw i'r maes yn Hydref 2011 pan gydweithiodd pob pennaeth adran ag ymgynghorwyr pwnc i arsylwi gwersi ar y cyd. Unwaith eto, cafwyd adroddiadau gan yr ymgynghorwyr.

Roedd y pwyslais trwy gydol pob un o'r uchod ar sicrhau bod disgyblion yn cael cyfle i ddatblygu eu medrau siarad. Roedd yn broses ddatblygiadol iawn ar gyfer rheolwyr canol, a sefydlwyd diwylliant o arsylwi gwersi ar draws y cwricwlwm, gyda ffocws ar wella safonau dysgu ac addysgu.

**Deilliannau**

- Nodwyd yn adroddiad hunanarfarnu'r ysgol fod mwyafrif y gwersi yn dda neu'n rhagorol o ran dysgu ac addysgu. Yn ychwanegol, siaradodd yr athrawon eu hunain yn gadarnhaol am y broses.
- Cafodd y broses ddylanwad cadarnhaol ar gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau yn y gwersi. Roedd mwyafrif y gwersi yn canolbwyntio'n llai ar yr athro a chynlluniwyd cyfleoedd da ar gyfer gwaith pâr a gwaith grŵp. Gwelwyd bod disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i ymarfer eu medrau siarad. Yn y gwersi a arsylwyd, cynlluniwyd nifer o weithgareddau difyr i sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd amrywiol i ymarfer eu medrau siarad.

- Nodwyd bod pwyslais priodol ar sicrhau bod disgyblion yn adrodd yn ôl ar lafar mewn ffordd gaboledig/estynedig mewn rhai gwersi ac yn ogystal bod disgyblion yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu medrau siarad dwyieithog o ganlyniad i'r ffaith fod tasgau'n cael eu cynllunio'n bwrpasol i ddatblygu eu medrau trawsieithu mewn rhai pynciau.
- Yn sgil y broses, cafwyd cylch arall o arsylwi a monitro yn 2011-2012 lle rhoddwyd sylw i ddatblygu medrau holi effeithiol yn yr ystafell ddosbarth i hyrwyddo dysgu. (Deilliodd hyn o'r argymhellion o adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn 2011).
- Yn ystod yr ail gylch, sefydlwyd timau gwahanol. Ar ddechrau'r ail gylch, sef Medi 2011, cafodd pum pennaeth adran hyfforddiant sirol yn y maes. Roedd y penaethiaid adran hyn wedyn yn gyfrifol am arian y timau trawsgwricwlaidd.
- Rhoddwyd ffocws ysgol gyfan i'r maes ar ddiwrnod HMS yn Ionawr 2012 ac wedyn rhyddhawyd amser i'r cymunedau dysgu mewnol weithio gyda'i gilydd.
- Prif ganlyniad yr ail gylch oedd sefydlu arfer fwy cyson ar draws y cwricwlwm o osod cwestiwn allweddol ar gyfer unedau gwaith, ac o fewn hynny, cwestiynau allweddol ar gyfer gwersi hefyd, e.e. hanes/addysg grefyddol.

**Darllen**

Mae'r ysgol yn ymdrechu'n barhaus i roi strategaethau effeithiol ar waith er mwyn datblygu'r medr hwn ar draws y cwricwlwm. Isod, rhestrir y strategaethau sydd ar waith yn yr ysgol:

- Rhannu data i sicrhau ymwybyddiaeth ysgol gyfan o oedrannau darllen disgyblion Blwyddyn 7 a Blwyddyn 8
- Rhannu data gydag ysgolion cynradd yn y dalgylch
- Cynllun darllen – Blwyddyn 7 yn benodol
- Clwb darllen bore – Blwyddyn 8 yn bennaf, i gynorthwyo'r disgyblion sy'n parhau i fod â medrau darllen gwan
- Strategaeth ysgol gyfan – darllen mewn pâr – ar waith ar draws y cwricwlwm

Yr her ar gyfer y dyfodol fydd sicrhau bod gennym ddeunyddiau addas ar gyfer y rhai y mae eu medrau darllen yn uwch na'u hoedran cronolegol. Byddai sicrhau hyn yn ymateb i argymhellion strategaeth Estyn ar gyfer disgyblion abl a dawnus.

**Deilliannau**

- Mae safonau darllen mewn Cymraeg yn cymharu'n dda iawn â safonau yng Ngwynedd ac mae gan 77% o ddysgwyr ym Mlwyddyn 7 oedran darllen sydd cystal â, neu'n well na'u, hoedran cronolegol erbyn Mai 2012.
- Mae'r ysgol hefyd yn olrhain cynnydd disgyblion sydd wedi bod yn rhan o'r cynllun darllen trwy edrych yn fanwl ar gyrhaeddiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 (lefel 5 neu'n uwch) ac ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 (trothwy lefel 2).
- Nid yw medrau darllen mewn Saesneg cystal â medrau mewn Cymraeg, ac mae angen i bron i hanner dysgwyr Blwyddyn 7 (48%) wella eu safonau darllen yn

sylweddol mewn Saesneg gan fod eu hoedran darllen dros 18 mis islaw eu hoedran cronolegol.
- Yn sgil y data uchod, mae'r ysgol wedi sefydlu Brushing Up English – strategaeth Blwyddyn 7, a fydd yn weithredol o Fedi 2012, sy'n cael ei dargedu at wella medrau llythrennedd Saesneg dysgwyr Blwyddyn 7. Hyderwn y bydd hyn yn ffordd o barhau i godi safonau.

## Ysgrifennu

Lansiwyd y gwaith hwn yn 2011-2012. Yn ystod yr un cyfnod, rhoddodd yr uwch dîm rheoli system newydd ar waith i fonitro ansawdd gwaith disgyblion yn eu llyfrau. Unwaith eto, y nod oedd datblygu medrau llythrennedd dysgwyr ar draws y cwricwlwm trwy ganolbwyntio ar ysgrifennu. Rhoddwyd sylw agos hefyd i gynlluniau gwaith fel rhan o'r broses. Roedd y cydlynydd iaith yn rhan o'r tîm a chyfrannodd yn helaeth at y broses cynllunio ac arfarnu.

Dyma oedd yr amcanion:

- sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu medrau ysgrifennu mewn gwersi, heblaw ar gyfer Cymraeg a Saesneg a'u bod yn gallu cysylltu mathau amrywiol o ysgrifennu â phob pwnc;
- cynnig mwy o arweiniad i staff ar gynllunio / darparu tasg lle mae angen; a
- sicrhau bod cysondeb mewn negeseuon ynghylch atalnodi, paragraffu a gramadeg ar draws y cwricwlwm.

Aethom ati i drefnu'r cylch ar gyfer monitro gwaith disgyblion. Nodwyd y byddai llyfrau disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 – disgyblion gallu uwch – yn cael sylw yn nhymor 1; gallu cymedrol yn nhymor 2 a gallu is yn nhymor 3. Ar ddiwedd pob cylch monitro, lluniwyd adroddiad cynhwysfawr, yn nodi cryfderau a meysydd yr oedd angen eu gwella. Fel dilyniant i bob adroddiad, treuliwyd amser yn cynnal cyfarfodydd gyda phenaethiaid yr adrannau hanes, addysg grefyddol, daearyddiaeth, Cymraeg a Saesneg i roi manylion ar gynnwys pob adroddiad a chynlluniwyd strategaethau i sicrhau gwelliant lle'r oedd angen. Roedd hwn yn gam allweddol yn y broses i sicrhau bod adrannau'n cymryd perchnogaeth o'r hyn a nodwyd yn yr adroddiad ysgol gyfan.

Ar ddiwedd y broses gyfan, cynlluniwyd deuddydd o hyfforddiant mewn swydd yn yr ysgol yn ystod tymor yr haf, 2012, i roi mwy o sylw i'r maes. Treuliwyd diwrnod yn rhoi manylion am y broses ysgrifennu a rhan o'r diwrnod yn rhoi sylw i ansawdd yr adborth ar waith disgyblion. Yn ychwanegol, cynhaliwyd archwiliad o'r gwahanol ffurfiau ysgrifennu y mae pob adran yn eu defnyddio/cynllunio ar gyfer dysgwyr mewn cynlluniau gwaith.

## Deilliannau

Mae'r broses wedi hyrwyddo dealltwriaeth well o gyfraniad allweddol yr holl athrawon a'r holl bynciau i hyrwyddo medrau llythrennedd disgyblion. Yn dilyn cyfnod HMS yr ysgol, disgwylir i bob adran a phob athro:

- sicrhau bod cyfleoedd i ddisgyblion greu mathau amrywiol o dasgau ysgrifenedig (y chwe thestun anllenyddol);

- sicrhau bod cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio ffurfiau amrywiol wrth gwblhau'r tasgau uchod;
- rhoi sylw i'r meini prawf ar gyfer y ffurfiau uchod – cynnwys ac iaith;
- defnyddio'r templedi a fydd yn cael eu rhoi ar y fewnrwyd;
- defnyddio'r arweiniad 'cylch ysgrifennu' sydd wedi'i nodi yn llyfryn iaith yr athrawon;
- rhoi sylw i'r cylch asesu gyda thasgau llythrennedd; a
- sicrhau bod posteri ar waliau ystafelloedd dosbarth, sy'n dangos y geiriau allweddol (18 gair – bydd adran y Gymraeg yn nodi'r geiriau allweddol).

Adnoddau newydd yn yr ysgol o ganlyniad i'r HMS:

- templedi ffurfiau ysgrifennu ar gael i bawb ar y fewnrwyd;
- arweiniad ychwanegol yn y llyfr cyswllt ar gyfer disgyblion;
- llyfryn "Datblygu Medrau Llythrennedd" cynhwysfawr ar gyfer pob un o'r athrawon;
- crëwyd matiau tabl ar draws pynciau (sillafu/atalnodi);
- crëwyd waliau llythrennedd yn yr ysgol – gan greu cymeriadau o'r gofynnod, collnod, ac ati; a
- defnyddio'r sgrin yn y neuadd i hyrwyddo negeseuon llythrennedd ar ddechrau cyfnod allweddol 3.

Mae cymuned dysgu llythrennedd ar waith eleni, o dan arweinyddiaeth y cydlynydd iaith.

Mae'r uwch dîm rheoli a'r cydlynydd iaith wedi dechrau proses debyg eleni o ran monitro ansawdd gwaith disgyblion ac mae ffocws y broses yn parhau i fod ar ysgrifennu. Y bwriad eleni yw adrodd yn fwy penodol ar safonau medrau ysgrifennu yn ychwanegol i farcio ac asesu ac ansawdd y profiadau ar gyfer disgyblion. Rhoddir sylw hefyd i wahaniaethu, ac o ganlyniad, edrychir ar waith disgyblion yn y tair haen gallu ym Mlwyddyn 9 yn Nhymor yr Hydref, ym Mlwyddyn 8 yn Nhymor y Gwanwyn ac ym Mlwyddyn 7 yn Nhymor y Gwanwyn/Haf.

**Casgliad**

Er Medi 2010, bu ffocws parhaus yn yr ysgol ar ddatblygu medrau llythrennedd dysgwyr ar draws yr ysgol mewn nifer o ddulliau a ffyrdd. Mae'r broses wedi sicrhau bod staff wedi cydweithio'n effeithiol trwy amrywiaeth o bartneriaethau i sicrhau dealltwriaeth well o'r maes allweddol hwn. Mae hyn wedi amlygu dealltwriaeth gyffredinol o ofynion a chyfrifoldebau ynglŷn â llythrennedd. Mae'r strategaethau amrywiol wedi cael effaith gadarnhaol ar gryfhau dysgu ac addysgu.

Er 2010, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 yn y dangosydd pwnc craidd a throthwy lefel 2, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, wedi golygu bod yr ysgol ymhlith y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Yn 2012, roedd perfformiad yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, ychydig yn uwch na'r perfformiad disgwyliedig.

**Astudiaeth achos 12 – Ysgol Gyfun Gŵyr, Abertawe**

Ysgol ddwyieithog ar gyfer disgyblion rhwng 11 ac 18 oed yw Ysgol Gyfun Gŵyr ac mae wedi'i lleoli yn Nhre-gŵyr, Abertawe. Sefydlwyd yr ysgol yn ysgol ar gyfer disgyblion rhwng 11 ac 16 oed ym Medi 1984, a sefydlwyd y chweched dosbarth ym 1996. Mae ethos agored, cyfeillgar a gweithgar wedi bodoli yn yr ysgol ers ei sefydlu, ynghyd â thîm o staff brwdfrydig sydd wedi ymrwymo i lwyddiant yr ysgol a'r disgyblion ym mhob maes.

Ar hyn o bryd, mae 737 o ddisgyblion yn yr ysgol, gan gynnwys chweched dosbarth, lle mae 145 o ddisgyblion. Mae canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim wedi bod rhwng 9% a 9.8% dros y degawd diwethaf ac mae'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol (17.4%). Mae gan yr ysgol Gyfleuster Addysgu Arbennig ar gyfer disgyblion ag anghenion dwys. Canran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yw 16.6%, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol (18.6%), a chanran y disgyblion sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig yw 2.8%, sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (2.6%).

Mae'r ysgol bellach yn wynebu twf sylweddol yn niferoedd y disgyblion. Mae rhagolygon yr awdurdod lleol yn dangos y bydd 1,000 o ddisgyblion yn yr ysgol erbyn Medi 2017, gan gynnwys 200 yn y chweched dosbarth, a disgwylir mwy o dwf hyd at 2019 a thu hwnt.

**Pa dri ffactor sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar wella safonau?**

1. Defnyddio data
   Roedd cyflwyno'r Set Data Craidd cenedlaethol yn gatalydd. Fe wnaethom ei roi wrth wraidd y broses hunanarfarnu ysgol-gyfan a'r cynllun strategol ysgol gyfan gyda'r prif ffocws ar godi safonau.

2. Arweinyddiaeth ddosbarthol well
   Yn sgil cyflwyno'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a Fframwaith Arolygu newydd Estyn, fe wnaethom ddechrau rhoi mwy o bwyslais ar ddeilliannau yn hytrach na phrosesau. Mae dealltwriaeth gliriach o arweinyddiaeth ddosbarthol wedi arwain at synnwyr gwell o atebolrwydd ar y cyd ar gyfer codi safonau ym mhob maes.

3. Addysgu a dysgu
   Mae addysgu a dysgu o ansawdd uchel wedi bod wrth wraidd gweledigaeth yr ysgol erioed. Er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y cwricwlwm, datblygwyd strwythur gwersi pum cam yn hyrwyddo'r cylch meddwl a medrau llythrennedd uwch. Cryfhawyd gweithdrefnau sicrhau ansawdd.

**Pa mor agos y mae'r ysgol yn cyd-fynd â'r cyfnodau a ddisgrifir yn y diagram taith i wella? Pam?**

Mae'r ysgol yn cyd-fynd ag adran Da i Ragorol y diagram taith i wella yn agos. Rydym wedi adeiladu ar bob un o'r cyfnodau datblygu eraill wrth symud ymlaen dros y degawd

diwethaf, ac rydym yn parhau i weithio ar ein targedau ysgol gyfan er mwyn gwneud rhagor o gynnydd mewn nifer o feysydd strategol allweddol, fel llythrennedd a rhifedd ar hyn o bryd i ymateb i'r Fframwaith Cenedlaethol newydd.

**Strategaeth ar gyfer gwella**

Penodwyd y pennaeth ar yr union adeg pan oedd yr ysgol ar fin wynebu cyfnod cythryblus o newid. Yn 2002, roedd 1,000 o ddisgyblion yn yr ysgol, a blwyddyn yn ddiweddarach, i ymateb i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg, penderfynodd yr awdurdod lleol agor ail ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn y sir. Er mwyn sefydlu'r ail ysgol, y bwriad oedd mynd ag ysgolion cynradd sy'n bwydo o ddalgylch Ysgol Gyfun Gŵyr a'u rhoi yn nalgylch yr ysgol newydd. Byddai hyn yn anorfod yn cael effaith andwyol ar y cyllid a'r staffio yn Ysgol Gyfun Gŵyr. O ganlyniad, dros y cyfnod hwn o saith mlynedd, collwyd cenhedlaeth o athrawon profiadol yn yr ysgol, gan gynnwys dau ddirprwy bennaeth. Er mwyn gwneud iawn am y golled hon, penodwyd pennaeth cynorthwyol ychwanegol ym Medi 2004, fel bod uwch dîm rheoli yn cynnwys y pennaeth a thri phennaeth cynorthwyol. Mae'r tîm bach ond effeithiol hwn wedi bod yng ngofal yr ysgol trwy gyfnod o ailstrwythuro sylweddol.

Yn ystod y cyfnod heriol hwn o ansefydlogrwydd a fygythiodd ddyfodol yr ysgol, fe wnaethom ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar gynnal:

- safonau academaidd uchel;
- ethos cadarnhaol;
- morâl cadarnhaol ymhlith staff; a
- hyder disgyblion a rhieni.

Gwnaed hyn trwy hunanarfarnu manwl a chynllunio ymlaen, cydweithio agos gyda swyddogion yr awdurdod lleol a'n chwaer ysgol uwchradd (Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe). Yn ystod y cyfnod hwn, bu'r ysgol yn weithgar iawn yn sefydlu partneriaeth 14-19 gyda Bryn Tawe, i ymateb i'r agenda Llwybrau Dysgu 14-19. Yn sgil y cydweithio cadarnhaol rhwng y ddwy ysgol, sicrhawyd manteision i'r ddwy ysgol trwy ehangu'r dewis o bynciau galwedigaethol 14-19 a sicrhau cyllid y chweched dosbarth o fewn Partneriaeth Chweched Dosbarth newydd a oedd yn arwain y sector, a gwella'r cwricwlwm yn sgil cyflwyno BAC Cymru yng nghyfnod allweddol 5 ac yna cyfnod allweddol 4 i bob disgybl.

Cynhaliwyd arolygiad yn 2005, ddwy flynedd ar ôl dechrau'r cyfnod ailstrwythuro, a dyfarnwyd tair gradd un a phedair gradd dau i'r ysgol. Y prif argymhelliad ar ôl yr arolygiad oedd codi safonau yng nghyfnod allweddol 3. Arweiniodd hyn at ffocws ysgol gyfan ar asesu ar gyfer dysgu yng nghyfnod allweddol 3, creu tasgau asesu dwys a gafodd lawer iawn o sylw mewn gwersi, a gosod targedau uwch ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 3. Erbyn 2008, gellid gweld effaith y strategaeth hon yn y deilliannau ar ddiwedd cyfnod allweddol 3. Wedyn, penderfynwyd symud y ffocws i gyfnod allweddol 4 fel bod deilliannau diwedd cyfnod allweddol 4 yn cyfateb i'r deilliannau ar ddiwedd cyfnod allweddol 3.

Roedd yr uwch dîm rheoli yn gwybod bod deilliannau ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 yn anghyson ac yn dibynnu ar y garfan. Dechreuwyd trafod ynghylch p’un a oedd y system fugeiliol yn cefnogi cynnydd disgyblion mewn dysgu yn ddigonol. Yn 2009, penderfynwyd ailstrwythuro rôl penaethiaid blwyddyn i fod yn benaethiaid dysgu a chynnydd a oedd yn arbenigo mewn un cyfnod allweddol. Hyfforddwyd anogwyr dysgu hefyd i weithio gyda disgyblion yn unigol, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4. Rhoddwyd cyfrifoldeb penodol i bob pennaeth cynorthwyol am godi safonau mewn un cyfnod allweddol unigol a gwella’r systemau ar gyfer targedu a chefnogi disgyblion fel bod mwy o gysondeb o un flwyddyn i’r llall erbyn hyn.

Dechreuodd ein hanes o wella yng nghyfnod allweddol 4 pan sicrhawyd dyfodol yr ysgol. Mae wedi’i seilio ar awydd cryf i wella, codi a chynnal safonau ar gyfer nifer fawr o’n disgyblion. Mae ein disgyblion cyfnod allweddol 4 yn astudio rhwng 10 a 12 o gymwysterau TGAU ac mae rhai disgyblion yn dilyn cyrsiau BTEC. Rhoddir dewis agored i ddisgyblion o ran eu llwybrau TGAU.

Un catalydd ar gyfer gwella cyrhaeddiad disgyblion cyfnod allweddol 4 oedd cael Data Craidd Cymru Gyfan. Rhoddodd y Data Craidd gyfle i ni weld perfformiad yr ysgol yn gliriach yn erbyn data teuluol, sirol a chenedlaethol. Gyda’r data craidd, cryfhawyd y broses hunanarfarnu a chynllunio strategol ysgol gyfan, ac roedd y prif ffocws ar godi safonau. Datblygwyd ein gallu fel uwch reolwyr a rheolwyr canol i ddefnyddio data mewn ffordd fwy soffistigedig a chynorthwyodd hyn y broses ar gyfer codi safonau. I godi safonau ymhellach, roedd angen gosod targedau ysgol mwy heriol os oeddem am gyrraedd y chwarteli uwch fel ysgol yn y grŵp < 10% prydau ysgol am ddim.

Y data meincnodi prydau ysgol am ddim oedd y data mwyaf heriol ar gyfer yr ysgol ac roedd yn ysgogi trafodaethau dirifedi ar lefel uwch dîm rheoli a gyda swyddog datblygu’r awdurdod lleol. Ar y graff meincnodi yn y set data craidd, roedd yr ysgol yn perfformio cryn dipyn yn uwch na’r disgwyl, ond nid oedd hyn bob amser yn cael ei adlewyrchu yn y chwarteli. Penderfynwyd cymharu ein canlyniadau gydag ysgolion rhagorol yn ein hawdurdod lleol a oedd yn yr un grŵp prydau ysgol am ddim ac i herio’n hunain i gyflawni safonau tebyg er mwyn gallu anelu at y chwarteli uwch.

O ddata craidd yr ysgol a data FFT, gallem asesu cryfderau a gwendidau’r ysgol. Penderfynwyd ceisio codi safonau yng nghyfnod allweddol 4, gan ganolbwyntio ar y pynciau craidd a’r dangosydd pwnc craidd. Teimlwyd yn gryf y dylai’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ein hysgol gyflawni o leiaf gradd C ac yn uwch yn y pynciau craidd – bron fel hawl addysgol – er mwyn gosod sylfaen gadarn ar gyfer eu cam nesaf, naill ai ym myd gwaith neu mewn addysg bellach neu addysg uwch. Ar yr adeg hon, roedd ein canlyniadau Cymraeg yn gryf, roedd gwyddoniaeth yn gwella ac roedd cwmpas ar gyfer gwella’r canlyniadau mewn mathemateg a Saesneg.

Mewn sesiwn hyfforddiant mewn swydd ym Medi 2009, rhoddwyd yr her gerbron staff addysgu’r ysgol inni godi ein disgwyliadau ac yn anelu at 85%+ ar drothwy L2. Aeth y pennaeth cynorthwyol perthnasol ati i gymryd gofal am y broses codi safonau yng nghyfnod allweddol 4 a chyflwynwyd strategaethau newydd – mae’r rhain wedi’u hamlinellu yn yr adran Camau gweithredu isod.

Ar yr un pryd, rhoddwyd ffocws ysgol gyfan ar fireinio safonau dysgu ac addysgu a sicrhau cysondeb addysgu a dysgu o ansawdd uchel ar draws adrannau. Datblygwyd strwythur gwersi 5 cam i hyrwyddo'r cylch meddwl a medrau llythrennedd uwch. Cynhaliwyd hyfforddiant mewn swydd ar hyrwyddo medrau meddwl a'r 'cylch meddwl' gydag adrannau amrywiol yn rhannu arfer dda yn frwdfrydig. Roedd proses monitro ysgol gyfan eisoes yn ei lle a mireiniwyd y broses hon trwy gyflwyno graddio arsylwadau gwersi ac arsylwi cymheiriaid. Adeiladodd y gwaith hwn ar draddodiad hirsefydledig o ddatblygu methodoleg yn yr ysgol trwy waith y gymuned ddysgu broffesiynol addysgu a dysgu, ac ar ymrwymiad staff i ddatblygiad proffesiynol. Addaswyd y ffocws ar reoli perfformiad i fod yn ffocws ysgol gyfan, yn ymdrin â dysgu ac addysgu a chodi safonau.

Hefyd, defnyddiodd yr ysgol y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn sylfaen ar gyfer hunanarfarnu ysgol, hyfforddiant a thrafodaethau gyda ffocws ar reolwyr canol a'r cysyniad o arweinyddiaeth ddosbarthol. Rhoddodd hyn lwyfan ar gyfer datblygu ein cynllun monitro ysgol gyfan a'n prosesau hunanarfarnu o fewn adrannau.

**Camau gweithredu**

**2009-2012**

- Ffocws ysgol gyfan ar godi safonau yng nghyfnod allweddol 4, yn seiliedig ar ddata craidd cenedlaethol.
- Aelod o'r uwch dîm rheoli yn cymryd gofal am godi safonau yng nghyfnod allweddol 4 ac yn sefydlu prosesau ymyrraeth o ran y rhai sy'n tangyflawni'n gyson yng nghyfnod allweddol 4 o un flwyddyn i'r llall.
- Gosod disgwyliadau uwch ar gyfer disgyblion ac adrannau – gan ddefnyddio targedau heriol.
- Hyrwyddo hunangred disgyblion trwy drafod ac annog - newid seicoleg - herio syniadau negyddol am botensial a newid hyn yn agwedd gadarnhaol am ddysgu a chyflawniad.
- Amlygu gwerth anelu'n uchel am raddau A*-C ym mhob maes ar gyfer disgyblion.
- Cyswllt cyson gyda rhieni, rhoi adborth a chael cymorth i darged tangyflawni.
- Targedu tangyflawni yn gynnar yng nghyfnod allweddol 4 ac yn gynharach trwy brosesau olrhain.
- System o sesiynau gwaith ar nos Lun ar gyfer disgyblion sy'n tangyflawni gydag anogwr dysgu yn bresennol.
- Ymyrraeth mewn systemau adrannol er mwyn sicrhau ansawdd a chyfleoedd ar gyfer disgyblion i wella safonau.
- Atebolrwydd rheolwyr canol/penaethiaid adrannau wrth drafod data craidd a data meincnodi.
- Pwyslais ar allbynnau, yn hytrach nag ar brosesau.
- Gwersi o ansawdd da yn anelu am ragoriaeth – pum cam strwythuredig, yn gosod nodau clir, gan bwysleisio datblygu medrau trwy'r cylch meddwl, gyda sesiwn lawn gadarn i gadarnhau dysgu a chynnydd disgyblion.
- Rheoli perfformiad yn canolbwyntio ar dargedau ysgol gyfan o ran codi safonau a dysgu ac addysgu.

- Adolygu a chryfhau'r system fonitro ysgol gyfan gan ganolbwyntio ar godi safonau a gwella ansawdd.
- Newid disgrifiad swydd penaethiaid blwyddyn – rôl newydd yn cwmpasu dysgu a chynnydd.
- Hyfforddi anogwyr dysgu – diffinio rôl glir sy'n canolbwyntio ar gynnydd disgyblion tuag at dargedau ac yn eu cynorthwyo i oresgyn problemau.
- Mabwysiadu hunanarfarniad ysgol gyfan ac adran, wedi'i seilio ar y fframwaith arolygu cyffredin newydd.
- Hunanarfarnu manwl sydd wedi'i seilio ar ddata a chynllunio strategol ysgol gyfan. Mae'r prif ffocws ar godi safonau'r ysgol gyfan – yr angen i bob Pennaeth Adran fod yn atebol am gyraeddiadau'r adran, dadansoddi data mewn hunanarfarniadau, a thargedu gwelliant – trafodaethau manwl ar ddata, hunanarfarnu adrannol a chynllunio ar gyfer y dyfodol rhwng y pennaeth adran a'r rheolwr cyswllt o'r uwch dîm rheoli.

**Deilliannau**

Yn 2010, gwelwyd effaith y ffocws ysgol gyfan ar y deilliannau ar gyfer trothwy lefel 2 a throthwy lefel 2 gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a mathemateg a dangosodd welliant. Wrth gwrs, yr her yw cynnal gwelliant parhaus. Parhawyd â'r un strategaethau a gwaith caled yn 2011 a 2012, gan godi ein targedau ysgol gyfan erbyn 2012 i 90%+ trothwy lefel 2.

**Dangosyddion perfformiad ar gyfer YG Gwyr CA4**

| | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| L 2 gan gynnwys Cymraeg/Saesneg | | | | | | |
| a mathemateg | 66 | 63 | 74 | 79 | 79 | 79 |
| Trothwy L2 | 72 | 77 | 75 | 86 | 83 | 88 |
| Dangosydd pwnc craidd | 51 | 65 | 62 | 74 | 79 | 79 |

Yn 2011, barnwyd bod yr ysgol yn ysgol ragorol oherwydd:

- gweledigaeth ac ymroddiad y pennaeth, y tîm rheoli a phob aelod o staff yn yr ysgol i sicrhau'r safonau uchaf ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol;
- y safonau uchel a gyflawnir gan ddysgwyr, a'r cynnydd a wnânt ar draws y cyfnodau allweddol;
- yr ethos teuluol sy'n gwarchod buddiannau'r holl ddysgwyr, beth bynnag fo'u cefndir neu eu gallu;
- ansawdd y partneriaethau 14-19 y mae'r ysgol wedi eu datblygu;
- profiadau o ansawdd uchel yn yr ystafell ddosbarth, a'r rhaglen eang o weithgareddau allgyrsiol; ac
- ansawdd uchel yr addysgu, y gofal, y cymorth a'r arweiniad.

Ystyriwyd bod y rhagolygon gwella ar gyfer yr ysgol yn rhagorol oherwydd:

- arweinyddiaeth a gweledigaeth y pennaeth, a'r cymorth cryf a gaiff gan yr uwch dîm arweinyddiaeth a phob aelod o staff yn yr ysgol;
- systemau cryf sy'n bodoli ar gyfer hunanarfarnu, monitro perfformiad dysgwyr a chynllunio ar gyfer gwella; a
- gallu'r ysgol i ddewis a dethol y mentrau priodol ar gyfer datblygu ansawdd yr addysgu, yr hyfforddi a'r rheoli.

Beth yw ein rhagolygon ar gyfer y dyfodol?  Rydym yn cadw at ein targed o 90% ar gyfer trothwy lefel 2 ac 80-85% ar gyfer trothwy lefel 2 gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a mathemateg.  Byddwn yn parhau i weithio'n systematig tuag at gynnal profiadau dysgu o ansawdd uchel ar gyfer ein disgyblion mewn amgylchedd addysgu a dysgu ysgogol.

## Rhan Dau: Gwella ysgolion

### Tasgau cyffredin i ysgolion ym mhob cyfnod datblygu

Gan amlaf, mae cwmpas i'r rhan fwyaf o ysgolion wella i ryw raddau, ac mae angen i rai ohonynt wella yn fwy nag eraill. Wrth i ysgolion geisio gwella o anfoddhaol i ddigonol ac wedyn da, neu wrth geisio gwneud ysgolion da yn rhagorol, efallai bydd angen iddynt fabwysiadu setiau gwahanol o strategaethau sy'n cyd-fynd â'u gwahanol gyfnodau datblygu.

Fodd bynnag, er bod gwahanol strategaethau ar gyfer gwahanol gyfnodau, mae rhai tasgau y mae angen i bob ysgol ymgymryd â nhw hefyd yn ystod pob cyfnod datblygu. Mae angen i bob ysgol:

- ddiffinio gweledigaeth a chyfeiriad strategol yr ysgol yn glir;
- sefydlu a chynnal ethos a diwylliant lle rhoddir y brif flaenoriaeth i wella safonau ar gyfer pob dysgwr;
- sicrhau bod gwella addysgu a dysgu yn cael ei weld fel y broses allweddol sy'n cyfrannu at wella a chynnal safonau uchel;
- dadansoddi data perfformiad i nodi meysydd penodol y mae angen eu gwella;
- rhoi ffocws cyson a chynaliadwy ar wella llythrennedd a rhifedd ar waith;
- cael disgwyliadau uchel a gwneud pob aelod o staff, yn enwedig y rhai mewn rolau rheoli, yn atebol am eu meysydd gwaith;
- rhoi dadansoddiad clir, dealladwy a gonest i lywodraethwyr o ba mor dda y mae'r ysgol yn perfformio a'u hannog i gyflawni eu rôl o herio'r ysgol i wneud yn well; a
- chyflwyno cwricwlwm sy'n bodloni anghenion pob dysgwr yn llawn.

Mae ysgolion yn gyffredinol yn nodi datganiad **gweledigaeth s**y'n crynhoi eu gwerthoedd a'u hamcanion strategol. Weithiau, mae datganiadau gweledigaeth yn datgan yr hyn sy'n gwbl amlwg, yn rhy annelwig, yn llawn ystrydebau neu nid ydynt yn llywio gwaith yr ysgol yn ddigon clir. I fod o werth, rhaid i ddatganiadau gweledigaeth fod yn ystyrlon a chael eu deall yn glir gan bawb sy'n gysylltiedig â nhw – staff, disgyblion, rhieni, partneriaid a'r gymuned ehangach. Mae gan ysgolion llwyddiannus weledigaeth sy'n cael ei chyfleu yn dda ac yn cynnig cyfeiriad strategol. Yn yr ysgolion hyn, mae'r weledigaeth yn treiddio trwy bob agwedd ar waith yr ysgol ac fe gaiff ei gwneud yn amlwg ym mhopeth a wna'r ysgol.

Wrth osod eu gweledigaeth a'u cyfeiriad strategol, nid yw'r ysgolion gorau yn colli golwg ar eu busnes craidd, sef sicrhau bod pob **dysgwr yn cyflawni'r** safonau y gallant eu cyflawni. Dylai ethos a diwylliant yr ysgol adlewyrchu'r diben craidd hwn. Nid yw ysgolion llwyddiannus yn colli eu ffocws ar yr angen i wella safonau. Nid yw'r ysgolion hyn yn dweud hyn yn eu dogfennaeth a'u penawdau yn unig, ond mae'n amlwg ym mhopeth a wna'r ysgol.

Mae gwella **addysgu** yn allweddol i wella a chynnal safonau uchel. Dylai pob ysgol, waeth ble mae wedi cyrraedd ar ei thaith, roi pwyslais ar drafod addysgeg effeithiol ac ar wella addysgu. Mewn ysgolion da neu well, mae lefel uchel o gysondeb yn ansawdd yr addysgu, a barnwyd bod bron pob un o'r gwersi o leiaf yn dda. Mewn ysgolion sy'n symud o anfoddhaol i ddigonol, nid yw lleiafrif o athrawon yn cynllunio'n ddigon da i fodloni anghenion pob un o'r disgyblion ac yn aml, ni chaiff y disgyblion mwyaf abl eu herio. Mewn ysgolion da neu well, mae dull cyson ac effeithiol o **asesu** yn nodwedd allweddol. Mae hyn fel arfer yn cynnwys defnyddio terminoleg gyson am asesu sy'n helpu i leihau amrywiad yn yr ysgol. Mae disgyblion yn cymryd rhan sylweddol mewn asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Mae'r rhan fwyaf o staff yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig o ansawdd uchel i ddisgyblion ynglŷn â'r hyn y mae angen ei wneud i wella eu gwaith.

Mae ffocws cyson a chynaliadwy ar **lythrennedd** a **rhifedd** yn flaenoriaeth ar gyfer pob ysgol. Mae ysgolion llwyddiannus yn deall y rôl allweddol sydd gan y ddau faes hyn, yn enwedig llythrennedd, mewn cynnig mynediad at y cwricwlwm ehangach ac wrth hyrwyddo safonau gwell ar draws y cwricwlwm. Maent yn glir ynglŷn â'r modd y gellir datblygu llythrennedd a rhifedd mewn Cymraeg neu Saesneg ac mewn mathemateg, a'u hymestyn trwy gyfleoedd cynlluniedig a graddol yng ngweddill y cwricwlwm. Strategaeth ddatblygedig a chydlynu agos yw'r cynhwysion allweddol ar gyfer gwneud i hyn lwyddo.

Mae ysgolion llwyddiannus yn dadansoddi **data perfformiad** yn agos ac yn fanwl. Mae'r ysgolion hyn yn gweld dadansoddi data nid yn unig yn ffordd o asesu lefel eu perfformiad, ond o nodi meysydd penodol y mae angen eu gwella. Mae angen i bwysigrwydd dadansoddiadau sy'n cymharu perfformiad yr ysgol â pherfformiad ysgolion tebyg neu gyrhaeddiad blaenorol disgyblion gael ei gydnabod yn llawn gan bob aelod o staff.

Mae cael **disgwyliadau uchel** o ran staff a disgyblion yn rhan allweddol o ddiwylliant ysgol lwyddiannus. Mae angen gwneud y disgwyliadau hyn yn glir a dealladwy. Mae angen i staff sy'n ymgymryd â rolau rheoli fod yn siŵr eu bod yn gwybod beth yw eu cyfrifoldebau a pha dasgau y bydd disgwyl iddynt ymgymryd â nhw ac i ba safon. Mae angen iddynt cael eu dwyn i **gyfrif** am yr hyn y maent yn ei wneud trwy brosesau rheoli perfformiad a threfniadau rheoli llinell. Mae gwaith rheolwyr canol yn aml yn wendid mewn ysgolion, yn enwedig o ran amrywiad mewn ansawdd. Mae'r amrywiadau hyn yn ansawdd rheolwyr canol yn aml yn deillio o reolaeth wan ar lefel uwch.

Mae gan **lywodraethwyr** ran bwysig mewn ysgogi gwelliant yn yr ysgol. Mewn ysgolion llwyddiannus, mae llywodraethwyr yn deall beth yw ystyr bod yn ffrind beirniadol ac nid ydynt yn trafod y rôl yn unig. Mae penaethiaid yn rhoi dadansoddiadau clir, dealladwy a gonest iddynt o ba mor dda y mae'r ysgol yn perfformio. Wedyn, caiff y wybodaeth hon ei defnyddio gan lywodraethwyr i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella a herio'r ysgol i wneud yn well.

Mewn ysgolion llwyddiannus, mae staff yn meddwl yn ofalus ynglŷn â sut i ddyfeisio **cwricwlwm** sy'n bodloni anghenion pob dysgwr. Mae hyn yn arbennig o wir yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth lle cynigir opsiynau i fodloni anghenion

amrywiol y disgyblion. I fodloni anghenion a diddordebau disgyblion yn llawn, mae angen gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod ystod addas o gyrsiau ar y lefel briodol. Mae ysgolion llwyddiannus yn edrych yn ofalus ar eu darpariaeth yng nghyfnod allweddol 3 hefyd ac yn ceisio cynnig dilyniant yn nysgu disgyblion o ysgolion cynradd, yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd, ac yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu paratoi i ddewis yn ddoeth ar gyfer cyfnod allweddol 4.

**Symud o anfoddhaol i ddigonol**

Pan fernir bod ysgol yn anfoddhaol mewn agweddau ar ei gwaith, bydd angen iddi fabwysiadu strategaethau sy'n ychwanegol i'r rhai a restrir uchod. Nodwedd allweddol y dull a ddefnyddir gan ysgol yn y cyfnod datblygu hwn yw dull cyfarwyddol ac o'r brig i lawr i raddau helaeth, i ddelio'n gyflym â'r gwendidau sylweddol a nodwyd. Dyma yw'r agweddau tebygol y mae angen rhoi sylw iddynt ar frys:

- ymddygiad a phresenoldeb disgyblion;
- medrau llythrennedd sylfaenol;
- strwythurau rheoli;
- dadansoddi a defnyddio data perfformiad;
- hunanarfarnu;
- rheoli perfformiad; ac
- ethos ac enw da'r ysgol.

Yn yr ysgolion sy'n anfoddhaol ar y cyfan, mae **ymddygiad** neu **bresenoldeb** disgyblion fel arfer yn anfoddhaol. Fel arfer, ceir ychydig bach o aflonyddwch, ac yn aml, ceir achosion o gamymddwyn mwy difrifol. Mae presenoldeb yn llawer is nag y dylai fod, ac fel arfer, mae camau i'w wella wedi bod yn aneffeithiol. Daw gwella ymddygiad a phresenoldeb yn fan cychwyn hanfodol i roi gwelliannau graddfa ehangach ar waith sy'n cynnwys pob agwedd ar waith yr ysgol. Mae'n rhaid cyflwyno paramedrau clir ar gyfer ymddygiad derbyniol ac annerbyniol. Gallai hyn arwain at gynnydd tymor byr mewn gwaharddiadau, ond efallai y bydd hyn yn angenrheidiol i sefydlu ffiniau newydd o dderbynioldeb. Mae angen i'r disgwyliadau newydd ar gyfer ymddygiad gael eu cefnogi gan system gosbi raddol a ddeellir yn dda, ond mae angen system wobrwyo strwythuredig i ychwanegu at hyn hefyd. Ni fydd y disgwyliadau newydd am ymddygiad yn gweithio oni bai bod staff yn ymwybodol o beth yw ymddygiad annerbyniol ac i'r gwrthwyneb a'u bod yn derbyn bod yn rhaid iddynt ddilyn gweithdrefnau yn gyson. Ar gyfer presenoldeb, mae angen systemau i nodi a monitro'r rhai y mae eu presenoldeb yn wael, gan gynnwys nodi unigolion a grwpiau penodol. Law yn llaw â hyn, mae angen systemau trefnus, er enghraifft ar gyfer cynnal ymateb diwrnod cyntaf ac ar gyfer gweithio'n agos gyda swyddogion lles addysg ac asiantaethau eraill.

Mae hefyd yn debygol y bydd diffygion sylweddol ym **medrau llythrennedd** disgyblion. Cam cyntaf yw asesu medrau llythrennedd disgyblion fel bod safbwynt clir ynghylch pa ddisgyblion unigol y mae angen eu cynorthwyo ar unwaith. Mae'n debyg y bydd y cymorth hwn yn cynnwys rhaglenni ymyrraeth. Mae argyhoeddi staff y gallant i gyd gyfrannu at wella medrau llythrennedd disgyblion ac y dylent ddechrau cynllunio ar gyfer

datblygu medrau disgyblion, er enghraifft trwy gyflwyno dull ysgol gyfan cyson, yr un mor bwysig yn y cyfnod hwn.  Mae angen monitro'r broses a dylid sefydlu systemau i arfarnu pa mor dda y mae disgyblion yn dod yn eu blaenau, yn enwedig y rhai ar raglenni ymyrraeth.

Yn yr ysgolion hyn, mae'n debygol y bydd **strwythur rheoli** aneffeithiol ac mae'n debyg y bydd angen ailsefydlu uwch dîm arweinyddiaeth a diffinio rolau clir ar gyfer y rhai sy'n gysylltiedig.  Weithiau, ni fydd gan yr uwch dîm rheoli y gallu i symud yr ysgol ymlaen a bydd angen cyfethol aelodau eraill o staff i ffurfio tîm mwy o faint a mwy dawnus.  Mae angen ychwanegu at yr uwch dîm rheoli trwy gael strwythur rheoli canol clir ar gyfer adrannau/cyfadrannau a thimau bugeiliol, a system rheolwyr llinell i wella cyfathrebu ac atebolrwydd.  Mae angen strwythur cyfarfod sy'n hierarchaidd ac wedi'i amserlennu i ategu hyn.  Mae angen i gyfarfodydd ganolbwyntio ar safonau ac addysgu ac ni ddylent gael eu rheoli gan faterion gweinyddol.  Dylent gael agendâu clir a chanolbwyntio ar y camau i'w cymryd.

Mae'n debyg nad yw **dadansoddi a defnyddio data perfformiad** wedi'u datblygu ddigon, a'u bod yn anghyson neu'n arwynebol, ac nid oes systemau i gasglu gwybodaeth i olrhain cynnydd disgyblion neu nodi tangyflawniad.  Yn y cyfnod hwn, mae'n debyg y bydd y system yn canolbwyntio ar ddangosyddion bras yn unig ac ni fydd staff yn ddigon cyfarwydd na hyderus â defnyddio data eto.  Bydd angen pwysleisio wrth bob aelod o staff mai cymariaethau ag ysgolion tebyg a chyrhaeddiad blaenorol yw'r rhai mwyaf defnyddiol ac na ddylid goddef perfformiad gwael o gwbl.  Bydd angen i'r broses gynnwys dadansoddi data ar lefel y disgybl unigol a chyfuno'r rhain ar gyfer adrannau ac athrawon unigol.  Yn y cyfnod hwn, mae'n siŵr y bydd angen i'r pennaeth gynnal y dadansoddiad cychwynnol ar gyfer yr adrannau a sicrhau ei fod yn drylwyr a beirniadol.  Bydd hyn yn dangos i adrannau y math o ddadansoddi a ddisgwylir.

Mae dadansoddi a defnyddio data perfformiad yn ddechrau tuag at sefydlu **diwylliant hunanarfarnu**.  Bydd angen i hunanarfarnu gynnwys defnyddio tystiolaeth uniongyrchol o addysgu a dysgu hefyd, wedi'i seilio ar raglen arsylwadau gwersi a chraffu ar lyfrau.  Yn y lle cyntaf, mae'r rhain yn debygol o gael eu gwneud gan yr uwch dîm arweinyddiaeth ac yn canolbwyntio ar fodloni gofynion cytûn, er enghraifft wrth ddefnyddio cynlluniau gwersi, ansawdd ymgysylltu â disgyblion, a safon ymddygiad.  Mae'n hanfodol bod tîm arweinyddiaeth newydd yn llunio trosolwg yn gyflym o ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol.  Bydd angen ychwanegu at hyn trwy sefydlu **trefniadau rheoli perfformiad** i ganolbwyntio ar nodi a mynd i'r afael â thanberfformio.

Mae cymorth rhieni a'r gymuned yn ofynion hanfodol yn y broses wella.  Os yw ysgol yn anfoddhaol ar y cyfan, mae'n debyg fod ei henw da ymhlith **rhieni** a'r **gymuned leol** wedi dirywio a bod rhieni wedi dechrau symud eu plant i ysgolion eraill.  Blaenoriaeth allweddol yw dechrau adfer ymddiriedaeth rhieni a gallai hyn gymryd amser.  Bydd ond yn cael ei adfer yn llawn pan fydd safonau'n uchel.  Man cychwyn defnyddiol yw rhoi gwybodaeth o ansawdd uchel i rieni am waith yr ysgol ac am gynnydd eu plant.  Dylid gofyn am eu safbwyntiau ar yr ysgol yn rheolaidd.  Mae angen i uwch reolwyr fod yn hygyrch a dangos diddordeb yn safbwyntiau rhieni fel rhagflaenydd angenrheidiol i'w cael i ymgysylltu.

## Symud o ddigonol i dda

Wrth symud o ddigonol i dda, pan fydd y nodweddion a amlinellir uchod wedi'u sefydlu, mae ysgolion yn cyflwyno dull mwy cydweithredol o wella. Mae'r strategaethau yn y cyfnod hwn yn debygol o gynnwys:

- mireinio'r defnydd o ddata perfformiad;
- dosbarthu cyfrifoldebau arweinyddiaeth;
- datblygu arsylwadau gwersi ymhellach;
- sefydlu gweithgorau i edrych ar agweddau ar ddatblygu'r ysgol;
- system arsylwi cymheiriaid;
- llais y dysgwr; a
- gwella'r bartneriaeth gyda rhieni.

Bydd angen mireinio'r systemau a sefydlwyd i ddadansoddi data a nodi tangyflawniad fel eu bod yn cael eu defnyddio i osod **targedau disgyblion** unigol ac **olrhain cynnydd**. Sylfaen hyn fydd system olrhain i gasglu gwybodaeth am gynnydd disgyblion. Mae angen i'r system fod yn gyffredin ar draws yr ysgol, er y gallai adrannau gwell fod wedi datblygu eu systemau eu hunain heb system ysgol gyfan gyffredin. Bydd yn rhaid hyfforddi staff a bydd angen iddynt wybod pa fath o wybodaeth sydd ei hangen, pwy sy'n cofnodi'r data a phryd. Mae angen i'r wybodaeth fod yn seiliedig ar TG, dylai fod yn hygyrch i bob aelod o staff a dylid ei chyflwyno mewn ffurf syml. Dylai ganolbwyntio ar b'un a yw disgyblion uwchlaw neu islaw'r targed, a dylai gweithdrefnau diffiniedig ar gyfer delio â thangyflawniad ymhlith disgyblion ategu'r wybodaeth. I weithio, mae'r system yn dibynnu ar yr ysgol yn gosod targedau ar gyfer cyflawniad disgyblion ar ddiwedd y flwyddyn neu'r cyfnod allweddol. Dylid seilio'r broses gosod targedau ar nifer o ffynonellau gwybodaeth gymharol am berfformiad. Fodd bynnag, ni ddylai ddibynnu ar ddadansoddiad meintiol yn unig, a dylid ystyried gwybodaeth arall ansoddol a gosod targedau sy'n gyflawnadwy ond yn heriol o ganlyniad.

Wrth i'r strwythur rheoli ennill ei blwyf a bod staff yn ymgyfarwyddo â'u rolau a'u cyfrifoldebau, y cam nesaf yw datblygu **arweinyddiaeth ddosbarthedig**. Gallai hyn gynnwys rhoi mwy o gyfrifoldeb i'r uwch dîm arweinyddiaeth am faterion ysgol gyfan allweddol, gan gynnwys rhai y byddai gan y pennaeth gyfrifoldeb amdanynt. Dylai'r dull hefyd ymestyn i roi cyfleoedd i reolwyr eraill ymgymryd ag agweddau ar dasgau ysgol gyfan, neu ymuno â'r uwch dîm arweinyddiaeth dros dro ac ar gyfer tasg benodol. I wneud i hyn weithio, mae angen amser ar reolwyr sy'n ymgymryd â'r rolau hyn, ac mae angen iddynt deimlo'n hyderus fod y pennaeth yn ymddiried ynddynt i wneud gwaith da. Fodd bynnag, mae angen cael dull o sicrhau atebolrwydd trwy fonitro ac arfarnu rheolaidd, ond nid oes angen i hyn fod yn ymwthiol neu'n llawdrwm.

Erbyn hyn, bydd **arsylwadau gwersi** wedi dod yn nodwedd reolaidd a dderbynnir o fywyd ysgol. Y cam nesaf fydd ymestyn y dull hwn fel ei fod yn cynnwys rheolwyr canol yn gweithio ochr yn ochr â'r uwch dîm arweinyddiaeth mewn rhaglenni arsylwi. Dyma'r adeg gywir i symud y ffocws oddi wrth gydymffurfio â systemau ysgol at ganolbwyntio ar effaith addysgu ar ddysgu a safonau. Mae hyn yn debygol o olygu bod angen symud

oddi wrth ddull rhestr wirio at ddull sy'n fwy myfyriol. Byddai symud ymhellach oddi wrth hyn yn dechrau system **arsylwi cymheiriaid** ac yn gwahodd staff i gymryd rhan. Gallai fod yn bosibl caniatáu i'r staff hynny sy'n gwirfoddoli sefydlu'r system a'i rhedeg eu hunain gyda chyn lleied o fewnbwn ag y bo modd gan uwch arweinwyr.

I ddatblygu arweinyddiaeth ddosbarthol ac ymgysylltu â staff yn y broses wella, mae'n ddefnyddiol sefydlu **gweithgorau** ar agweddau ar ddatblygu'r ysgol. Mae angen dewis y testunau yn ofalus fel eu bod yn faterion dilys y mae angen mynd i'r afael â nhw a gallent, er enghraifft, gynnwys datblygu system gyffredin ar gyfer asesu ac adrodd. Dyma yw'r testunau posibl eraill sy'n debygol o gael effaith fuddiol ar wella'r ysgol yn y cyfnod hwn: datblygu medrau meddwl, addysgu addysg bersonol a chymdeithasol, a darpariaeth ar gyfer bwyta'n iach a ffitrwydd corfforol, ac addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

Dyma'r adeg i ddechrau gwrando'n fwy gofalus ar **lais y dysgwr**. Dylid cael ymateb priodol i awgrymiadau'r cyngor ysgol fel bod disgyblion yn deall bod eu safbwyntiau'n cael eu cymryd o ddifrif ac yn arwain at weithredu. Gellid sefydlu grwpiau eraill, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â bwyta'n iach a'r amgylchedd. Nid yw'n ddigon dibynnu ar y cyngor ysgol i ddarparu safbwyntiau ar fywyd ysgol a dulliau eraill sydd eu hangen i gael darlun cyflawn o farn disgyblion am eu hysgol. Mae arolygon rheolaidd yn un ffordd o wneud hyn a strategaeth ddefnyddiol arall yw sefydlu grwpiau ffocws o ddisgyblion i ystyried materion sy'n effeithio arnynt.

Pan fydd gan rieni hyder yn yr ysgol, y cam nesaf yw datblygu'r bartneriaeth gyda **rhieni** ymhellach. Dylai ansawdd unrhyw wybodaeth a anfonir at rieni fod yn uchel a rhoi manylion a sylwedd ar waith yr ysgol ac ar gynnydd eu plant. Dylid sefydlu systemau i gael safbwyntiau rhieni am yr ysgol, yn yr un modd â disgyblion.

## Symud o dda i ragorol

Mae ysgolion sydd wedi llwyddo i fod yn rhagorol wedi datblygu dull cydweithredol, agored a chynhwysol yn seiliedig ar ddisgwyliadau uchel, a llawer o gysondeb yn y ffordd y maent yn ymgymryd â phob agwedd ar eu gwaith. Mae'r strategaethau sy'n debygol o fod yn amlwg yn cynnwys:

- datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a meddwl ar lefel uwch;
- rheolwyr bugeiliol sydd â chyfrifoldeb am safonau;
- diwylliant sefydledig o arsylwi gwersi;
- ymgysylltu â staff wrth ymholi a myfyrio; a
- rôl arwyddocaol ar gyfer llais y dysgwr.

Yn y cyfnod hwn, mae'r ffocws ar wella medrau yn mynd yn llawer craffach gyda ffocws ar ddatblygu **medrau llythrennedd, rhifedd a meddwl lefel uwch disgyblion**. Mae angen i hyn fod yn rhywbeth y mae pob aelod o staff yn cymryd rhan ynddo ac mae angen iddo fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth gyffredin o'r hyn y disgwylir iddynt ei wneud. Rhaid i'r rhai sy'n cydlynu'r gwaith fod yn glir ynglŷn â'u cyfrifoldebau a dylai

pob aelod o staff wybod beth sy'n ofynnol ohonynt yn eu haddysgu a'u hasesu. Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu'r medrau yn soffistigedig a phenodol. Mae'n cynnwys arbenigrwydd a ddeellir yn dda rhwng addysgu a chymhwyso'r medrau ar y naill law a dim ond darparu cyfleoedd i 'ymdrin' â'r medrau ar y llaw arall. Dylai staff wybod pan fyddant yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ehangu eu medrau neu eu hymarfer mewn cyd-destunau newydd. Bydd cyfleoedd ar gyfer datblygu medrau i'w gweld mewn cynlluniau gwaith a chynlluniau gwersi, ond byddant yn dweud mwy na dim ond dangos bod medr wedi cael ei gynnwys yn y wers. Yn hytrach, bydd yn dweud sut y gellir datblygu a gwella agweddau penodol ar fedrau. Mae'r dull yn flaenoriaeth strategol a thra hysbys i bob aelod o staff, ac mae gweithdrefnau priodol ar gyfer monitro ac arfarnu'r gwaith.

Mae **rheolwyr bugeiliol** yn ehangu ystod eu cyfrifoldebau y tu hwnt i les disgyblion ac mae ganddynt gyfrifoldeb am safonau yn ogystal. Dyma fydd yr agwedd allweddol ar eu rôl a'u prif flaenoriaeth. Maent mewn sefyllfa dda i fonitro cynnydd disgyblion ar draws y cwricwlwm a nodi patrymau o dangyflawni. Caiff eu gwaith ei integreiddio â gwaith arweinwyr pwnc ac maent yn gweithio gyda'i gilydd tuag at gyflawni'r un nod. Ar y cyd ag athrawon dosbarth ac arweinwyr pwnc, cânt eu cynnwys yn agos mewn darparu pecyn cydlynus o strategaethau ymyrraeth i ddysgwyr.

Erbyn hyn, mae diwylliant o **arsylwi gwersi** wedi hen ennill ei blwyf. Mae'r ffocws yn gadarn ar safonau ac ar farnu addysgu a dysgu yn ôl pa mor effeithiol ydynt. Mae hyn yn golygu bod y ffocws ar y cynnydd a wna disgyblion mewn gwersi. Mae hefyd yn debygol y bydd arsylwadau yn thematig, er enghraifft, wrth arfarnu gweithdrefnau newydd neu agweddau newydd ar waith, fel ansawdd cyfnodau tiwtorial. Cynhelir sesiynau trefnus a rheolaidd i graffu ar lyfrau ac maent yn canolbwyntio ar ansawdd y gwaith y mae disgyblion yn ei gynhyrchu yn ogystal â chydymffurfio ag arferion ysgol gyfan.

Mae safon yr **asesu** ar draws yr ysgol o ansawdd cyson uchel erbyn hyn ac mae pob aelod o staff yn dilyn gweithdrefnau cytûn. Yn benodol, mae asesu yn sicrhau bod disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r meini prawf a ddefnyddir i asesu eu gwaith ac maent yn cael adborth llafar ac ysgrifenedig o ansawdd uchel. Mae staff yn gwybod beth sy'n ddisgwyliedig ohonynt wrth roi adborth ac mae dulliau yn dangos ychydig iawn o amrywiad ar draws yr ysgol. Deellir i'r dim mai prif ddiben asesu yw helpu disgyblion i wybod yr hyn y mae angen iddynt ei wella. Rhan allweddol o'r broses hon yw gofyn i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion, yn unol â meini prawf a ddeellir i'r dim.

Mae llawer o staff yn ymgymryd ag **ymholi a myfyrio** sy'n canolbwyntio ar weithgareddau cydweithredol i wella addysgu a dysgu. Gall pob aelod o staff gymryd rhan a lledaenir deilliannau yn eang trwy gymunedau dysgu proffesiynol a rhwydweithio ag athrawon mewn ysgolion eraill.

Yn y cyfnod hwn, mae defnyddio **llais y dysgwr** wedi hen ennill ei blwyf. Yn ogystal â chasglu eu safbwyntiau yn systematig ac ymateb iddynt, mae ysgolion rhagorol yn rhoi rôl sylweddol i ddisgyblion mewn gwella'r ysgol. Gall hyn olygu eu bod yn gwneud

cyfraniad pwrpasol a chynlluniedig at ddatblygu'r cynllun gwella ysgol, er enghraifft trwy gael cyfleoedd i ymgynghori â nhw ar ei brif flaenoriaethau. Mewn llawer o ysgolion rhagorol, mae disgyblion yn cymryd rhan yn y broses benodi trwy gyfweld ag ymgeiswyr yn ffurfiol ac yn anffurfiol. Yn gynyddol, mae ysgolion rhagorol yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan yn yr arsylwadau gwersi. Mae hyn gan amlaf ar ôl nodi eu rôl a hyfforddiant ar sut i gynnal arsylwadau a sut i roi adborth addas.

## Arweinyddiaeth yn ysgolion yr astudiaethau achos

Er bod yr astudiaethau achos yn fanwl, nid ydynt bob amser yn egluro nodweddion neu rinweddau personol penaethiaid yr ysgolion. Ond wrth gasglu'r astudiaethau achos, daeth yn glir i arolygwyr fod gan benaethiaid yr ysgolion rôl allweddol mewn gwireddu strategaethau. Gellir categoreiddio rhinweddau cyffredin y penaethiaid llwyddiannus hyn yn fras fel a ganlyn:

**Gwydnwch** Y gallu i ddelio â rhwystrau, siomedigaethau a phroblemau trwy wella a chadw'r daith i wella ar y llwybr cywir.

**Penderfyniad** Nid yw cynnydd bob amser yn digwydd yn ddidrafferth ac mae'n debygol y bydd cyfnodau anodd lle bydd amheuon a phroblemau yn ymddangos yn anorchfygol. Ond dyma ble mae penaethiaid llwyddiannus yn dangos eu penderfyniad wrth ddelio ag argyfyngau posibl a chadw golwg glir ar ble mae angen iddynt fynd.

**Optimistiaeth** Mae angen i arweinwyr gynnal y gred gref fod gwelliant yn bosibl ac y gellir defnyddio'r holl adnoddau sydd ganddynt i gyflawni hyn. Maent yn credu ac yn disgwyl y bydd pethau'n gwella, hyd yn oed trwy adegau anodd.

**Gwyleidd-dra** Ni ddylai 'ego' yr arweinydd darfu ar ddiben craidd cyffredin yr ysgol. Mae hyn yn gofyn bod arweinwyr yn gymharol ddiymhongar, gwylaidd ac yn parchu barn pobl eraill. Mae dull yr "arwr bennaeth" yn llai effeithiol yn y tymor hir na'r model arweinyddiaeth ar y cyd.

**Didwylledd** Nid yw arweinwyr llwyddiannus yn rhoi'r gorau i ddysgu ac mae ganddynt agwedd o fod yn agored i syniadau newydd a ffyrdd newydd o wneud pethau. Os byddant yn gweld rhywbeth sy'n gallu gwella'u gwaith, maent yn fodlon rhoi cynnig arno.

**Mentro** Mae'n anodd gwneud rhai gwelliannau heb fentro. Mae arweinwyr llwyddiannus yn cydnabod hyn ac maent yn fedrus wrth nodi a rheoli risgiau, ac yn achlysurol, maent yn mentro mewn gweithgaredd sydd o bosibl yn gynhyrchiol os gallant wneud hynny heb beryglu dysgwyr.

| | |
|---|---|
| **Cyfaddef eich bod yn anghywir** | O bryd i'w gilydd, mae angen i arweinwyr llwyddiannus gydnabod eu bod yn gallu bod yn anghywir ac mae angen iddynt fod yn ddigon hyderus i gyfaddef hyn a symud ymlaen cyn gynted ag y bo modd. |
| **Magu hyder** | Y prif adnodd mewn unrhyw ysgol yw ei staff. Mae arweinwyr llwyddiannus yn cael y gorau gan eu staff trwy wrando ar eu safbwyntiau a datblygu hyder staff. |
| **Busnes craidd** | Mae arweinwyr llwyddiannus yn glir fod eu busnes craidd yn sicrhau bod disgyblion yn gallu cyflawni o'u gorau. Maent yn cadw ffocws cyson ar hyn ac yn profi datblygiadau neu fentrau newydd yn erbyn yr hyn y gall ei wneud ar gyfer y busnes craidd. |
| **Modelu ymddygiadau** | Mae arweinwyr llwyddiannus yn aml yn sefydlu diwylliant lle mae staff yn gwneud ymdrech arbennig gan eu bod yn cael eu trin â gofal a thosturi. Pan fydd yr arweinwyr hyn yn gofyn i'w staff wneud pethau, maent bob amser yn esbonio pam mae'n bwysig ac yn aml yn modelu sut y dylid ei wneud. |

## Diagram taith i wella ysgolion uwchradd

### Nodweddion cyffredin ar draws pob categori:

- Diffinio mewn termau clir, diamwys ac ystyrlon beth yw **gweledigaeth a chyfeiriad strategol** yr ysgol
- Sefydlu a chynnal ethos a diwylliant lle gwneir **gwella safonau** yn brif flaenoriaeth a swyddogaeth ar gyfer pob disgybl
- Rhoi ffocws cyson a chynaliadwy ar wella medrau **llythrennedd** dysgwyr ar waith
- Gwneud pob aelod o staff, yn enwedig y rhai mewn rolau rheoli, yn **atebol** am eu meysydd gwaith
- Sicrhau mai **gwella addysgu** yw'r broses allweddol sy'n gallu cyfrannu at wella safonau a chynnal safonau uchel
- Diffinio rôl a chyfraniad **llywodraethwyr** trwy roi dadansoddiadau clir, dealladwy a gonest iddynt o ba mor dda y mae'r ysgol yn perfformio a'u hannog yn eu rôl o herio'r ysgol i wneud yn well
- Cyflwyno cwricwlwm sy'n bodloni anghenion pob disgybl yn llawn, gan gynnwys ystod eang o opsiynau yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y sector ôl-16 ynghyd â sefydliadau partner

| Anfoddhaol i Ddigonol | Digonol i Dda | Da i ragorol |
|---|---|---|
| Defnyddio dull **cyfarwyddol, o'r brig i lawr** ar gyfer delio â diffygion a nodwyd | Dechrau datblygu **dull mwy cydweithredol** o wella'r ysgol | Dull cydweithredol, agored a chynhwysol sydd wedi'i seilio'n gadarn ar **ddisgwyliadau uchel** ac yn dangos llawer o **gysondeb** ym mhob agwedd ar waith yr ysgol |
| Canolbwyntio ar wella **ymddygiad a phresenoldeb**:<br>• sefydlu paramedrau clir ar gyfer ymddygiad derbyniol ac annerbyniol<br>• sefydlu system o wobrwyo a chosbi<br>• gwneud staff yn ymwybodol o beth yw ymddygiad annerbyniol ac i'r gwrthwyneb<br>• nodi'r rhai y mae eu presenoldeb yn wael a sefydlu systemau i fonitro presenoldeb, ar gyfer ymateb diwrnod cyntaf, gweithio gyda swyddogion lles addysg | Datblygu systemau data perfformiad ymhellach i osod **targedau disgyblion** ac **olrhain cynnydd**:<br>• hyfforddi staff i ddeall a defnyddio'r system<br>• defnyddio system gyffredin ar draws yr ysgol<br>• cyflwyno gwybodaeth mewn ffordd syml<br>• gwybodaeth ar gael i bob aelod o staff<br>• defnyddio systemau TG<br>• gweithdrefnau diffiniedig ar gyfer delio â disgyblion sy'n tangyflawni | Mae pob aelod o staff yn mynd ati i ddatblygu **medrau llythrennedd, rhifedd a meddwl lefel uwch disgyblion**, ar sail:<br>• dealltwriaeth gyffredin o ofynion a chyfrifoldebau<br>• cynllunio cyfleoedd cydlynus a monitro cynnydd |
| Dechrau gwella **medrau llythrennedd** disgyblion:<br>• asesu medrau llythrennedd disgyblion<br>• darparu gwersi dal i fyny ar gyfer y rhai sydd â medrau lefel isel<br>• sicrhau bod pob un o'r athrawon yn cynllunio ar gyfer datblygu medrau disgyblion<br>• sefydlu systemau i fonitro cynnydd disgyblion | Datblygu dull **arweinyddiaeth ddosbarth**:<br>• rhoi mwy o gyfrifoldeb i aelodau o'r uwch dîm arweinyddiaeth am faterion ysgol gyfan allweddol<br>• rhoi cyfleoedd i reolwyr eraill ymgymryd ag agweddau ar dasg ysgol gyfan neu ymuno â'r uwch dîm arweinyddiaeth dros dro ac ar gyfer tasg benodol | Mae gan **reolwyr bugeiliol** gyfrifoldeb am safonau trwy:<br>• wneud hyn yn agwedd allweddol ar eu rôl<br>• monitro cynnydd disgyblion ar draws y cwricwlwm<br>• cymryd rhan mewn unrhyw strategaethau ymyrraeth |

| | | |
|---|---|---|
| Sefydlu **strwythurau rheoli** clir:<br>• sefydlu uwch dîm arweinyddiaeth<br>• diffinio rolau clir ar gyfer uwch reolwyr<br>• sefydlu strwythur rheolwyr canol ar gyfer adrannau/cyfadrannau a thimau bugeiliol<br>• sefydlu system cyswllt rheolwyr<br>• sefydlu strwythur cyfarfodydd | Datblygu **arsylwadau gwersi** ymhellach trwy:<br>• gynnwys rheolwyr canol ochr yn ochr â'r uwch dîm arweinyddiaeth mewn unrhyw raglenni arsylwi<br>• symud ffocws oddi wrth gydymffurfio â systemau'r ysgol i ganolbwyntio ar effaith addysgu a dysgu ar safonau | Mae diwylliant o **arsylwi gwersi** wedi'i sefydlu'n gadarn gyda ffocws cadarn ar safonau ac ar wella addysgu a dysgu |
| Sefydlu systemau i **ddadansoddi a defnyddio data perfformiad**:<br>• pwysleisio pwysigrwydd dadansoddi cymharol (i ysgolion tebyg a chyrhaeddiad blaenorol)<br>• dadansoddi data ar lefel disgybl a'i gyfuno i'r adran<br>• darparu dadansoddiad cadarn a beirniadol o berfformiad i adrannau | Sefydlu **gweithgorau** i edrych ar agweddau ar ddatblygu ysgol, er enghraifft:<br>• gweithdrefnau asesu ac adrodd;<br>• addysgu ABCh<br>• bwyta'n iach a ffitrwydd corfforol<br>• ADCDFE | Mae **asesu** yn gyson yn cynnwys:<br>• disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o feini prawf asesu<br>• adborth llafar ac ysgrifenedig o ansawdd uchel<br>• cyngor a ddeellir i'r dim ar yr hyn y mae angen ei wneud i wella safon y gwaith<br>• disgyblion yn asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion |
| Dechrau cyflwyno **diwylliant o hunanarfarnu** yn seiliedig ar ddadansoddi data ac arsylwi gwersi gan yr uwch dîm arweinyddiaeth, gan gynnwys ffocws ar:<br>• fodloni gofynion cytûn, er enghraifft mewn arsylwadau, cynlluniau gwersi, ymgysylltu â disgyblion ac ymddygiad | Gwahodd staff i fod yn rhan o system **arsylwi cymheiriaid**. Galluogi gwirfoddolwyr i sefydlu'r system a'i chynnal gyda chyn lleied o fewnbwn ag y bo modd gan yr uwch dîm arweinyddiaeth. | Mae llawer o staff yn ymgymryd ag **ymholi a myfyrio** sy'n canolbwyntio ar weithgareddau cydweithredol i wella addysgu a dysgu. Gall pob aelod o staff gymryd rhan ac fe gaiff deilliannau eu lledaenu. Mae hyn yn cynnwys cymunedau dysgu proffesiynol a rhwydweithio ag athrawon mewn ysgolion eraill. |
| Sefydlu t**refniadau rheoli perfformiad** effeithiol sy'n canolbwyntio'n bennaf ar nodi a mynd i'r afael â thanberfformio | Datblygu **llais y dysgwr** trwy:<br>• sicrhau bod ymateb i awgrymiadau gan y cyngor ysgol<br>• sefydlu grwpiau eraill fel SNAG neu bwyllgor Eco<br>• datblygu grwpiau ffocws i ystyried materion<br>• cynnal arolygon rheolaidd o safbwyntiau disgyblion | Mae gan **lais y dysgwr** rôl arwyddocaol mewn gwella'r ysgol, er enghraifft, trwy:<br>• gyfrannu at ddatblygu cynllun gwella'r ysgol<br>• cymryd rhan yn y broses benodi<br>• cymryd rhan yn y system arsylwi gwersi |
| Canolbwyntio ar sefydlu neu adfer enw da'r ysgol gyda **rhieni** a'r **gymuned** leol trwy:<br>• ddarparu gwybodaeth o ansawdd uchel am waith yr ysgol ac am gynnydd eu plant<br>• gofyn am eu safbwyntiau ar yr ysgol yn rheolaidd | Datblygu'r bartneriaeth gyda **rhieni** trwy:<br>• ddarparu gwybodaeth o ansawdd uchel am waith yr ysgol ac am gynnydd eu plant<br>• gofyn am eu safbwyntiau ar yr ysgol yn rheolaidd | |

## Sut gall ysgolion ddefnyddio'r adroddiad

### Arfarnu

Gallai ysgolion ddefnyddio'r holl dystiolaeth sydd ar gael sydd ganddynt i leoli eu hunain ar y continwwm a ddisgrifir yn y diagram taith i wella. Gellir defnyddio'r manylion yn y diagram i amlygu pa agweddau penodol ar y nodweddion cyffredin neu'r cyfnod penodol sy'n cael eu gwneud yn dda a'r rhai y mae angen rhoi mwy o sylw iddynt. Gallai hyn gynnwys nodi'r meysydd y mae angen gweithredu ynddynt a'r rhai y mae angen ymchwilio iddynt ymhellach neu newid dull yn sylweddol.

### Cynllunio

Gellir defnyddio'r adroddiad hwn i nodi camau gweithredu posibl a llywio cynllunio gwelliant. Mae'n nodi ffactorau allweddol sydd wedi gweithio mewn ysgolion ledled Cymru y dylid mynd i'r afael â nhw i sicrhau gwelliant cynaliadwy. Os yw'r diagram taith i wella wedi cael ei ddefnyddio fel offeryn arfarnu, gall y meysydd a amlygwyd i roi sylw iddynt ffurfio'r blaenoriaethau ar gyfer cynllunio strategol. Mae'r diagram taith i wella yn amlinellu dull graddol ar gyfer symud tuag at ragoriaeth, tra'n nodi anghenion sylfaenol o ran 'nodweddion cyffredin ar draws yr holl gyfnodau'. Gellir defnyddio'r diagram taith i wella yn ysgogiad ar gyfer yr ysgol i ymgymryd â gwaith ar y cyd ac ysgogi newid systemig.

### Cyfathrebu

Gall y diagram taith i wella helpu arweinwyr a staff i weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol a gall ddarparu iaith a dealltwriaeth ar y cyd. Mae'r diagram taith i wella yn rhoi canllaw a ffynhonnell gyfeirio gryno. Gellir defnyddio hyn i helpu staff i weld yr ymdrech strategol gyffredinol neu 'ddarlun mawr' o'r hyn sy'n digwydd yn yr ysgol a rhoi cydlyniad a diben i weithgareddau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant.

### Rôl llywodraethwyr

Gall y diagram taith i wella roi trosolwg clir o'r prosesau gwella ysgol y gallai llywodraethwyr eu defnyddio i gyflawni eu rôl. Yn benodol, bydd yn rhoi trosolwg strategol iddynt a gellid ei ddefnyddio i'w helpu i ddatblygu a gwella'u rôl wrth herio'r ysgol yn ogystal â nodi ble gallai fod angen eu cymorth. Mae'r diagram taith i wella yn cynnwys digon o fanylion i roi ffocws clir ar y strategaethau a all weithio wrth sicrhau gwelliant.

### Datblygiad proffesiynol

Gellid defnyddio'r diagram taith i wella fel ffynhonnell ddefnyddiol ar gyfer cynllunio datblygiad proffesiynol staff. Gellid nodi anghenion mewn perthynas â'r diagram taith i wella a gellid defnyddio'r diagram taith i wella fel cyfeirbwynt ar gyfer gosod unrhyw dargedau proffesiynol personol, grŵp neu ysgol gyfan. Gallai fod yn ddefnyddiol hefyd wrth gefnogi'r broses ar wneud penodiadau mewnol neu benodiadau newydd.